Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for an |
| **CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN** | **EXTRAORDINARY MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFA'R SIR<br>LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| **DYDD IAU<br>6 GORFFENNAF 2017<br>am 2.00 o'r gloch** | **THURSDAY<br>6 JULY 2017<br>at 2.00 pm** |

# R H A G L E N

1. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

   Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2. **NEWID I'R CYFANSODDIAD**

   Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fel y'i gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 12 Mehefin 2017.

3. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

   "Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

4. **YMATEB Y CYNGOR SIR I'R YMGYNGHORIAD CYN CYFLWYNO CAIS GAN HORIZON - CAM 3**

   Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **12 Mehefin 2017 a 6 Gorffennaf 2017** |
| **Pwnc:** | **Newid i'r Cyfansoddiad** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Dafydd Rhys Thomas** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**01248 752586**<br>**lynnball@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhelliad**

1. Diwygio adran 2.7.2 y Cyfansoddiad i ddarllen fel a ganlyn: -

   "Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cynnwys yr Arweinydd ynghyd ag o leiaf 2, ond dim mwy na 9 Cynghorydd arall, gan gynnwys Dirprwy Arweinydd; a bydd y cyfan yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Gwaith gan yr Arweinydd"

2. Cytuno bod nifer y swyddi ar y Pwyllgor Gwaith sy'n gymwys i dderbyn cyflog uwch yn codi, ar unwaith o 7 i 8.

3. Cytuno mewn egwyddor y dylai'r Cyngor gyflwyno cais i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) am ganiatâd i godi nifer Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gymwys i dderbyn cyflog uwch, o'r cap presennol o 15, hyd at uchafswm o 16.

4. Ar yr amod y bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r cais terfynol ac ar yr amod y ceir caniatâd gan PACGA, rhoi awdurdod i benodi Aelod pellach o'r Pwyllgor Gwaith (cyfanswm o 9) a fydd yn gymwys i dderbyn cyflog uwch.

5. Cydnabod y bydd penodi dau Aelod pellach o'r Pwyllgor Gwaith yn gost niwtral ar y sail y byddant yn cael eu cyllido o arbedion o gyflogau'r Dirprwy Arweinydd ac un Cadeirydd a fyddant, ill dau, yn parhau i wrthod y cyflogau uwch sy'n daladwy ar gyfer eu swyddi.

**Rhesymau**

| |
|---|
| - I adlewyrchu'r darpariaethau statudol yn a11(3) a (8) Rhan II Deddf Llywodraeth Leol 2000;<br>- I ddarparu'r hyblygrwydd mwyaf posibl a ganiateir, i ddosbarthu cyfrifoldebau yn y modd mwyaf effeithiol ac i alluogi'r Cyngor i ganolbwyntio'n well ar brosiect Wylfa Newydd. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Cadw'r sefyllfa fel mae ar hyn o bryd (Arweinydd a 6 Chynghorydd arall, gan gynnwys y Dirprwy Arweinydd), ond nid yw hyn yn darparu ar gyfer unrhyw gapasiti ychwanegol y gall bod ei angen i ganolbwyntio ar flaenoriaeth benodol. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r rhain yn faterion sydd wedi eu neilltuo i'r Cyngor ond mae'n rhaid, yn gyntaf, roi cyfle i'r Pwyllgor Gwaith fynegi barn / gwneud argymhelliad i'r Cyngor, pe bai'n dymuno gwneud hynny mewn perthynas â'r argymhelliad cyntaf; sy'n ymwneud â newid cyfansoddiadol. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Nid yw hyn yn berthnasol gan fod y penderfyniad terfynol yn disgyn ar y Cyngor llawn (yn amodol yn rhannol ar PACGA yn defnyddio ei ddisgresiwn) ac mae'r argymhelliad yn gyson ag a11 (3) a (8) Rhan II Deddf Llywodraeth Leol 2000. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Tra bod y Dirprwy Arweinydd a Chadeirydd Pwyllgor yn gwrthod uwch gyflog, mae o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor i benodi dau aelod arall o'r Pwyllgor Gwaith (gyda chaniatâd PACGA ar gyfer un ohonynt). |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Yn cefnogi'r cynnig |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Yn cefnogi'r cynnig |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Awdur yr Adroddiad |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| | **(TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amherthnasol ar hyn o bryd |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Deddf Llywodraeth Leol 2000<br>Adroddiad gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2017 |

This page is intentionally left blank

| CYNGRO SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **6 Gorffennaf, 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i Ymgynghoriad PAC3 Pŵer Niwclear Horizon.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Dr. Gwynne Jones, Prif Weithredwr**<br><br>**Awdur:**<br>**Swyddfa'r Rhaglen Ynys Ynni**<br>**ladpl@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752 435** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar ymateb yr Awdurdod i Ymgynghoriad PAC3 Pŵer Niwclear Horizon ar y Prosiect Wylfa Newydd.** |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Orsaf Niwclear Newydd arfaethedig yn Wylfa Newydd yn Brosiect Isadeiledd o Arwyddocâd Cenedlaethol fel y'i diffinnir yn Neddf Cynllunio 2008. Mae angen cyflwyno gorchymyn caniatâd i ddatblygu (DCO) mewn perthynas â'r brif orsaf bŵer. Mae Pŵer Niwclear Horizon yn rhagweld y bydd yn cyflwyno'r cais DCO i'r Arolygiaeth Gynllunio yn Awst 2017. Yn dilyn archwilio'r cais hwnnw, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a'r Strategaeth Ddiwydiannol a fydd yn penderfynu ar y cais a'r amodau terfynol (a elwir yn ofynion) a fydd yn berthnasol i unrhyw ganiatâd a ryddheir.

1.2 Yn PAC2, dan y drefn statudol a oedd yn bodoli yng Nghymru ar y pryd, nid oedd modd cynnwys gwaith galluogi megis gwella'r priffyrdd a pharatoi'r safle a datblygiadau cysylltiedig, e.e. Llety i Weithwyr, cyfleusterau Parcio a Theithio a'r Ganolfan Logisteg yn y cais DCO a byddai wedi bod angen cyflwyno 10 o geisiadau ar wahân dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (TCPA) i CSYM fel yr awdurdod cynllunio i'w penderfynu. Fodd bynnag, ers PAC2, mae'r ddeddfwriaeth wedi newid (Deddf Cymru 2017), sy'n golygu y gall HNP yn awr gynnwys eu Datblygiadau Cysylltiedig yn eu prif gais ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd – yn y Gorchymyn Caniatâd i Ddatblygu (DCO); sy'n golygu y

bydd nifer o safleoedd sy'n ffurfio'r Prosiect yn cael eu hystyried a'u caniatáu fel un cais. Bydd HNP yn parhau i fod angen trwyddedau arforol ar wahân ar gyfer gwaith sy'n cael ei wneud yn yr amgylchedd arforol. Serch hyn, bydd HNP yn cyflwyno dau gais TCPA ar wahân mewn perthynas â gwaith galluogi i CSYM ar gyfer eu penderfynu yn ystod yr haf 2017:

- **Paratoi a Chlirio'r Safle** (i baratoi'r safle ar gyfer y prif waith adeiladu. Mae gwaith yn cynnwys dymchwel yr adeiladau cyfredol, codi ffensys, clirio llystyfiant a thrin tir llygredig)
- **Gwaith Priffyrdd Ar-Lein** (gwelliannau arfaethedig i'r A5025 bresennol sy'n cynnwys lledu, ail-adeiladu ac ail-wynebu'r ffordd o'r Fali i safle'r Orsaf Bŵer).

Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno fel ceisiadau TCPA fel y gellir cychwyn ar y gwaith cyn cael penderfyniad ar y DCO.

1.3 Mae'r trydydd cam hwn o'r ymgynghori cyn cyflwyno cais (PAC3) yn dilyn PAC1 a gynhaliwyd ym mis Medi 2014, ymgynghoriad interim ym mis Ionawr 2016 a PAC2 a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016. PAC3 yw'r ymgynghoriad ffurfio diwethaf cyn cyflwyno'r DCO. Mae'n wahanol i PAC1 a PAC2, oherwydd mae'n ymgynghori ar newidiadau i'r Prosiect ers PAC2 yn unig.

Roedd cyfnod ymgynghori swyddogol o 4 wythnos ar gyfer PAC 3 a gychwynnodd ar 25 Mai ac a ddaeth i ben ar 22 Mehefin 2017. Cododd CSYM bryderon sawl gwaith (mewn ymateb i'r Datganiad o Ymgynghoriad Cymunedol, Ebrill 2017 ac yn ei ymateb i PAC3) bod yr ymgynghoriad ar PAC3 wedi ei gyfyngu i'r cyfnod statudol lleiaf o 28 diwrnod (30 diwrnod gyda Gwyliau'r Banc) a bod y cyfnod hwnnw'n annigonol i ganiatáu ymatebion ystyrlon. Ym marn CSYM, roedd PAC3 yn cynnwys newidiadau sylweddol a oedd yn teilyngu cyfnod hirach o ymgynghori. Cytunwyd i roi estyniad o bythefnos i CSYM (7 Gorffennaf 2017) i gyflwyno ymateb er mwyn caniatáu digon o amser i gyflwyno'r ymateb drafft i'r Cyngor Sir.

## 2. Dogfennau Ymgynghori PAC3 Horizon

2.1 Mae dwy ddogfen wedi cael eu cyflwyno fel rhan o gyflwyniad PAC3 Horizon, sef

- **Dogfen Trosolwg o'r Ymgynghoriad –** dogfen nad yw'n dechnegol
- **Y Brif Ddogfen Ymgynghori** – dogfen dechnegol

## 3. Dull Ymateb CSYM

3.1 Er cysondeb, mae'r strwythur yn dilyn ffurf ymatebion blaenorol ac yn cynnwys:

- Llythyr esboniadol gan Brif Weithredwr CSYM
- Atodiad A Adroddiad Strategol Lefel Uchel
- Atodiad B Tabl Cymharu PAC2/ PAC3

3.2 Wrth baratoi'r ymateb hwn, gofynnwyd am sylwadau gan Swyddogion mewn meysydd gwasanaeth ar draws CSYM a'u cyfuno gydag adborth a gafwyd mewn sesiynau briffio i Aelodau Etholedig a mewnbwn arbenigol gan ymgynghorwyr proffesiynol a chyfreithiol (a ariannwyd gan HNP drwy'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio y cytunwyd arno gyda CSYM). Mae'r adborth wedi cael ei roi at ei gilydd mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn strategol, yn adeiladol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r ymateb yn ceisio dilyn y weledigaeth a'r amcanion ar gyfer Wylfa Newydd fel y cânt eu nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol a gymeradwywyd gan CSYM (2014).

3.3 Mae nifer o ymatebion CSYM yn ceisio dwyn sylw at feysydd lle mae angen gwybodaeth bellach cyn y gellir llunio barn derfynol. Oherwydd y diffyg manylder yn PAC3, nid yw'n bosibl paratoi ymateb mor fanwl ag y byddai'r Cyngor yn ei ddymuno ar y cam hwn o'r broses.

## 4. Trosolwg o ymateb CSYM

4.1 Mae parhad cefnogaeth CSYM i'r Prosiect yn seiliedig ar y disgwyliad y bydd y Weledigaeth a'r 7 amcan a restrir yn CCA Wylfa Newydd yn cael eu gwireddu. Er bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud ers PAC1, roedd PAC3 yn cael ei groesawu fel modd o ddarparu diweddariad ar y newidiadau arfaethedig ond nid yw'n cynnwys digon o fanylion i ganiatáu i CSYM wneud sylwadau ystyrlon. Dygir sylw at nifer o faterion allweddol yn y llythyr esboniadol. Mae'r rhain yn ymwneud â'r isod:

- Lefel y wybodaeth yn PAC3
- Swyddi a Sgiliau
- Yr Economi a'r Gadwyn Gyflenwi
- Llety i Weithwyr / Tai
- Priffyrdd a Thrafnidiaeth
- Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant

**4.2** Caiff themâu cyffredinol yr ymateb arfaethedig i PAC 3 eu nodi yn Atodiad A ac maent yn cynnwys:

- Swyddi a Sgiliau
- Yr Economi a'r Gadwyn Gyflenwi
- Llety i Weithwyr Adeiladu
- Priffyrdd a Thrafnidiaeth

- Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant
- Twristiaeth
- Iechyd a Llesiant
- Yr Amgylchedd: Yn benodol i'r Safle

4.3 Ceir sylwadau manwl ar gymhariaeth o'r prif wahaniaethau ers PAC2 ac mae sylwadau CSYM ar y newidiadau hynny i'w gweld yn Atodiad B. Mae CSYM wedi cynnig sylwadau ar y prif newidiadau, fodd bynnag, rydym yn nodi yn yr amryfal ymatebion a gyflwynir bod y materion a godir yn PAC2 ond sydd heb eu cynnwys yn PAC (h.y. oherwydd nad oes unrhyw newid) yn parhau i fod yn ddilys a rhaid eu darllen ochr yn ochr ag ymateb CSYM i PAC3.

## 5. Casgliadau

5.1 Bydd yr Aelodau'n gyfarwydd gyda'r materion allweddol a'r prif themâu sy'n codi o'r ymgynghoriad hwn a rhai blaenorol. Er mai hwn yw cam olaf ffurfiol y broses ymgynghori, bydd cyfleoedd yn parhau i godi i swyddogion ddylanwadu ar gynnwys y DCO a fydd yn cael ei gyflwyno yn y man. Hefyd, bydd y sylwadau yn yr ymateb hwn sy'n ymwneud â'r elfennau hynny o'r prosiect sydd angen TCPA, o gymorth i siapio'r trafodaeth perthnasol cyn i'r ceisiadau gael eu cyflwyno. Bydd swyddogion yn ceisio gweithio gyda HNP i sefydlu Datganiad cytunedig o Dir Cyffredinol; fodd bynnag, ble mae gwahaniaeth barn, bydd y rhain yn cael sylw manwl yn Adroddiad CSYM ar Effeithiau Lleol y prosiect. Bydd yr Aelodau'n derbyn diweddariadau'n rheolaidd.

5.2 Gofynnir yn barchus i'r Aelodau gymeradwyo'r gyfres o ddogfennau sydd ynghlwm sydd, gyda'i gilydd, yn llunio ymateb ffurfiol CSYM i PAC3. Gyda chaniatâd yr Aelodau Etholedig, gofynnir hefyd am roi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr wneud unrhyw fân newidiadau, amrywiadau neu gywiriadau a nodir ac sy'n rhesymol angenrheidiol cyn anfon yr ymateb yn ffurfiol.

**DIWEDD YR ADRODDIAD**

Dr. Gwynne Jones
Prif Weithredwr
Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Gofynnwch am - Please ask for: Vicky Jones

☎ (01248) 752102 🖷(01248)750839

E-Bost-E-mail: gwynnejones@ynysmon.gov.uk

Ein Cyf - Our Ref. WGJ/VLJ/PAC3
Eich Cyf - Your Ref.

DRAFT

**SWYDDOGOL**

Annwyl Mr. Hawthorne,

**YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR BROSIECT WYLFA NEWYDD, PŴER NIWCLEAR HORIZON – CAM TRI (PAC3)**

Ysgrifennaf ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn mynegi ei ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad PAC3. Wrth wneud hynny, rwy'n dilyn dull a strwythur tebyg i'r hyn a fabwysiadwyd yn fy llythyrau ymateb i ymgynghoriadau blaenorol. Y nod wrth wneud hyn yw ceisio arddangos cysondeb a thryloywder drwy naratif cydlynol o safbwynt CSYM gan fod y cynigion Pŵer Niwclear Horizon ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd wedi datblygu a newid yn sylweddol dros amser.

Mae'r ymateb yn dilyn ac yn adeiladu ar ymatebion i ymgynghoriadau blaenorol o ran tynnu sylw at faterion allweddol ond nid yw'n asesiad trwyadl o'r cynigion. Mae CSYM wedi gweithredu'n ddiffuant wrth gyflwyno safbwyntiau lefel uchel ar wahanol bwyntiau gan gynnwys mesurau lliniaru posibl. Fodd bynnag, mae yna ddiffyg difrifol iawn o ran manylion yn yr ymgynghoriad PAC3 hwn ac mae hynny'n annerbyniol. O ganlyniad, cynigir y sylwadau hyn fel arweiniad ac fel sail ar gyfer trafodaeth bellach oherwydd heb ddarlun manwl o'r cynigion, nid yw'n bosibl mesur yr effeithiau nac ychwaith asesu lefel y gwaith lliniaru angenrheidiol. Mae CSYM o'r farn bod llawer o'r wybodaeth hon ar gael i Horizon ar y pwynt hwn yn y prosiect ac y dylid rhyddhau'r wybodaeth honno cyn gynted â phosib.

**Fel y nodwyd yn ymateb CSYM i'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (DOYC) yn Ebrill 2017, mae'n annerbyniol ac yn groes i'r amcan o hyrwyddo ymgynghoriad ystyrlon bod y cyfnod ymgynghori ar PAC 3 wedi ei gyfyngu i'r cyfnod ymgynghori lleiaf, sef 28 diwrnod (30 diwrnod gyda gwyliau banc). Gyda newidiadau i ddyluniad a chynllun yr orsaf bŵer, newidiadau i'r strategaeth caniatâd yn ogystal â newidiadau sylfaenol i'r strategaeth llety gweithwyr, mae CSYM o'r farn bod y rhain yn newidiadau sylweddol a oedd yn cyfiawnhau cyfnod ymgynghori hirach. Fel y dywedwyd eisoes, fe ddylai'r ymgynghoriad hefyd fod wedi cynnwys llawer mwy o fanylion a gwybodaeth am y newidiadau hyn er mwyn i CSYM a'r cyhoedd allu ystyried ac ymateb i'r newidiadau mewn modd ystyrlon**.

Y llythyr hwn a'r atodiadau sy'n dilyn yw ymateb CSYM i'r ymgynghoriad PAC 3. Mae'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad wedi cymryd i ystyriaeth ddatganiadau polisi cenedlaethol a'r canllawiau perthnasol ar y broses ymgynghori.

- Atodiad A – Adroddiad Strategol lefel uchel
- Atodiad B – Tabl Crynodeb o'r newidiadau PAC2/ PAC3

**CEFNDIR**
Gweledigaeth CSYM ar gyfer y Datblygiad Niwclear Newydd yn Wylfa, fel y nodir yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd, yw ei fod yn *"yrrwr positif ar gyfer trawsnewid economi a chymunedau ar Ynys Môn, darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, gwella ansawdd bywyd ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol ac ehangu hunaniaeth a hynodrwydd lleol."* Mae'r weledigaeth hon yn cael ei chyfleu fel saith amcan allweddol:

1. Cyfrannu tuag at gyflawni'r Rhaglen Ynys Ynni a Pharth Menter Ynys Môn, gan roi'r Ynys ar y blaen o ran ymchwil ynni a datblygiad, cynhyrchu a gwasanaethu;
2. Gyrru trawsnewidiad economïau Ynys Môn a Gogledd Cymru a sicrhau'r cyfleoedd gorau o ran cyflogaeth ac uwchraddio sgiliau pobl leol;
3. Sicrhau buddion isadeiledd sylweddol a pharhaus i'r Ynys.
4. Cefnogi gwelliannau i ansawdd bywyd (yn cynnwys iechyd, lles ac amwynderau) trigolion yr Ynys, ymwelwyr a gweithwyr yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu;
5. Cydnabod a chryfhau hunaniaeth unigryw'r Ynys a'i chymunedau;
6. Hyrwyddo symudiad cynaliadwy pobl a deunyddiau a darparu isadeiledd trafnidiaeth wydn sy'n gallu denu a chynnal twf economaidd a chreu cymunedau cynaliadwy; a
7. Diogelu a gwella amgylchedd ac adnoddau unigryw'r Ynys, gan gymryd newid hinsawdd i ystyriaeth.

Mae cefnogaeth barhaus CSYM ar gyfer y Prosiect yn seiliedig ar y disgwyliad bod y Weledigaeth hon a'r amcanion hyn yn cael eu bodloni.

**MATERION ALLWEDDOL**
Mae'r materion allweddol a amlinellir isod ar ffurf penawdau er mwyn osgoi ailadrodd. Mae angen iddynt felly gael eu darllen ar y cyd â'r sylwadau manylach yn yr Atodiadau.

***1 Lefel y wybodaeth yn PAC3***

1.1 Er y croesawyd PAC3 fel ffordd o ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig ers PAC2, nid oes ynddo unrhyw sylwedd na manylion er mwyn i CSYM neu unrhyw un arall allu gwneud unrhyw sylwadau ystyrlon. Ym marn CSYM, mae'r diffyg manylder yn yr ymgynghoriad, yn golygu eu bod yn bygwth holl ddigonolrwydd a chyfreithlondeb y broses ymgynghori.

1.2 Golyga'r diffyg manylion hyn nad yw CSYM yn gallu asesu'n ystyrlon effeithiau posibl y prosiect, archwilio dilysrwydd cynigion Horizon na dylanwadu ar a siapio'r cynigion. O gofio bod Horizon yn bwriadu cyflwyno'r cais DCO yn 2017, byddai CSYM wedi disgwyl cael cyfle i ymateb i ymgynghoriad ar ddrafft diwygiedig o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Cychwynnol (PEIR) / Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA) fel rhan o PAC3.

1.3 Oherwydd bod Horizon wedi dweud mai hwn yw'r ymgynghoriad diwethaf cyn cyflwyno'r cais, mae CSYM yn annhebygol o weld y manylion hyn tan y cyflwynir y DCO. Mae hyn yn annerbyniol mewn proses sydd wedi ei dylunio i fod yn un lle gwneir y rhan fwyaf o'r gwaith yn fuan yn y broses ('front-loaded'). Unwaith y bydd wedi ei gyflwyno, ychydig iawn o sgôp fydd ar gael i newid unrhyw un o elfennau'r DCO. Mae'r broses ymgynghori ar y DCO wedi ei dylunio i ganiatáu i'r sawl yr ymgynghorir â nhw gael dylanwad ar y prosiect drwy ddyluniad iteraidd. Nid yw'r drefn hon wedi cael ei dilyn ac nid yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ymateb yn ystyrlon i'r prosiect

wedi cael ei darparu. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod newidiadau sylfaenol wedi cael eu gwneud yn y prosiect yn hwyr iawn yn y broses. Mae’n groes i ethos y drefn DCO na fydd manylion am elfennau pwysig a’u heffeithiau ar gael hyd oni fydd y DCO yn cael ei gyflwyno. Ni fedr y Cyngor asesu’n ystyrlon effeithiau a phriodoldeb y camau lliniaru arfaethedig. Mae CSYM yn nodi bod Deddf Cynllunio 2008: Arweiniad ar y broses cyn ymgeisio yn nodi:

*Mae’r broses ymgynghori cyn ymgeisio yn hanfodol ar gyfer effeithlonrwydd y gyfundrefn caniatáu prosiectau isadeiledd sylweddol. Gall proses drylwyr roi’r hyder i’r Ysgrifennydd Gwladol bod materion a fydd yn codi dros y cyfnod archwilio o chwe mis wedi eu hadnabod a’u hystyried ac – i’r graddau y mae hynny’n bosibl – bod ymgeiswyr wedi ceisio dod i gytundeb ar y materion hynny.*

1.4 O gofio’r arweiniad uchod, rydym yn bryderus am allu CSYM i gynnal ymgysylltiad ystyrlon gyda Horizon am gynnwys y Datganiad o Dir Cyffredin heb y wybodaeth fanwl angenrheidiol. Rydym hefyd yn nodi bod y diffyg manylder hwn wedi cael ei godi fel problem gyda chyrff eraill yr ymgynghorir yn statudol â nhw a chan yr Arolygiaeth Cynllunio yn y farn sgrinio yn 2017.[1] Mae Horizon yn gwthio darparu’r manylion i gyfnod amhriodol o hwyr yn y broses hon ac yn atal ymgyngoreion rhag ymgysylltu’n briodol ac yn llawn. Er enghraifft, nid yw’n hollol glir o hyd beth y bwriedir ei gynnwys yn y DCO fel gwaith galluogi; mae PINS yn nodi “nid yw’r glir pa elfennau o’r SPC y mae’r Ymgeisydd yn bwriadu ceisio caniatâd ar eu cyfer drwy’r drefn TCPA a pha elfennau drwy’r drefn NSIP.” Nid yw’r Cyngor fymryn callach beth fydd y gwaith hwn yn ystod y cam yngynghori terfynol hwn. Mae PINS[2] wedi pwysleisio’r angen i’r cais DCO gael ei baratoi’n dda ac i ddarparu cyfiawnhad a thystiolaeth am y penderfyniadau a wnaed.

1.5 Mae’r broses optimeiddio wedi golygu fod y prosiect (a’i effeithiau) bellach wedi dwysáu yng Ngogledd Ynys Môn, er enghraifft, y cynnig yn awr yw i 4,000 o weithwyr gael eu lleoli ger y prif safle adeiladu gyda 1,032 arall yn yr ardal sydd union gyfagos. Gyda Llety Dros dro ar gyfer Gweithwyr Adeiladu ar gyfer hyd at 4,000 o weithwyr ar y safle a disgwyliad y bydd dros 1,000 o weithwyr yn byw mewn llety presennol yng Ngogledd Ynys Môn (Llety PRS, llety ‘cudd’, llety perchen-ddeiliaid a thwristiaeth) bydd hyn yn ychwanegu at y pwysau a’r effeithiau ar Ynys Môn a’i chymunedau. Ni fedr CSYM fesur yr effeithiau hyn yn fanwl gywir i lawer iawn mwy o’r sail dystiolaeth gael ei rhannu.

1.6 Yn PAC3, mae yna nifer o ddatganiadau o ymrwymiad i gynlluniau a mesurau neu i ddarparu camau lliniaru mewn ffyrdd amrywiol. Croesewir y rhain ond heb ddarpariaethau manwl ynghylch graddfa, amseru, cyllido, mesurau cyflawni a threfniadau monitro, nid yw’r ‘ymrwymiadau’ hyn yn ddim byd mwy na datganiadau cyffredinol o fwriad, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y camau lliniaru’n cael eu sicrhau a’u cyflawni. Mae cynnydd yn angenrheidiol cyn cyflwyno’r DCO.

1.7 Wrth roi sylw i’r mater hwn, cyflwynodd CSYM y cysyniad o Gronfa Gwydnwch Cymunedol. Oherwydd cymhlethdod y Prosiect, mae angen ymateb digon hyblyg o ran camau lliniaru sy’n golygu y gellir ymateb i broses adeiladu sy’n mynd i fod yn ddeinamig ac yn gymhleth iawn. Fel modd o geisio ymateb i rai o’r effeithiau ansicr, byddai Cronfa Gwydnwch Cymunedol:

- yn ymateb yn ddiamheuol i effeithiau annisgwyl, nad oes modd eu mesur na’u rhagweld
- yn rhoi sylw i ganlyniadau’r datblygiad;
- yn targedu ac yn grymuso pobl leol yn benodol i ymateb i effeithiau’r datblygiad;

[1] Barn Sgopio’r Arolygiaeth Gynllunio, Prosiect Arfaethedig Wylfa Newydd, Cyfeirnod yr Arolygiaeth C Gynllunio: EN010007, Mehefin 2017

[2] Nodyn cyfarfod PINS 07 Mehefin 2017

DRAFT

- yn fwriadol hyblyg er mwyn gallu asesu'r effeithiau fel y maent yn codi ac yn mynd i'r afael â phroblem arian na fedrir ei ddefnyddio oherwydd bod y meini prawf dosbarthu yn or-gaeth.

1.8 Yn ychwanegol at ddulliau lliniaru eraill sy'n cynnwys cyfraniadau ariannol, mae CSYM o'r farn bod achos cryf iawn dros ddarparu Cronfa Gwydnwch Cymunedol fel rhan o'r Goblygiadau Caniatâd Datblygu er mwyn lliniaru yn erbyn unrhyw effeithiau nad oes modd eu mesur neu rai annisgwyl a allai godi o ganlyniad i'r prosiect, hyd yn oed trwy ddarparu gwybodaeth ychwanegol fel rhan o'r cais DCO. Mae CSYM yn nodi y darparodd EDF Energy Gronfa Gymunedol at y diben penodol hwn o fewn eu cytundeb Adran 106 gyda Chynghorau Gwlad yr Haf mewn perthynas â DCO prosiect Hinkley Point. Tra bo CSYM yn cydnabod fod gwahaniaethau rhwng Wylfa a Hinkley Point, nid oedd gan Hinkley y dwysedd hwn o weithwyr ar y prif safle ac mae'n debygol y bydd effaith hynny'n sylweddol iawn.

1.9 Ystyrir bod egwyddor cronfa o'r fath yn hanfodol *"i ddatblygu partneriaethau didwyll gyda'r cymunedau y bydd Horizon yn rhan ohonynt"* am y 100 mlynedd nesaf a mwy".

1.10 Dylai'r Gronfa Gwydnwch Cymunedol gymryd i ystyriaeth yr egwyddor agosrwydd ac mae angen rhoi sylw i'r effeithiau difesur ar Ogledd Môn a fydd yn lletya'r prosiectau adeiladu mawr hwn am hyd at ddeng mlynedd.

## 2 Swyddi a Sgiliau

2.1 Y newid sylweddol rhwng PAC2 a PAC3 yw'r adolygiad o nifer y gweithwyr. Mae'r galw uchaf am lafur wedi gostwng o 10,700 o weithwyr i 8,500 o weithwyr; mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 20% yn y gweithlu sy'n newid sylweddol iawn. Fodd bynnag, mae Horizon wedi rhagdybio uchafswm o 9,000 o weithwyr at ddibenion asesu. Mae'r proffil gweithlu newydd hefyd wedi golygu newid yn y galw ar ei lefel uchaf, sydd bellach yn debygol o ddigwydd yn 2023 yn hytrach na 2022.

2.2 Nododd ymateb CSYM i PAC2 ein dymuniad i weld lefelau uwch na'r 2,700 (25%) o bobl leol yn cael eu cyflogi ond rydym yn nodi gyda phryder sylweddol bod y ganran o gyflogaeth leol a nodir yn PAC3 wedi lleihau i 2,000 (22%). Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi cael ei darparu i gyfiawnhau'r rheswm pam fod y ffigwr hwn, sydd eisoes yn isel, wedi gostwng. Mae'r gostyngiad hwn yn niferoedd y bobl leol a gyflogir yn ystod y cyfnod adeiladu wedi lleihau o ran gwir niferoedd ac o ran canran yn annerbyniol. Mae CSYM yn nodi mai un o'r ffactorau sylweddol sy'n cyfrannu at effeithiau positif y prosiect yw'r ddarpariaeth o gyfleoedd cyflogaeth a busnes yn lleol ac yn rhanbarthol. Ni chroesawir y gostyngiad o ran lefelau llafur lleol ynghyd â'r effeithiau ar Ogledd yr Ynys. Dylai'r dyhead ar gyfer llafur lleol fod yn uwch o lawer ac mae angen cyfiawnhau pam fod y lefel mor isel. Mae CSYM yn mynnu bod Horizon yn gweithio gydag ef a phartneriaid perthnasol eraill er mwyn rhoi mecanweithiau cadarn ar waith rŵan er mwyn cynyddu canran y farchnad lafur leol (gan nodi y disgwylir i ganran y farchnad lafur leol yn Hinkley Point C fod yn 34%). Nid oes unrhyw gyfiawnhad pam na fedr y ffigwr a'r ganran fod yn uwch. Mae ffigwr uwch yn gwbl gyraeddadwy gydag ymrwymiad mwy tuag at hyfforddi a sgilio pobl leol i fod yn rhan o'r gronfa lafur.

2.3 Fel y nodir yn ymateb CSYM i PAC2 (Atodiad A – Paragraff 3.5) mae cyfleoedd clir yn bodoli er mwyn gallu cynyddu'r canran yn sylweddol. O ganlyniad, nid yw'n glir i CSYM pam nad yw'r gyfran o'r gweithlu sy'n lleol wedi cynyddu. Petai canran y swyddi lleol yn y prosiect wedi aros ar lefelau PAC2, byddai'r gyfran leol o broffil y gweithlu newydd wedi bod yn agosach at 30% ar ei fwyaf sydd yn ei hun yn agos at y targed a osodwyd ar gyfer Hinkley Point C (34%).

2.4 Mae Horizon wedi nodi eu bod yn disgwyl i “hyd at 85%” o’r swyddi gweithredol gael eu cymryd gan drigolion lleol. Hoffai CSYM weld y lefel hon fel isafswm, gyda tharged o 100%. Yn gysylltiedig â hyn, hoffai CSYM gadarnhad ynghylch pryd a sut y bydd y targed hwn yn cael ei fodloni a’i fonitro dros amser. Yn wir, mae hyn hefyd yn berthnasol i fonitro a chyflawni canrannau’r swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae CSYM yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi’r ffaith bod y targed o 45% wedi cynyddu’n sylweddol ers PAC2 a chroesawir manylion am strategaethau ac ymyraethau clir a fabwysiadwyd er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

2.5 Croesewir y ddarpariaeth o gyllid ar gyfer rhaglen buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion, fodd bynnag mae amseriad hynny, sef ar ôl gweithredu’r DCO, yn gwbl annerbyniol ac mae angen buddsoddi **rŵan**. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod risg ynghlwm wrth fuddsoddi cyn i’r penderfyniad cyn-derfynol (FID) gael ei wneud, mae angen pwyso a mesur hynny yn erbyn y risg o ganiatáu prosiect ac osgoi’r effeithiau andwyol mwy neu gyflogi nifer i o bobl leol. O ystyried y bydd angen dylunio, caniatáu ac adeiladu’r cyfleusterau cyn y gellir dechrau unrhyw gyrsiau, y tebygolrwydd yw y bydd y gwaith adeiladu’r orsaf niwclear wedi gorffen cyn y bydd unrhyw fyfyriwr mewn sefyllfa i fod wedi elwa o’r buddsoddiad arfaethedig. Bydd cymunedau felly wedi dioddef yr effaith sylweddol o letya’r prosiect adeiladu a’r unig ‘wir’ gynnig i bobl ifanc yw’r gobaith o swydd yn ystod y cyfnod gweithredol. Mae CSYM yn mynnu bod Horizon yn adolygu eu rhaglen buddsoddi mewn cyfleusterau addysg a hyfforddiant er mwyn sicrhau bod targedau cyflogaeth lleol yn cael eu bodloni. Mae tystiolaeth o Wlad yr Haf mewn perthynas â Hinkley Point C yn dangos ei bod wedi cymryd 5 mlynedd i fanteision rhaglen ysgogi addysg ddangos effaith amlwg ar y mathau o gyrsiau sy’n cael eu hastudio a’r sgiliau sydd gan bobl ifanc ar ddiwedd eu cyfnod mewn addysg er mwyn eu galluogi i gael mynediad llwyddiannus i’r gweithlu.

2.6 Tra bo CSYM yn dymuno sicrhau bod cynifer â phosib o’r swyddi yn Wylfa Newydd yn rhai ar gyfer pobl leol, rydym yn sylweddoli y gellid gweld cyfnewid gyda dadleoli posib, oni bai bod camau priodol yn cael eu cymryd i roi hwb i ochr gyflenwi’r economi. Nodwn fod gan CSYM a Horizon wahanol farn am ddadleoli sydd angen ei drafod ymhellach a’i ddatrys cyn cyflwyno’r DCO.

2.7 Mae CSYM yn parhau i fod yn ymrwymedig i baratoi i gydweithio er mwyn sicrhau bod pobl ar draws Ynys Môn a Gogledd Cymru yn gallu cymryd mantais lawn o’r cyfleoedd cyflogaeth yn ystod y broses o adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd.

## 3 Yr Economi a’r Gadwyn Gyflenwi

3.1 Mae Horizon wedi nodi y bydd cyfnod prawf o’r Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd yn cychwyn cyn hir gyda’r nod o leoli’n ganolog yr holl swyddi gwag ar y Prosiect. Mae hyn yn cael ei groesawu ac mae’n gam positif ymlaen a chafwyd cydweithio adeiladol a chalonogol hyd yma. Mae’n hynod bwysig bod y gwaith hwn yn dwysáu er mwyn sicrhau’r lefel uchaf bosibl o gyfleoedd ar gyfer pobl leol.

3.2 Mae CSYM yn cydnabod y camau a gymerwyd er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu Cadwyn Gyflenwi ac ymdrechion i gofrestru cwmnïau drwy gontractau Ymgysylltiad Cynnar â Gweithgynhyrchwyr. Fodd bynnag, hoffai CSYM fwy o fanylion a thystiolaeth y bydd y lefel uchaf bosibl o gyfleoedd ar gael i fusnesau lleol. Er enghraifft, gallai unrhyw wybodaeth ychwanegol a fyddai’n dangos y mathau a maint y contractau fydd ar gael, annog ymgysylltiad pellach gan fusnesau Ynys Môn. Mae CSYM yn pwysleisio y dylai cwmnïau lleol gael cyfleoedd i gymryd rhan lawn yn y gadwyn gyflenwi yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. Er enghraifft bod Gwasanaethau Bws, Bwyd ac Arlwyo, Golchi Dillad (a gwasanaethau eraill) yn cael eu darparu gan gwmnïau lleol er mwyn sicrhau’r lefel uchaf bosibl o fanteision cymdeithasol-economaidd gan y prosiect.

3.3 Mae CSYM angen i Horizon fuddsoddi yn y Tîm Buddsoddiadau Cadwyn Gyflenwi rŵan er mwyn galluogi busnesau lleol i gael y cyfle gorau posibl (yn unigol ac ar y cyd) i allu cystadlu am ac ennill contractau gwaith. Nid yw'r ymrwymiad a ddatganwyd i gefnogi'r gadwyn gyflenwi yn werth dim heb weithredu cynllun cyflawni manwl sy'n cael ei gyllido a'i fonitro. Mae adnabod busnesau addas, darparu cyngor clir ar hyfforddiant, sgiliau ac achrediadau angenrheidiol er mwyn gallu cael gwaith a rhoi'r cyfle a darparu cyllid i fusnesau allu dod at ei gilydd i gydweithio, yn hanfodol. Roedd y gwasanaeth cyfatebol ar gyfer prosiect Hinkley Point C yn ei le 5 mlynedd cyn y Penderfyniad Buddsoddi Terfynol ac mae'r mwyafrif o gontractau a roddwyd i gwmnïau lleol wedi dilyn cytundebau cydweithredol.

3.4 Mae CSYM yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydweithio i sicrhau bod busnesau ar yr Ynys ac ar draws Gogledd Cymru yn gallu cyfranogi a chymryd mantais lawn o'r cyfleoedd sy'n cael eu creu yn sgil adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd.

## 4 Llety Gweithwyr / Tai

4.1 Gwelwyd newid sylweddol ac arwyddocaol i Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu Horizon ers PAC2. Yn PAC2, roedd gan Horizon amrywiaeth o opsiynau llety gweithwyr (yn cynnwys Land and Lakes, Fferm Madyn a Rhosgoch). Bellach, mae Horizon yn bwriadu lleoli hyd at 4,000 o weithwyr ar y safle mewn llety gweithwyr dros dro a 3,000 mewn llety sydd eisoes yn bodoli. Nid yw hyn wedi cael ei grybwyll na'i gynnwys fel opsiwn posibl mewn unrhyw ymgynghori ffurfiol cyn PAC3.

4.2 Mae diffyg digywilydd o fanylion ynghylch y cynnig i letya 4,000 o weithwyr ar y safle. Nid oes unrhyw asesiadau effaith wedi cael eu darparu ac nid oes unrhyw dystiolaeth wedi cael ei gynhyrchu sy'n rhoi cyfle i'r Cyngor ystyried neu gynnig unrhyw gamau lliniaru. Mae hyn yn gwbl groes i'r ymagwedd a nodwyd yn y canllawiau ar gyfer y broses DCO. Mae'r diffyg manylion ar y cynigion hyn yn ymestyn i wybodaeth sylfaenol hyd yn oed am y campws. Nodir hyn hefyd m marn sgopio PINS 2017[3] sy'n datgan bod "manylion am y campws llety ar y safle'n gyfyngedig ac nad yw ei leoliad wedi cael ei nodi".

4.3 Mae diffyg gwybodaeth yn golygu nad oes unrhyw achos o ran y dadansoddiad o effaith wedi cael ei gyflwyno i esbonio a chyfiawnhau'r newid sylfaenol yn y dull o lety'r gweithwyr adeiladu. Mae'r holl gynigion llety gweithwyr a gyflwynwyd gan Horizon hyd yma, wedi cynnwys buddion gwaddol. Mae'r cynnig presennol i gartrefu hyd at 4,000 o weithwyr mewn lleoliad anghysbell, gwledig i ffwrdd oddi wrth y prif aneddiadau ac mewn adeiladau dros dro, gan gynnig dim buddion gwaddol, nid wedi cael ei ddangos yn PAC3 i fod yn gynnig gwell ar gyfer yr Ynys a'i chymunedau. Mae'r effeithiau posibl helaeth o letya hyd at 4,000 o weithwyr yn golygu bod angen i Horizon ddangos bod ei gynigion yn seiliedig ar gynllunio a tystiolaeth cadarn, sy'n ystyried effaith a bod y ddarpariaeth ar y safle yn ateb gwell cyn all y Cyngor ystyried ei gefnogi.

4.4 Mae CSYM yn gweld y bydd angen i Horizon gael rhywfaint o bresenoldeb ar y safle yn ystod y camau gweithredol (yn unol â'r cynigion blaenorol i gael 500 o weithwyr hanfodol ar y safle) er y dylid nodi nad yw'r dystiolaeth ar gyfer y ffigwr wedi cael ei gynhyrchu erioed. Fodd bynnag, mae maint cynyddol y Llety Gweithwyr Adeiladu Dros dro yn achos pryder sylweddol. Dyma fydd y ***3ydd cymuned / setliad*** mwyaf ar yr Ynys (ar ôl Caergybi a Llangefni ac ar hyn o bryd dim ond poblogaeth o 3,700 sydd yn

[3] Barn Sgopio'r Arolygiaeth Gynllunio, Prosiect Arfaethedig Wylfa Newydd, Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio EN0100007, Mehefin 2017 am 2.56

Amlwch (Cyfrifiad 2011)). Golyga'r diffyg manylion yn PAC3 nad oes modd i CSYM asesu'r effaith amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd posibl y byddai datblygiad sylweddol o'r math hwn yn ei chael ar ardal wledig fel Gogledd Ynys Môn. Mae hyn annerbyniol o ystyried ei bod mor hwyr yn y broses

4.5 Mae'r modd y bwriedir rheoli'r gweithwyr yn rhywbeth sydd o bryder mawr o safbwynt cymdeithasol / cymunedol. Mae angen mwy o fanylion am y gweithwyr nad ydynt yn gweithio a'r dewis fydd ganddynt i adael y Llety Gweithwyr. Mae diffyg sylfaenol o ran y manylion yn y Cynllun Rheoli Gweithlu ac ymddygiad gweithwyr. Mae CSYM yn gofyn am Asesiad manwl ar yr Effaith ar y Gymuned fel y gall lunio ei farn mor hwyr â hyn yn y broses o gael cyfleuster i letya hyd at 40,000 o weithwyr adeiladu ar y safle.

4.6 Mae camau'r cyfnod datblygu yn peri pryder. Ni fydd y rhan fwyaf o'r Llety Gweithwyr Dros dro ar gael tan 2022-2023. Bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar y llety sydd eisoes yn bodoli. Mae Horizon yn canolbwyntio ar y flwyddyn lle bydd y galw uchaf ond bydd yr effaith yn cael ei deimlo'r naill ochr i hynny. **Os** bwriedir mynd ar ôl yr opsiwn Llety Gweithwyr Dros Dro, mae CSYM yn mynnu bod cam cyntaf y llety gweithwyr dros dro yn cael ei adeiladu ar unwaith yn dilyn y FID ac y bydd ar gael pan fydd y prif waith adeiladu'n cychwyn.

4.7 Mae'r amser y bydd yn ei gymryd i ddarparu unrhyw lety ychwanegol (o fewn y stoc bresennol neu drwy adeiladau newydd) yn sylweddol, mae CSYM yn ymwybodol ei bod wedi cymryd 3 blynedd i Gynghorau Gwlad yr Haf ddarparu tua 800 o wlâu yn dilyn talu cyfraniadau a106. Mae deunyddiau PAC3 yn dynodi y disgwylir i'r DCO gael ei ganiatáu yn 2019 ac mae'r proffil gweithlu yn dynodi y disgwylir i'r gweithlu gynnwys 5000 o weithwyr erbyn diwedd 2020. Yr hyn a ddynodir ar gyfer y safle ar y campws yw na fydd yn weithredol tan 2021 a bryd hynny, dim ond lle i 1,000 fydd yno. Mae angen mwy o fanylion gan Horizon ar frys a hynny ar faint, amseriad, dyluniad a safon ac ati y Llety Gweithwyr Dros dro. Mae Horizon yn nodi y bydd y Llety ar gyfer Gweithwyr Dros dro yn cael ei ddefnyddio am 6 mlynedd, nid oes manylion am y senarios gwahanol sy'n bosib ar gyfer gwneud y gwaith fesul cam, sut y bydd y safle'n cael ei ddigomisiynu a sut bydd y tir yn cael ei ddychwelyd i'w ffurf flaenorol.

4.8 Mae'r 3,000 o weithwyr mewn llety presennol yn cyd-fynd yn fras gyda PAC 2 (3,320 yn PAC 2). Fodd bynnag, mae CSYM yn pryderu bod y ffigwr hwn wedi aros yn sefydlog, waeth befo'r gostyngiad yn nifer y gweithwyr adeiladu. Mewn geiriau eraill, os bydd nifer y gweithwyr adeiladu'n gostwng (o 9,000 i 8,000 neu lai), mae Horizon yn bwriadu gostwng maint y Llety Gweithwyr Dros Dro yn hytrach na gostwng yn gymesur y nifer yn yr holl sectorau eraill (e.e. Sector Rhentu Preifat a Thwristiaeth), er mwyn lleihau'r effaith. Un enghraifft fyddai 650 o weithwyr mewn carafanau.

## 5 Priffyrdd a Chludiant

5.1 Gwelwyd newidiadau sylweddol yn yr effeithiau ar briffyrdd a chludiant ers PAC2 ac mae ansicrwydd sylweddol yn parhau. Ymddengys bod yr ymagwedd wedi cael ei dylunio i gymylu yn hytrach na darparu eglurder ar yr effeithiau a'u lliniaru wedyn.

5.2 Mae'r rhaglen ddangosol yn dangos y bydd gwaith ar y MOLF yn dechrau yn 2019 ac yn cymryd 2 flynedd i'w adeiladu cyn dod yn weithredol yn 2021. Nid yw'r ymgynghoriad PAC3 yn darparu unrhyw fanylion am y nifer o symudiadau cerbydau rhwng dechrau'r cyfnod adeiladu a diwedd 2021 a byddai'r symudiadau hyn yn

digwydd ar yr un pryd â'r safle Parcio a Theithio,y gwelliannau ar ac oddi ar yr A5025 a chyn i'r campws ar y safle gael ei adeiladu. Nid yw ymgynghoriad PAC3 yn darparu unrhyw fanylion ar y rhaglen ar gyfer adeiladu'r datblygiadau cysylltiedig ac felly mae'n amhosibl asesu effaith y symudiadau traffig cyn y bydd y MOLF yn weithredol. Bydd angen i CSYM ystyried cyfyngiadau ar symudiad y nifer o loriau HGV, bysiau a cheir cyn i elfennau allweddol y Datblygiad Cysylltiedig gael eu rhoi yn eu lle.

5.3 Ar yr amod bod y gwelliannau arfaethedig i'r A5025 yn cael eu gwneud, mae CSYM o'r farn bod capasiti'r A5025 yn ddigonol a bod 1,200 o geir yn teithio yn ôl ac ymlaen o'r safle yn hytrach na defnyddio 260 o fysiau yn dderbyniol ar yr amod bod y gweithwyr **yn defnyddio'r ffordd hon**. Bydd angen cytuno ar gynlluniau rheoli traffig cadarn a bydd angen monitro a chymryd camau gorfodaeth er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn defnyddio'r ffordd ddynodedig hon. Bydd angen mwy o eglurder ar CSYM ynghylch y manylion hyn.

5.4 Mae CSYM yn bryderus am y cynnydd ym maint y maes parcio ar y safle o 1,000 i 1,900. Beth bynnag y maint, bydd angen manylion pellach am bwy fydd yn cael parcio ar y safle, lle bydd y gweithwyr sy'n byw yn y llety dros dro yn parcio ac ati.

5.5 Petai Horizon yn gallu dangos bod modd cymryd camau i sicrhau bod effeithiau eraill cynllun campws y prif safle yn dderbyniol, mae CSYM yn credu'n gryf y dylai'r maes pacio ar y safle barhau i fod yn faes parcio ar gyfer 1,000, dylai'r cyfleuster parcio a theithio ddarparu ar gyfer o leiaf 2,700 o gerbydau ac fe ddylai pawb sy'n teithio i'r safle yn ddyddiol orfod parcio yn Dalar Hir a theithio i'r safle ar fws. Yna, gallai bysiau mini gludo gweithwyr o amgylch y cymunedau / cyfleusterau / gwasanaethau ac ati yn ôl yr angen. Mae hyn yn bwysig, nid yn unig o safbwynt diogelwch y ffordd ond hefyd o ran yr effaith ar y gymuned a rheoli'r gweithlu.

5.6 Mae CSYM yn bryderus am y diffyg manylion am y cynllun rhannu ceir a pharcio. Mae Horizon yn cynnig strategaeth trafnidiaeth sy'n rhoi mwy o bwyslais ar rannu ceir gydag angen am 3 gweithiwr ym mhob cerbyd os am barcio ar y safle yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn hynod amheus ym marn CSYM gan fod y wybodaeth monitro ar hyn o bryd mewn perthynas â Hinkley Point C yn dangos mai rhwng 3% a 4% o weithwyr sy'n rhannu ceir. Er y cefnogir egwyddor y strategaeth, o ystyried y diffyg manylder am sut y bydd hyn yn cael ei weithredu a'i orfodi, mae gan CSYM bryderon sylweddol am weithwyr yn gadael eu ceir mewn cilfannau, ardaloedd parcio anawdurdodedig ac ati er mwyn gallu cael mynediad i safle Wylfa. Nodwn gyda phryder bod parcio anghyfreithlon yn bwnc trafod amlwg gyda'r gymuned yng Ngwlad yr Haf yn ystod y camau cynnar hyn o brosiect Hinkley Point C. Fe ddylai'r egwyddor o 3 gweithiwr ym mhob car hefyd gael ei weithredu yn ystod y cyfnod adeiladu, ac nid yn ystod y flwyddyn brysuraf yn unig.

5.7 Byddai CSYM yn awgrymu'n gryf i Horizon wneud cais am gyfleusterau Parcio a Theithio / Parcio a Rhannu ychwanegol llai ar hyd yr A55 (ac ar y tir mawr) ac yng Ngogledd yr Ynys (megis yn Amlwch / Benllech / Llannerch-y-medd) fel rhan o'u DCO (neu fel TCPA ar wahân). Mae CSYM yn ymrwymedig i weithio gyda Horizon er mwyn adnabod safleoedd posibl ac er mwyn sicrhau bod y safleoedd hyn yn rhai y bydd modd eu darparu.

5.8 Yr un modd â llwybrau bws, gan fod yr ardal yn un wledig ac y byddai angen bod yn y safle bws yn gynnar iawn yn y bore, bydd gweithwyr yn gyrru i fannau casglu ac yn gadael eu ceir. Mae CSYM o'r farn bod safleoedd parcio a theithio / parcio a rhannu llai, ychwanegol yn hanfodol.

5.9 Nid yw'r gostyngiad mewn mannau parcio o 5,800 i 3,800 o reidrwydd yn newid positif o PAC2 i PAC3. Gyda 2,000+ o bobl leol yn teithio i'r lle Parcio a Theithio neu i'r safle bob dydd, 3,000 o weithwyr mewn llety sydd eisoes yn bodoli yn teithio i'r safle yn ogystal â'r posibilrwydd y bydd 4,000 o weithwyr yn byw ar y safle (y mwyafrif ohonynt â cheir) mae CSYM yn bryderus nad oes parcio digonol ar gael ar gyfer y prosiect. Mae gostyngiad o 2,000 yn y nifer uchaf o weithwyr adeiladu (h.y. o 10,700 i 8,500 o weithwyr) ac mae'r llefydd parcio wedi gostwng 2,000. Mae hyn yn awgrymu bod parcio wedi gostwng ar gymhareb oddeutu 1:1.

5.10 Mae tystiolaeth o Hinkley yn dangos bod EDF yn ymgeisio i Gynghorau Gwlad yr Haf am eu 8fed safle parcio a theithio (4 mwy nag y rhoddwyd caniatâd iddynt yn y DCO gwreiddiol) sy'n dangos mater mor bwysig yw parcio. Mae CSYM yn credu bod angen i Horizon ailystyried y strategaeth parcio a chludo teithwyr.

5.11 Mae CSYM yn parhau i wrthwynebu Dalar Dir oherwydd nid yw'r materion a godwyd parthed y safle hwnnw wedi cael sylw digonol yn y ddogfen PAC3..

## 6 Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant

6.1 Yn ei ymatebion i ymgynghoriadau blaenorol fe bwysleisiodd CSYM y disgwyliad y bydd yr iaith Gymraeg a diwylliant yn cael eu trin fel thema hollgynhwysol ac fel llinyn euraidd a fydd yn sail i ystyriaethau a lliniaru holl agweddau'r prosiect Wylfa Newydd. Mae cadarnhad Horizon o'u hymrwymiad i gydnabod yr agwedd hon i'w chroesawu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn amlwg yn y ddogfennaeth PAC3. Mae CSYM felly'n tynnu sylw Horizon at y fethodoleg a fabwysiadwyd ganddynt wrth baratoi'r PEIR drafft fel rhan o PAC2. Roedd hyn yn cynnwys adran ym mhob pennod a oedd yn ystyried goblygiadau'r cynigion ar yr Iaith Gymraeg. Fe ddylai'r manylion hyn ynghylch diogelu'r Iaith Gymraeg a diwylliant ar gyfer y dyfodol gael eu cynnwys yn y cyflwyniadau DCO a'r dogfennau cefnogol.

6.2 Mae felly'n dilyn bod yr holiadur sy'n gofyn i ymgynghorai raddio'r mathau o brosiectau yn nhrefn eu pwysigrwydd yn hynod wallus gan fod Iaith Gymraeg a Diwylliant yn y rhestr o brosiectau.

6.3 Mae CSYM yn croesawu penodi Cydlynydd Iaith Gymraeg a Diwylliant i gynorthwyo ymhellach gyda datblygiad, gweithrediad a'r gwaith o fonitro'r rhaglen o fesurau y cytunwyd arnynt. Mae CSYM yn dymuno bod yn rhan o'r broses recriwtio ar gyfer y swydd hon ac fe ddylai'r deilydd adrodd yn ôl i'r Grŵp Llywio annibynnol yn rheolaidd.

6.4 Mae CSYM o'r farn bendant y dylai'r Cydlynydd a benodir fod â mynediad i arbenigedd cynllunio ieithyddol a oedd yn hanfodol i ddatblygiad y Gweithredoedd a'r Strategaeth Ddrafft ynghyd â chefnogaeth i ddefnyddio Methodoleg Asesu Risg Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn hanfodol bwysig yn ystod y gwaith adeiladu.

6.5 Mae CSYM yn nodi fod y tair thema allweddol ar gyfer y meysydd eang o liniaru ac ehangu yn Addewid Horizon ar yr Iaith Gymraeg yn cyd-fynd â'r 3 maes blaenoriaeth yn Strategaeth Iaith Gymraeg CSYM a gyhoeddwyd gan y Fforwm Strategol Iaith Gymraeg. Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar y weledigaeth ar gyfer Cyfrifiad 2021 sef i weld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn a bod y ffigwr hwnnw yn cynyddu i o leiaf 60.1% fel yr oedd yn 2001. Mae'r blaenoriaethau hyn yn sylfaen i'r cynigion ar gyfer Strategaeth Liniaru a Gwella Ddrafft y bydd angen ail edrych arni yn dilyn y newidiadau i'r prosiect sydd wedi eu hamlinellu yn PAC3. Mae CSYM felly'n disgwyl i'r aliniad hwn gael ei atgyfnerthu yng nghynnwys y Strategaeth derfynol a'i gweithrediad.

6.6 Mae PAC3 yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig i'r prosiect Wylfa Newydd. Un o'r newidiadau allweddol yw mewn perthynas â'r Strategaeth Llety Gweithwyr. Bydd hyn yn golygu goblygiadau ar gyfer cymunedau sy'n lletya gweithwyr mewn llety twristiaeth, rhent preifat a llety arall sydd eisoes yn bodoli a'r defnydd o gyfleusterau a gwasanaethau a'r rhyngweithio â gweithwyr sydd wedi'u lletya ar y campws. Mae'r ddogfennaeth yn cyfeirio at Gynllun Rheoli Campws y Safle sy'n adnabod mesurau i helpu sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol ar gymunedau lleol a'r Iaith Gymraeg a diwylliant yn cael eu lliniaru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw arwydd o'r lefel debygol o ryngweithio nac unrhyw gynigion manwl wedi eu darparu. Mae'r Cyngor yn mynnu bod safbwyntau holistig a gofodol yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r buddion posibl a'u heffeithiau a'u lliniariad. Felly, mae gan CSYM broblem â datganiad Horizon y bydd yn darparu cronfa fechan i liniaru'r effeithiau cymunedol penodol, gan gynnwys yr effeithiau cronnus. Ystyrir hyn yn ragamcanol ac fe ddylai maint y gronfa ymwneud yn uniongyrchol â'r mesurau lliniaru ac ehangu perthnasol sydd eu hangen.

6.7 Mae CSYM yn gwerthfawrogi bod Horizon yn derbyn y bydd mewnfudiad gweithwyr adeiladu nad ydynt yn siarad Cymraeg yn lleihau cyfran y siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, bydd yr effaith ac felly'r lliniariad priodol yn ddibynnol ar y nifer, eu lleoliad, lefel rhyngweithio gyda'r cymunedau y maent yn byw ynddynt a chyfnod eu harhosiad.

6.8 Mewn perthynas ag addysg a sgiliau, mae'r Cyngor wedi gosod mesurau lefel uchel yn y Strategaeth Lliniaru ac Ehangu sy'n cynnwys ei Gynllun Strategol Addysg Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys teclyn Asesu Sgiliau Iaith Gymraeg a thargedau cyrhaeddiad ar gyfer hyfforddiant Iaith Gymraeg a chapasiti arbenigol, cyrsiau ac adnoddau er mwyn cefnogi teuluoedd a'u plant sy'n adleoli i Ynys Môn.

6.9 Yn ychwanegol at fod yn llinyn euraidd, mae'r Iaith Gymraeg a diwylliant yn un o'r saith Nod Llesiant sydd angen eu hystyried ynghyd â'r egwyddorion o ddatblygiad cynaliadwy ym mhroses gwneud penderfyniadau CSYM a chyrff rhestredig eraill sy'n Randdeiliaid Allweddol yn y prosiect Wylfa Newydd. Mae Horizon yn cydnabod i raddau yn ei ddatganiad y rhyngberthynas rhwng y Nodau hyn ac economi gref, swyddi a llesiant yr iaith Gymraeg a diwylliant ar Ynys Môn. Ystyrir y bydd y cysylltiad yn amodol ar lefel y buddsoddiad mewn sgiliau, hyfforddiant, cymunedau cynaliadwy ac ati a drafodir yn fanwl yn yr adrannau cysylltiedig perthnasol. Mae llesiant yr iaith Gymraeg nid yn unig yn gysylltiedig â swyddi (y Nod o 'Gymru/Ynys Môn Ffyniannus) ond hefyd â'r chwe nod arall hefyd. Mae CSYM felly'n gofyn i Horizon ddilyn y camau sy'n cael eu cymryd gyda'i Asesiad Effaith ar Iechyd (sy'n cynnwys y nod o 'Gymru/Ynys Môn Iach'), h.y. wrth groesgyfeirio mesurau lliniaru mewn Asesiadau a Strategaethau eraill. Er enghraifft, mae edefyn sylweddol o'r Strategaeth Lliniaru ac Ehangu'r Iaith Gymraeg yn ymwneud â mesurau addysg a sgiliau a fydd yn cael sylw manwl yn yr Adran Gymdeithasol-Economaidd o'r Datganiad Amgylcheddol yn y cyflwyniad DCO.

Yn ychwanegol at y sylwadau lefel uchel uchod, mae sylwadau pellach am ddyluniad a chynllun yr orsaf bŵer, cyfleusterau gorsaf bŵer oddi ar y safle a sylwadau manylach ar bynciau eraill (megis Iechyd a Lles) wedi eu cynnwys yn yr Atodiadau perthnasol. Yn yr ymateb hwn, mae CSYM wedi bwriadau nodi sylwadau ar y newidiadau rhwng PAC2 a PAC3 yn unig. Mae'r materion a godwyd gan CSYM yn PAC2 felly'n parhau i fod yn ddilys a dylid eu darllen ar y cyd â'r ymateb hon.

**CASGLIADAU**

Fel gyda'r ymateb PAC2, mae casgliadau CSYM yn seiliedig ar y datganiadau yr ydych wedi eu gwneud yn eich Rhagair i'r Ddogfen Trosolwg Ymgynghori PAC3, sydd yn parhau i fod yn berthnasol gobeithio. Mae datganiad Horizon bod gan "Wylfa Newydd y potensial i newid

bywydau er gwell ledled Ynys Môn a dod a buddsoddiad sylweddol a chyfleoedd ar gyfer cymunedau ac unigolion ar draws Ynys Môn a thu hwnt” yn cael ei gefnogi’n llawn gan CSYM. Fodd bynnag, mae’r amcan lefel uchel hwn yn gwbl ddi-werth heb ymrwymiadau clir, ymrwymol a phendant ac mae angen iddynt fod â mwy o lawer o ffocws a chael eu darparu’n gynharach o lawer na’r ymrwymiadau lefel uchel cyfredol. Mae angen trosi geiriau Horizon yn ymrwymiadau a gweithredoedd pendant sy’n bodloni disgwyliadau pobl, busnesau a chymunedau’r ardal a phethau y byddant â’r gallu i fanteisio arnynt.

Cafodd y cysyniad o ‘drwydded gymdeithasol’ i weithredu hefyd ei gefnogi. Mae’r dogfennau PAC2 yn nodi’r hyn a ddwedwyd wrth Horizon yn gyson a sut mae wedi ymateb i’r galwadau am fuddsoddiad mewn rhaglenni addysg a sgiliau, creu miloedd o swyddi lleol yn ystod y cyfnod adeiladu a gyrfaoedd o safon uchel ar gyfer cenedlaethau yn ystod oes yr orsaf bŵer a pharch tuag at a hyrwyddo treftadaeth, diwylliant ac iaith yn lleol. Mae’r galwadau hyn unwaith eto wedi eu hatsain yn yr ymateb hwn.

Gan droi at y datganiadau yn y Rhagair diweddaraf, mae CSYM yn derbyn mai’r hyn yr ydych yn canolbwyntio arno yw ‘dylunio Prosiect Gorsaf Bŵer sydd o safon uchel, y gellir ei darparu, sy’n ddiogel, fforddiadwy ac sy’n adlewyrchu safbwyntiau’r gymuned’ ac eich bod yn ‘canolbwyntio ar sicrhau bod hyn yn realiti’. Bwriad CSYM wrth baratoi’r ymateb hwn yw eich cynorthwyo yn y broses hon. Mae hyn mewn gwirionedd wedi ei seilio ar y ffaith y bydd ystyriaeth o’r effeithiau a’r mesurau i’w lliniaru yn seiliedig ar dystiolaeth a pholisi, gyda gwybodaeth am yr effeithiau posibl ar sail gronnus a gofodol.

Mae’r ffaith eich bod yn derbyn y cyfrifoldeb am reoli effaith y cyfnod adeiladu yn enwedig ar y ffordd o fyw, iaith a diwylliant y rhan hyfryd hon o Gymru yn cael ei ategu’n llwyr; fodd bynnag, mae datganiadau o’r fath yn gwbl ddi-werth heb ymrwymiad diffiniedig i’w cefnogi. O’r herwydd, edrychwn ymlaen yn eiddgar at dderbyn eich cynigion manwl yn amlinellu’r modd yr ydych yn bwriadu gwneud hyn.

Rydych yn cyfeirio at weithio’n agos â CSYM a chyrff cyhoeddus eraill er mwyn sefydlu cymaint o gonsensws â phosibl ar y ffordd orau o ddarparu’r prosiect hwn. Mae’r Cyngor yn parhau i fod ym ymrwymedig i weithio gyda Horizon a rhanddeiliaid allweddol eraill ond fel sydd wedi’i fynegi ar sawl achlysur, ‘nid ar unrhyw gyfri’, na gydag ‘addewidion o jam yfory’. Bydd y Cyngor yn dal ati i geisio sicrhau’r canlyniadau gorau ar gyfer Ynys Môn a Gogledd Cymru ac mae’n annog Horizon i beidio â chymryd y Cyngor na’i gymunedau yn ganiataol.

Edrychaf ymlaen at barhau i ymgysylltu â Horizon mewn modd adeiladol.

Yn gywir,



**Gwynne Jones**
**Prif Weithredwr**

DRAFT

## ATODIAD A – ADRODDIAD STRATEGOL LEFEL UCHEL

### 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Ar 24 Mai 2017 cychwynnodd Horizon Nuclear Power Wylfa Limited (“Horizon”) Gam 3 yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (PAC3) ynghylch y newidiadau arfaethedig i Brosiect Wylfa Newydd (y Prosiect).

1.2 Mae dogfennau’r ymgynghoriad yn cynnwys Dogfen Trosolwg o’r Ymgynghoriad a’r Brif Ddogfen Ymgynghori gydag atodiadau. Mae’r ail o’r rhain yn disgrifio'r diweddariadau a’r newidiadau arfaethedig i'r cynllun ers Cam 2 yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (PAC2). Mae'r newidiadau hyn o ganlyniad i broses optimeiddio dyluniad a newidiadau i ddeddfwriaeth sy’n caniatáu gwneud cais am Ddatblygiad Cysylltiedig yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

1.3 Mae Cyngor Sir Ynys Môn (“CSYM” neu “Y Cyngor”) wedi adolygu'r dogfennau ymgynghori ac mae’r ddogfen hon yn nodi ymateb y Cyngor i’r ymgynghoriad a’r wybodaeth a gafodd ei chynnwys yn y Brif Ddogfen Ymgynghori a’i hatodiadau.

1.4 Mae’r ymateb hwn yn cynnwys sylwadau lefel uchel ac nid yw’n asesiad manwl a chynhwysfawr o bob thema neu fater. Mae CSYM wedi cyflwyno ei sylwadau er mwyn helpu i siapio’r cynnig a rhoi awgrymiadau a/neu ddatrysiadau lle bo hynny’n bosibl, fel mesurau lliniaru i fynd i'r afael â heriau ac i sicrhau bod y datblygiad yn llwyddiant i drigolion Ynys Môn, ei heconomi, ei chymunedau a’i hamgylchedd.

1.5 Mae'r Cyngor yn nodi, fel pwynt trosfwaol, bod diffyg manylder ar hyd PAC3 sy'n ei gwneud yn amhosibl asesu'r cynigion, eu heffeithiau a digonolrwydd y sylfaen dystiolaeth yn briodol. Mae gan y dull ar gyfer elfennau fel y strategaeth llety gweithwyr y potensial i newid effeithiau'r prosiect yn sylfaenol, ac nid yw'n dderbyniol fod y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y newidiadau hyn, gan gynnwys ystyried opsiynau gwahanol i'r cynigion yn PAC3, ac asesiadau o'u heffeithiau, wedi cael eu hepgor.

1.6 Yn PAC3 mae nifer o ddatganiadau o ymrwymiad i gynlluniau, mesurau neu ddarpariaeth lliniaru mewn amrywiol ffurfiau, fodd bynnag does dim cynigion penodol. Heb ymrwymiadau manwl i'r graddfeydd, yr amseru, y cyllid, y mesurau darparu a'r cynlluniau monitro ar gyfer lliniaru, nid oes modd asesu'r 'ymrwymiadau' hyn yng nghyswllt yr effeithiau y maent i fod i fynd i'r afael â hwy, ac ychydig o bwys y gellir ei roi arnynt. Mae gofyn i Horizon ddarparu'r manylion sy'n dangos sut bydd y datganiadau o fwriad hyn yn trosglwyddo i gymryd y camau gweithredu angenrheidiol ar yr adeg briodol.

1.7 Cyngor CSYM yw y byddai llawer o'r mesurau lliniaru arfaethedig a amlinellir yn PAC3, o ystyried y wybodaeth gyfyngedig a roddir, yn cynrychioli darpariaeth annigonol wedi'i chyflawni yn rhy hwyr yn y broses. Er enghraifft mae angen i'r rhaglenni addysg a sgiliau ddechrau yn ddigon pell ymlaen llaw er mwyn rhoi cyfle i drigolion lleol fanteisio ar swyddi wrth iddynt ddod i'r amlwg. Bydd dechrau'r rhain ar ôl dechrau adeiladu yn golygu colli sawl blwyddyn o gyfleoedd. Nid yw hyn yn ganlyniad derbyniol i gymunedau'r Ynys.

1.8 Er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder, mae'r sylwadau a gyflwynir wedi’u strwythuro o amgylch themâu a safleoedd a gyflwynir yn PAC3, sy’n canolbwyntio ar y newidiadau yn unig. Mae penodau 2-8 yn ymateb thematig ac mae Pennod 9 yn ymateb ynghylch materion amgylcheddol penodol i'r safle.

## 2.0 Swyddi a Sgiliau

### Creu Cyflogaeth

2.1 Mae CSYM yn cydnabod y gall y prosiect gynnig cyfleoedd enfawr i'r economi leol. Bydd creu swyddi yn cael effaith gadarnhaol ar unwaith, a gallai buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant roi hwb i'r economi o ran cyflenwi drwy esgor ar gronfa lafur fwy gyda lefelau cynhyrchiant uwch. Hefyd, dylai bod gallu cwmnïau ac unigolion i ennill profiad cysylltiedig ag adeiladu niwclear yn darparu cyfleoedd tymor hirach i sicrhau contractau ar gyfer cynnal a chadw Wylfa Newydd pan fydd yn weithredol, yn ogystal â gweithio ar adeiladau niwclear newydd yn y DU a thu hwnt. O ganlyniad i hynny, mae CSYM yn awyddus i bob rhanddeiliad weithio ar y cyd i gael y budd mwyaf posibl i'r gweithlu llafur lleol a busnesau lleol er mwyn helpu i drawsnewid yr economi leol a rhanbarthol.

2.2 Drwy wneud hyn, mae'n bwysig bod cynifer o gyfleoedd cyflogaeth â phosibl yn Wylfa Newydd yn cael eu llenwi gan lafur lleol, a bod hyn yn cael ei annog a'i gefnogi yn ystod y cam adeiladu a'r cam gweithredu. Yn yr un modd, mae'n bwysig bod cyfleoedd cadwyn cyflenwi yn cael eu hyrwyddo'n eang ymysg cwmnïau lleol, a bod y cwmnïau hynny'n cael cymorth i fanteisio ar y cyfleoedd hynny. Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth hyfforddiant a chymorth gael digon o leoedd i gwrdd â'r galw gan drigolion a busnesau Ynys Môn mewn modd amserol.

2.3 Yn y bennod hon, byddwn yn trafod:


a) Newidiadau yn y galw am weithlu rhwng PAC2 a PAC3, a'r angen am ragor o eglurder o ran y galw am sgiliau a'r cyflenwad sgiliau;
b) Y cyfaddawd posibl rhwng pobl leol yn llenwi'r gyfran fwyaf bosibl o swyddi, a dadleoli;
c) Y gronfa segur a di-waith y byddai modd ei defnyddio i ehangu'r gronfa lafur sydd ar gael a helpu i liniaru effeithiau dadleoli;
d) Y camau sy'n cael eu cymryd i fuddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant, y mesurau ychwanegol sy'n cael eu cynnig a'r angen ychwanegol am hyfforddiant ac addysg i ddeall a yw'r rhain yn ddigonol ac yn gallu cael eu darparu er mwyn llenwi bylchau o ran sgiliau a lliniaru effeithiau dadleoli; a
e) Budd sylweddol posibl cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi leol a beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod busnesau lleol yn ymgymryd â chymaint o'r gwaith â phosibl.

2.4 Y prif newid rhwng PAC2 a PAC3 yw bod niferoedd y gweithlu wedi newid. Mae'r galw am lafur yn ystod y cyfnod prysuraf wedi gostwng o 10,700 i 8,500. Fodd bynnag, mae Horizon wedi tybio y bydd uchafswm o 9,000 at ddibenion cofnodi a chynllunio. Mae proffil y gweithlu newydd hefyd wedi golygu bod y cyfnod prysuraf wedi newid, a bydd bellach yn digwydd yn 2023 yn hytrach na 2022.

2.5 Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y gweithwyr, mae cyfran y swyddi a fydd yn cael eu llenwi gan lafur lleol wedi gostwng ychydig, sy'n cael effaith negyddol ar gyfanswm y swyddi lleol, fel y trafodir isod. Mae'r data yn ffigurau 1 a 3 wedi deillio o'r gwaith modelu effaith gan Oxford Economics (ar ran CSYM), sy'n defnyddio gwybodaeth o'r proffil o'r gweithlu a ddarparwyd gan Horizon. Gan ystyried bod cyfanswm niferoedd y gweithlu wedi gostwng, mae'r gostyngiad bach yng nghyfran y gyflogaeth leol yn golygu bod nifer y swyddi y disgwylir i drigolion eu llenwi yn ystod y cyfnod wedi gostwng (ac eithrio 2017 a 2019). Mae hyn yn golygu y bydd tua 800 yn llai o swyddi i drigolion yn 2022, a dros 500 o swyddi yn llai bob blwyddyn rhwng 2023 a 2027 (gweler Ffigur 2). Er gwaethaf y cynnydd bach yng nghyfran y swyddi a fydd yn cael


eu llenwi gan lafur lleol yn 2026 a 2027, nid yw'n ddigon i ddigolledu'r gostyngiad cyffredinol yn y gweithlu adeiladu.

**Ffig. 1: Cyfran y swyddi yn Wylfa Newydd a fydd yn cael eu llenwi gan bobl leol**




Source: Oxford Economics

**Ffig. 2: Newid yn nifer y swyddi preswyl sy'n codi o'r proffil diwygiedig o'r gweithlu**




Source: Oxford Economics

2.6 Rydym yn cydnabod bod y gweithlu wedi'i leihau o ganlyniad i broses Optimeiddio Horizon. Gan ystyried popeth, mae gweithlu o 8,500 yn dal yn ffigur uchel iawn yng nghyd-destun Ynys Môn a bydd yr effeithiau sylweddol yn parhau. Mae'n rhaid asesu a lliniaru neu unioni'r effeithiau hyn yn llawn. Roedd ymateb CSYM i PAC2 yn nodi ein dymuniad i wthio cyfraniad lleol uwchlaw'r lefel flaenorol o 25%, fodd bynnag yn nogfennau PAC3 mae canran y gyflogaeth leol wedi gostwng i 22%, sydd i'r gwrthwyneb. Mae'r ffaith fod cyflogaeth leol yn ystod y cam adeiladu wedi gostwng mewn niferoedd gwirioneddol ac o ran y ganran yn annerbyniol gan ei fod yn lleihau darpariaeth oedd eisoes yn isel heb gyflwyno unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau hyn. Fel y nodwyd yn ymateb CSYM i PAC2 (Atodiad A – Paragraff 3.5) mae cyfleoedd amlwg i gynyddu'r ganran hon yn sylweddol. O ganlyniad, nid yw'n glir i CSYM pam

nad yw cyfran y swyddi ar gyfer y gweithlu lleol wedi cynyddu. Pe bai nifer gyffredinol y bobl leol sy'n gysylltiedig â'r prosiect wedi aros yr un fath â lefelau PAC2, byddai cyfran y swyddi lleol yn y proffil newydd o swyddi'r gweithlu wedi bod yn nes at 30% yn ystod y cyfnod prysuraf, sydd yn ei hun yn nes at y targed a osodwyd ar gyfer Hinkley Point C[4] . Fel y codwyd yn PAC2 yn barod, mae CSYM yn gwneud cais bod Horizon yn cynnal trafodaethau manwl ynghylch y mater hwn er mwyn nodi sut byddai modd rhoi mecanweithiau ar waith i gynyddu'r ffigur targed ar gyfer y gweithlu lleol.

2.7 Nid yw'r rhesymeg dros gadw'r gyfran leol o broffil y gweithlu sy'n dirywio yn sefydlog yn glir i CSYM, a byddem yn gofyn am ragor o wybodaeth am y strategaeth sy'n sail i'r penderfyniadau i leihau'r llafur lleol yn ystod y cam adeiladu. Mae CSYM yn gwneud cais bod rhagor o waith yn cael ei wneud ar sail y galw am sgiliau a'r cyflenwad, er mwyn asesu'n well nifer y bobl leol a allai weithio ar y datblygiad ynni mawr hwn, yn ogystal ag adlewyrchu'r potensial y gallai pobl fedrus sy'n cael eu denu gan y swyddi a'r cyflogau a gynigir ddychwelyd i Ynys Môn.

2.8 Hefyd, mae Horizon wedi nodi ei fod yn disgwyl y bydd "hyd at 85%" o'r swyddi gweithredol yn cael eu llenwi gan unigolion lleol. Mae CSYM yn cydnabod bod y targed o 45% wedi cynyddu yn sylweddol ers PAC2, ac yn croesawu hynny. Fodd bynnag, hoffai CSYM i hon fod yn lefel isaf gyda tharged o 100%, gan mai amcangyfrif yn unig yw'r "hyd at 85%" a nodir; heb fesurau i sicrhau darpariaeth nid oes modd rhoi pwys ar y budd pwysig posibl hwn gan nad oes llawer o hyder y bydd yn cael ei gyflawni. Yng nghyswllt hyn, mae CSYM yn gwneud cais am eglurder o ran pryd a sut fydd y targed yn cael ei gyflawni a'i fonitro dros amser. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r gwaith o fonitro a llwyddo i sicrhau swyddi adeiladu.

2.9 Rydym yn nodi hefyd bod Ffigurau 1 i 3 yn hepgor y 1,000 o weithwyr sydd eu hangen i wneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn ystod cyfnodau segur pan fydd yr orsaf yn weithredol. Ni chafwyd ymgynghoriad ynghylch y ffynhonnell cyflogaeth hon ac ni chafodd ei hystyried yn y gwaith modelu economaidd diweddar a gynhaliwyd gan CSYM. Mae CSYM yn croesawu swyddi ychwanegol, ond hoffem ragor o wybodaeth am y rolau hyn. Er enghraifft, a ydynt yn gyflogaeth ran amser, amser llawn neu dros dro? Hefyd, nid yw'n glir faint o'r swyddi hyn y disgwylir y bydd pobl leol yn eu llenwi. Bydd hyn yn amlwg yn effeithio ar effeithiau posibl y rolau hyn, gan y bydd mewnlifiadau rheolaidd o 1,000 o weithwyr dros dro yn achosi effeithiau sylweddol eu hunain, ac mae swyddi dros dro i bobl leol yn achosi effeithiau gwahanol, yn enwedig yn y farchnad lafur leol.

2.10 Y prif fater yng nghyswllt y thema hon yw y bydd y prosiect yn creu nifer uchel o rolau ar amrywiol lefelau ac ar draws lefelau sgiliau. Mae angen i nifer y bobl leol sy'n llenwi'r rhain fod cyn uched â phosibl. Mae hyn yn cynrychioli cyfle gwerthfawr i sicrhau'r defnydd o lafur lleol a sicrhau mantais uniongyrchol i'r gymuned leol. Fodd bynnag, er mwyn gwireddu'r cyfle hwnnw, mae'n rhaid gosod targedau llafur lleol uchelgeisiol a gorfodol a fydd yn cael eu monitro a'u cyrraedd yn ystod y camau adeiladu a gweithredu.

**Galw am Sgiliau**

2.11 Mae CSYM yn croesawu'r manylion ychwanegol am y gofynion galwedigaethol a sgiliau. Ar hyn o bryd, mae awgrym cyffredinol o'r mathau o swyddi fydd eu hangen yn ystod y cyfnod prysuraf (Tabl 4.2) ond ffigurau canran yw'r rhain. Felly, nid oes

[4] https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010001/EN010001-005333-8.16%20Economic%20Strategy%201.pdf

DRAFT

modd deall sawl person fydd ei angen ar gyfer swyddi penodol a sut mae hyn yn cymharu â’r cyflenwad llafur presennol; ac wedi ystyried hynny, i ba raddau fydd sefydliadau addysg a hyfforddiant lleol yn gallu diwallu'r anghenion hyn. Bydd y data hwn yn hanfodol er mwyn helpu i gynllunio darpariaeth sgiliau a hyfforddiant yn amserol.

2.12 Mae angen gwneud rhagor o waith i gyfateb galw Wylfa Newydd am lafur i'r cyflenwad llafur presennol, nodi'r bylchau o ganlyniad i hynny, a gallu cyrff amrywiol sy’n gysylltiedig â datblygu sgiliau a hyfforddiant i lenwi’r bylchau hynny. Mae CSYM yn cefnogi’r ymrwymiad i gydweithio â Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn ariannu a darparu hyfforddiant ychwanegol i ddiwallu anghenion prosiect Wylfa Newydd.

2.13 Er bod ymrwymiad i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant yn ystod y cam adeiladu, mae angen rhagor o fanylion am beth fydd hyn yn ei gynnwys. Yn arbennig, mae angen cynnwys llwytho blaen a darparu hyfforddiant yn gynnar er mwyn sicrhau bod swyddi yn gynnar yn y cam adeiladu ar gael. Mae risg y bydd y cyfle mawr o ran cyfleoedd hyfforddi a swyddi lleol a ddaw yn sgil y cam adeiladu yn cael ei golli os na ddarperir hyfforddiant yn ddigon buan.

2.14 Er bod proffil y gweithlu adeiladu yn helpu drwy rannu swyddi yn gategorïau cyffredinol, yn ôl safle a dadansoddiad o grefft, byddai’n ddefnyddiol deall cymwysterau ar ba lefel sydd eu hangen ar gyfer pob swydd. Er enghraifft, mae CSYM yn ansicr beth fyddai'r galw am lafur yn y dyfodol pe bai’n cael ei rannu yn ôl lefel cymwysterau a phynciau e.e. X o raddedigion STEM, Y o drydanwyr gydag NVQ lefel 3, ac ati).


2.15 O ganlyniad, mae’n hanfodol cael dadansoddiad o’r galw am sgiliau yn yr economi leol, a’r cyflenwad, cyn cyflwyno'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Byddai hyn yn golygu bod modd cael dadansoddiad manylach o’r capasiti lleol, gwell dealltwriaeth o ddadleoli, y rheini sy’n cael eu tangyflogi, a sut gallai'r bobl leol sy’n segur ac yn ddi-waith wneud cyfraniad. Byddai gwell dealltwriaeth o fylchau o ran sgiliau yn y dyfodol hefyd yn hwyluso’r broses o ddatblygu hyfforddiant penodol wedi’i dargedu er mwyn sicrhau'r mantais uchaf posibl. Er enghraifft, ar hyn o bryd nid yw CSYM yn deall yn glir pa hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen mewn addysg uwch ac addysg bellach i gwrdd â'r galw gan Horizon yn y dyfodol. Mae angen manylion am yr angen am sgiliau ychwanegol yn y gadwyn gyflenwi uniongyrchol (byddai mwy o fanylion am y contractau ar gael i fusnesau lleol o gymorth gyda hyn, ac eir i'r afael â hyn mewn manylder isod).

2.16 Y maes lle collwyd y nifer fwyaf o swyddi o ganlyniad i’r lleihad yn niferoedd y gweithlu rhwng PAC2 a PAC3 yw’r categori “Staff clerigol, diogelwch a Gwasanaethau’r Safle”, a “Gweithredwyr Peirianneg Sifil” ar ôl hynny (gweler Ffigur 3). Mae hyn yn rhoi rhywfaint o arweiniad o ran y newid yn y galw am wahanol fathau o swyddi, ond mae'n anghyflawn ac mae CSYM yn gwneud cais am ragor o fanylion am y galw a'r cyflenwad o ran sgiliau a chymwysterau.

2.17 Mae modd cynyddu llif y bobl i’r gronfa lafur drwy hybu pynciau addas yn yr ysgol er mwyn bodloni gofynion y swyddi amrywiol sydd ar gael. Mae CSYM yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer gwella'r cyfleusterau addysgu a dysgu yn yr ysgolion uwchradd. Serch hynny, mae angen rhagor o fanylion ynghylch lefel a hyd a lled yr ymrwymiad hwn. Mae angen dyrannu gwerth lliniaru a chytuno ar hynny ac ar amserlen taliadau a gwaith yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd gan y dystiolaeth fanwl y gofynnir amdani yn 2.14 uchod. (Bydd 2019 yn rhy hwyr i ddechrau'r broses buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion er mwyn ehangu a dylanwadu'n gadarnhaol ar sgiliau a

chyrhaeddiad STEM gweithwyr y dyfodol). Mae angen darparu'r wybodaeth i nodi'r Gwaith mwyaf effeithiol yn y tymor byr er mwyn ei gwneud yn bosibl dylunio'r rhain cyn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

**Ffig. 3: Y newid mewn swyddi preswyl yn ôl math**




Source: Oxford Economics

**Sicrhau'r gyflogaeth fwyaf posibl, gan liniaru effeithiau dadleoli**


2.18 Mae CSYM yn dymuno sicrhau bod pobl leol yn llenwi cynifer o swyddi Wylfa Newydd â phosibl, ond hefyd yn ymwybodol bod cyfaddawd â'r posibilrwydd o ddadleoli yn bosibl, oni bai fod camau priodol yn cael eu cymryd i roi hwb i elfen gyflenwi'r economi. Yn ymarferol, bydd y galw llai am lafur lleol a nodir yn PAC3 yn lleihau'r llafur a fydd yn debygol o gael ei ddadleoli o fusnesau lleol presennol.

2.19 Mae PAC3 yn datgan y bydd y galw am lafur ar ei fwyaf yn 2023, sef 9,000, a disgwylir y bydd ychydig dros 2,000 o'r rolau hyn yn cael eu llenwi gan bobl leol (gweler Ffigur 4)[5] . Nid oes dadansoddiad manwl o'r galw a'r cyflenwad o ran sgiliau ar Ynys Môn wedi cael ei ddarparu, ac felly mae'n anodd asesu effeithiau dadleoli posibl yn gywir. Mae modd defnyddio'r lefel o bobl segur a di-waith i gael brasamcan o'r llafur dros ben posibl ar Ynys Môn. Gallwn hefyd edrych ar raddfa'r swyddi fydd yn cael eu creu yn Wylfa Newydd o gymharu â lefelau cyflogaeth presennol. Mae modd ychwanegu at hyn y llif o bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol a'r coleg gyda chymwysterau perthnasol, a phobl sy'n debygol o ddychwelyd. Gellir rhoi gwybod i'r bobl sy'n debygol o ddychwelyd am swyddi a hyfforddiant drwy hysbysebion wedi'u targedu yn y wasg broffesiynol ac ar gyfryngau cymdeithasol, ynghyd â mesurau lliniaru eraill.

[5] Pe bai'r economi ar gapasiti llawn, byddai'r theori hon yn arwain at 100% o ddadleoliad gan y byddai'r llafur yn dod o gwmnïau sydd eisoes yn bodoli. Byddai hefyd yn arwain at godi cyflogau, a fyddai'n gwneud y diwydiant yn llai cystadleuol. Ar adeg ysgrifennu hwn, roedd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld bwlch allbwn cadarnhaol, sy'n gysylltiedig â chyfraddau defnyddio adnoddau uwch (http://budgetresponsibility.org.uk/forecasts-in-depth/the-economy-forecast/potential-output-and-the-output-gap/). Eu hamcangyfrifiad canolig ar gyfer y bwlch allbwn oedd 0.2%. Mewn geiriau eraill, roedd disgwyl y byddai economi'r DU ar gapasiti llawn.

DRAFT

**Ffig. 4: Galw am weithlu yn Wylfa Newydd**




Source: Oxford Economics

2.20 Mae data cyhoeddedig yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos bod 1,700 o unigolion ar Ynys Môn yn ddi-waith rhwng mis Ionawr 2016 a mis Rhagfyr 2016. Mae hyn gyfwerth â 5.6% o’r boblogaeth oed gweithio ac yn cymharu â 4.9% yn y DU a 4.8% yng Nghymru. I roi darlun o hyn, er mwyn bod yr un fath â chyfradd ddiweithdra Cymru, byddai’n rhaid i nifer y bobl ddi-waith ar Ynys Môn fod ychydig dros 240 yn llai.

2.21 Mae’n bosibl y byddai’r unigolion hyn yn cynyddu maint y gronfa lafur drwy lenwi swyddi uniongyrchol a swyddi gwag o ganlyniad i bobl yn gadael swyddi er mwyn cael swyddi gwell yn Wylfa Newydd, fodd bynnag nid yw wedi bod yn bosibl cynnal dadansoddiad manwl o’r sgiliau y mae’r bobl ddi-waith yn eu cyflenwi a'r sgiliau tebygol y bydd galw amdanynt yn y sector preifat. Serch hynny, ystyrir ei fod yn rhesymol tybio y byddai angen rhywfaint o hyfforddiant o ystyried dadansoddiad y swyddi angenrheidiol yn Wylfa Newydd. Mae angen darparu hyfforddiant i gynyddu'r 'llwybrau eraill at gyflogaeth' fel yr awgrymir gan Horizon, a sicrhau'r manteision posibl honedig i’r gymuned leol drwy lafur lleol.

2.22 Hefyd, yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, roedd 10,200 o unigolion segur ar Ynys Môn (rhwng mis Ionawr 2016 a mis Rhagfyr 2016), a chofnodwyd bod 2,300 eisiau gwaith. Fodd bynnag, nid yw’n glir p’un ai a yw’r unigolion hyn yn chwilio am swydd amser llawn neu ran-amser, neu’n chwilio am rywbeth penodol neu angen hyfforddiant. Mae’n aneglur hefyd sut byddai eu sgiliau’n cyd-fynd â swyddi Wylfa Newydd, ond efallai y gallai hyfforddiant arwain at gyfleoedd ym meysydd arlwyo a diogelwch. Er bod rhywfaint o gapasiti yn y gronfa segur a di-waith, mae p’un ai a oes ganddynt y sgiliau priodol neu beidio yn ffactor allweddol. Rydym yn gwybod bod angen bron i 900 o unigolion ar Wylfa Newydd i lenwi swyddi sy’n ymwneud â pheirianneg, 237 ar gyfer swyddi rheoli a goruchwylio a 191 o staff gweithredol, sy’n gyfanswm o 1,328 o bobl leol. Mae’n annhebygol y bydd gan lawer o’r rheini sy’n dod o gyfnod segur y sgiliau i weithio’n uniongyrchol ar Wylfa Newydd neu i lenwi swyddi ôl-lenwad. Mae CSYM yn gofyn bod Horizon yn mynd ati ar frys i wneud gwaith ymchwil pellach ar y rhannau hyn i alluogi'r hyfforddiant a'r recriwtio i gael eu targedu a'u darparu yn briodol.

DRAFT

2.23 Mae'n debygol y bydd y llafur lleol sy'n manteisio ar y cyfleoedd peirianneg, goruchwylio, rheoli a gweithredu yn Wylfa Newydd dan gyflogaeth eisoes. Fodd bynnag, mae 689 o swyddi pellach a allai fod angen sgiliau lefel is (hynny yw, gwasanaethau ar ac oddi ar y safle, staff clerigol a diogelwch) a allai fod yn fwy addas ar gyfer pobl segur a di-waith. Mae'n debygol y bydd angen Ymyriadau Polisi i roi hyder, sgiliau a hyfforddiant i bobl er mwyn cael y swyddi hyn, ac mae angen trafod y cynigion ar gyfer darparu hyn yn y tymor byr.

2.24 Yn y pen draw, bydd galw am staff a sgiliau ym meysydd adeiladu a'r amgylchedd adeiledig yn sgil prosiect Wylfa Newydd, yn ogystal â phobl a sgiliau ym meysydd gweinyddu, logisteg (gan gynnwys gwasanaethau bws/bws gwennol), arlwyo, lletygarwch, hamdden, gofal cymdeithasol a sectorau eraill nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu i gefnogi'r prosiect. Mae lefel y galw ychwanegol gan Wylfa Newydd yn debygol o achosi prinder llafur mewn sectorau a busnesau presennol. Mae cyfle allweddol i Horizon a'i gadwyn gyflenwi fuddsoddi mewn hyfforddiant yn y meysydd hyn er mwyn lliniaru'r effeithiau, darparu etifeddiaeth gynaliadwy yn sgil y prosiect a chefnogi sectorau allweddol yn yr economi. O ystyried hyn, mae angen i Horizon a'i gadwyn gyflenwi ymrwymo i fuddsoddiad ychwanegol mewn hyfforddiant ar gyfer swyddi gwasanaeth a swyddi eraill nad ydynt yn rhai adeiladu i gefnogi prosiect Wylfa Newydd.

2.25 Wedi nodi'r effeithiau posibl yn gyffredinol, mae angen rhagor o wybodaeth i nodi'r ffordd orau o dargedu ymyriadau er mwyn diwallu'r angen a nodir a darparu mesurau lliniaru addas. Mae angen ystyried mesurau lliniaru fel:

a) Darparu contractau i gwmnïau lleol a allai atal unigolion rhag gadael a sicrhau gwaith gyda chwmni cadwyn gyflenwi mwy yn haen 2;
b) Hyfforddiant ar gyfer pobl segur a di-waith er mwyn llenwi swyddi gwag, a allai gynyddu'r sgiliau sydd ar gael i fusnesau a helpu cwmnïau Ynys Môn i fodloni contractau presennol ac yn y dyfodol;
c) Annog y rheini sydd mewn hyfforddiant i fynd ar drywydd cyrsiau perthnasol i broffil gweithlu Wylfa Newydd; ac
d) Annog cyn-breswylwyr Ynys Môn i ddychwelyd adref i fanteisio ar y cyfleoedd swyddi newydd.

**I grynhoi, mae'r dystiolaeth o'r galw am sgiliau yn annerbyniol o anghyflawn, ac mae angen gwneud rhagor o waith. Mae angen y wybodaeth hon er mwyn gallu targedu swyddi a hyfforddiant yn briodol, sy'n angenrheidiol ar gyfer cynyddu'r cyfleoedd a chyflenwi'r llafur sydd ei angen ar Horizon cyn i swyddi ddod ar gael, gan leihau'r angen am fewnfudo lle gallai llafur lleol lenwi swyddi, gan ddiogelu cyflogwyr a busnesau presennol ar yr un pryd.**

**Hyfforddiant a Phrentisiaethau**

2.26 Mae dadansoddiad o arolwg y gweithlu llafur yn atgyfnerthu'r cyfoeth o lenyddiaeth ar bwysigrwydd cyflawniad o ran sgiliau a hyfforddiant. Mae'r tabl isod yn dangos, yn gyffredinol, bod y duedd i gyflogi trigolion Cymru a'u tâl gros wythnosol yn cynyddu wrth i lefel eu cymhwyster uchaf gynyddu. Yn ogystal â hynny, gan gymryd mai swm y cyflog a'r elw yw'r Gwerth Ychwanegol Gros, gallwn dybio y dylai cynyddu lefelau sgiliau godi lefelau cynhyrchiant ar Ynys Môn, gan gymryd bod popeth arall aros yr un fath.

**Ffig. 5: Gweithgaredd economaidd a chyflog cyfartalog yn ôl cymhwyster uchaf yng Nghymru**

| Level of highest qualification held (living in Wales) | Economic Activity Status | | | Average gross weekly pay in main job |
|---|---|---|---|---|
| | Share of Employed | Share of Unemployed | Share of Inactive | |
| NQF Level 4 and above | 79 | 2 | 18 | £644 |
| NQF Level 3 | 74 | 4 | 21 | £385 |
| NQF Level 2 | 64 | 7 | 29 | £359 |
| Below NQF Level 2 | 58 | 6 | 36 | £337 |
| Trade apprenticeships | 70 | 2 | 28 | £310 |
| Other qualifications | 65 | 3 | 32 | £295 |
| No qualifications | 37 | 4 | 60 | £303 |
| **Total** | **67** | **4** | **29** | **£475** |

Ffynhonnell: Arolwg y Gweithlu Llafur

2.27 Yn unol â hynny, gall hyfforddiant liniaru effeithiau dadleoli drwy roi hwb i'r cyflenwad sgiliau / llafur yn yr economi, a gall buddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau, a chyflawni sgiliau roi hwb i gynhyrchiant gan adael ôl parhaol ar yr economi. Felly mae CSYM yn awyddus i sicrhau'r manteision i'r dyfodol mwyaf posibl o'r prosiect cyfalaf blaenllaw hwn.

2.28 Rydym yn croesawu'r ffaith bod Horizon yn cynllunio ac yn buddsoddi'n weithredol mewn nifer o raglenni hyfforddiant. Mae dogfennau PAC3 yn nodi bod disgwyl i'r gadwyn gyflenwi greu prentisiaethau ym maes adeiladu, yr amgylchedd adeiledig a chrefftau perthnasol. Disgwylir i'r rhain fod ar lefelau 2 a 3 (ac mae Ffigur 5 yn dangos y gall hyn wneud gwahaniaeth materol o ran cyflogadwyedd a thâl wythnosol). Bydd angen i Horizon nodi sut bydd prentisiaethau yn cael eu hannog / eu gorfodi fel rhan o'r contractau a ddyfernir.

2.29 Byddai profiad o rywle arall yn ddefnyddiol ar gyfer darparu enghreifftiau o ddulliau lliniaru llwyddiannus yma. Wrth ddarparu Strategaeth Fuddsoddi yng Ngogledd Iwerddon[6], cyflwynodd y Bwrdd Buddsoddi Strategol 'amodau cymdeithasol' mewn contractau ar gyfer gwaith cyhoeddus mawr. Yn unol â'r amodau hyn, roedd yn ofynnol bod contractwyr yn darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer prentisiaid a phobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir. Mae hyn wedi cael ei ddatblygu ymhellach a'i ehangu i lunio'r Model Adeiladu "Prynu'n Gymdeithasol"[7], lle byddai'n rhaid recriwtio unigolyn di-waith tymor hir ar gyfer pob £1m o werth y contract, er enghraifft.

2.30 Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'r potensial sydd gan y prosiect i greu cyfleoedd am brentisiaethau a hyfforddiant ym maes adeiladu a chrefftau cysylltiedig, ond nid yw'n pennu ar bwy y mae'r cyfrifoldeb o ran darparu, ariannu a chefnogi'r cyfleoedd hyn. Mae'n rhaid i Horizon sicrhau y cânt eu darparu er mwyn hawlio'r manteision posibl hyn. Nid yw'n ddigon nodi y gallant godi. Mae hefyd yn bwysig nad yw'r cyfleoedd am brentisiaethau yn cael eu cyfyngu i grwpiau oedran penodol, a dylid

[6] http://isni.gov.uk/PDFs/Investment%20Strategy.pdf
[7] http://buysocialni.org/

cynnwys hyn yn y strategaeth ar gyfer darparu. Mae prosiect Wylfa Newydd hefyd yn debygol o greu cyfleoedd y tu hwnt i'r crefftau adeiladu ac amgylchedd adeiledig, gan gynnwys meysydd fel arlwyo, lletygarwch, hamdden a logisteg. Ar hyn o bryd, nid oes ymrwymiad cadarn ar gyfer hyfforddiant yn y meysydd hyn, na syniad o ble byddai'r buddsoddiad ariannol i gefnogi hynny yn dod ohono. Nodir bod Horizon wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r mater, ac mae'r Cyngor yn awyddus i gymryd rhan.

2.31 Rydym yn croesawu’r newyddion bod Horizon wedi derbyn 10 o brentisiaid fel rhan o'r Cynllun Prentisiaethau Technegol yn 2016, ac y bwriedir derbyn 12 arall yn ystod 2017/18. Byddai’n ddefnyddiol deall sut bydd Horizon yn cynnal y Cynllun Prentisiaeth Dechnegol drwy gydol oes y prosiect adeiladu. Hefyd, mae lefel y cynigion hyn o gymharu â graddfa gyffredinol y prosiect yn fach ac, mewn rhai achosion, mae'r niferoedd a'r canlyniadau tymor hir yn anhysbys. Mae angen eglurder o ran y manylion; er enghraifft, faint o safleoedd i brentisiaid fydd yn cael eu creu bob blwyddyn, ac a fydd y nifer yn cynyddu yn unol â'r galw am lafur yn ystod y cyfnod prysuraf?

2.32 Rydym hefyd yn croesawu’r ymdrechion i ychwanegu cyrsiau â chyd-destun niwclear ym Mhrifysgol Bangor, y buddsoddiad mewn darpariaeth Peirianneg gan Grŵp Llandrillo Menai ym Mangor ac yn Llangefni, ac ymgysylltu ag ysgolion i annog dewis pynciau STEM. Rydym yn awyddus i ddeall sut mae’r gweithredoedd hyn yn rhan o strategaeth hyfforddiant / sgiliau ehangach Horizon, a phryd bydd y buddsoddiadau pellach hyn yn cael eu gwneud er mwyn cynyddu llif y disgyblion/graddedigion a allai fod ar gael i weithio yn Wylfa Newydd neu fel rhan o'r gadwyn gyflenwi gyda chontractwyr lleol.

2.33 Mae angen rhagor o wybodaeth ynghylch unrhyw raglenni neu gymhellion i ymgorffori neu ail hyfforddi staff presennol Magnox (neu’r rheini â sgiliau perthnasol sydd newydd adael) i gyfrannu at gam adeiladu neu gamau gweithredol Wylfa Newydd yn y dyfodol. Mae angen cynigion clir yn hynny o beth.

2.34 Mae'r effeithiau cyflogaeth cadarnhaol posibl yn cael eu hawlio fel un o brif fanteision y prosiect. Felly, mae sicrhau manteision lleol i drigolion a'r gweithlu presennol yn hynod bwysig i randdeiliaid, fel sy’n cael ei gydnabod yn yr ymateb i PAC3 (A8.1). Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn cyfleusterau a chyrsiau hyfforddi ochr yn ochr â mesurau i sicrhau bod y swyddi sy'n cael eu creu yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu yn cael eu llenwi gan y gweithlu lleol, a bod contractau'r gadwyn gyflenwi ar gael i fusnesau lleol (A 8.1, A8.3, A8.6).

2.35 Mae’r safle presennol a nodwyd yn PAC3 mewn perthynas â sgiliau a hyfforddiant, ac ymrwymiad presennol Horizon a’r potensial i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant yn y dyfodol, yn cyflwyno risg wirioneddol o golli'r cyfleoedd hyn a buddiannau economaidd ehangach. Ar ben yr holl fesurau a drafodwyd, byddai CSYM yn cynnig bod cronfa hyfforddiant yn cael ei chreu er mwyn lliniaru’r risgiau o golli buddiannau a sicrhau bod digon o adnoddau i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

**I grynhoi, mae'r angen i sicrhau manteision lleol i drigolion a'r gweithlu presennol yn hynod bwysig. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn cyfleusterau a chyrsiau hyfforddi ochr yn ochr â mesurau i sicrhau bod y swyddi sy'n cael eu creu yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu yn cael eu llenwi gan y gweithlu lleol, a bod contractau'r gadwyn gyflenwi ar gael i fusnesau lleol**



DRAFT

**Y Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogaeth a’r Strategaeth Swyddi a Sgiliau**

2.36 Mae CSYM yn croesawu ac yn cydnabod yr ymrwymiad i greu “Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogaeth” a “Strategaeth Swyddi a Sgiliau” ac i weithio gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn y rhanbarth. Mae angen rhagor o ymgysylltu a chydweithio ac mae'n bwysig nawr gweithio mewn partneriaeth i gytuno ar y manylion er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn effeithiol ac yn gweithio. Mae CSYM yn awyddus i sicrhau cyflenwad o sgiliau er mwyn gofalu bod cyn lleied o ddadleoli â phosib. Mae angen ar frys i randdeiliaid allweddol ym meysydd addysg a hyfforddiant fod â dealltwriaeth o'r galw am sgiliau a'r cyflenwad yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer Wylfa Newydd, fel bod modd ymgorffori hyn yn eu cynllun Sgiliau Rhanbarthol ehangach.

2.37 Hefyd, nid oes arwydd clir o ymrwymiad ariannol Horizon i'r Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau, nac i ba raddau mae cadwyn gyflenwi Horizon wedi ymrwymo i ddefnyddio'r froceriaeth. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar hyn o bryd, ond mae angen i bob partner ymrwymo iddo er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol yn ystod y prif gam adeiladu a thu hwnt. Bydd treialu’r gwasanaeth yn gam pwysig er mwyn sefydlu’r paramedrau tymor hirach ar gyfer y prosiect a chyfraniad ac ymrwymiad partneriaid gan gynnwys Horizon, Menter Newydd, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Grŵp Llandrillo Menai, CSYM, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac eraill wrth i’r prosiect fynd rhagddo. Croesewir hyn ac mae’n gam cadarnhaol ymlaen yn dilyn cydweithredu calonogol ac adeiladol. Mae CSYM yn awyddus i fod yn rhan o'r broses hon er mwyn sicrhau bod cynifer o gyfleoedd â phosib ar gael ar gyfer pobl leol ac mae’n gwneud cais am fanylion ynghylch y camau nesaf a’r amserlen ar gyfer datblygu’r Gwasanaeth a deialog ynglŷn â sut mae cymryd rhan.

2.38 Hefyd, nid defnyddio'r Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogaeth ddylai fod yr unig ffordd o fod yn rhan o ddatblygu sgiliau lleol. Dim ond un dull i sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei rhoi i gyflogaeth leol yw'r froceriaeth, ac mae angen ymyriadau eraill. Er mwyn darparu rhagor o eglurder, dylid nodi union gylch gwaith a rôl y gwasanaeth broceriaeth er mwyn rhoi golwg gyson ar yr hyn a fydd yn cael ei ddarparu. Yn yr un modd, dylid hefyd nodi’n glir sut bwriedir gwneud y llwybrau eraill at gyflogaeth yn weithredol (par 4.4.12) gyda mecanweithiau penodol, targedau wedi’u mesur, cyllid a manylion eraill, gan gynnwys staffio.

2.39 Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi y bydd y strategaeth swyddi a sgiliau yn amlinellu sut bydd Horizon yn gweithio gyda phartneriaid i ariannu hyfforddiant. Yn ystod y cam hwn o’r broses ymgynghori a datblygu prosiect, byddem wedi disgwyl fod hyn wedi cael ei gwblhau, ac y byddem yn glir o ran graddfa'r ymrwymiad ariannol i hyfforddiant a'r dulliau darparu. Heb ymyriad priodol yn gynnar yn y broses, bydd y cyfle i fanteisio i’r graddau mwyaf posibl ar y cyfleoedd sgiliau a hyfforddiant yn y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu yn cael ei golli yn sgil diffyg ymrwymiad a chynllunio ymlaen llaw annigonol. Dylid mynd i’r afael â hyn ar frys a chyn cyflwyno’r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

2.40 Er bod CSYM yn cydnabod y cynnydd o ran y Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogaeth a’r Strategaeth Swyddi a Sgiliau, nid oes modd dweud yr un fath mewn perthynas â'r Strategaeth Addysg. Nid yw CSYM wedi cael copi o'r strategaeth hon eto, er ei fod wedi gwneud sawl cais amdani. Mae CSYM yn gwneud cais am gael copi o'r strategaeth (yn ei fformat drafft os nad yw'n barod ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol eto). Byddai'r Cyngor yn fodlon gweithio mewn partneriaeth gyda Horizon i baratoi'r ddogfen derfynol.

DRAFT

**Crynodeb swyddi a sgiliau**
**Mae cyflogi a gwella sgiliau llafur lleol a chadw pobl ifanc medrus yn Ynys Môn yn un o brif fanteision posibl y prosiect, a dylid adlewyrchu hyn drwy dargedau uwch o lawer ar gyfer llafur lleol ar gyfer adeiladu a gweithredu, a hynny'n seiliedig ar ymrwymiadau clir, manwl ac amserol, wedi'u hariannu, i gyrraedd y targedau hyn. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen dechrau darparu hyfforddiant sgiliau ac addysg yn ddigon buan i sicrhau y gellir manteisio ar bob cyfle sydd ar gael.**

DRAFFT

## 3.0 YR ECONOMI A'R GADWYN GYFLENWI

### Gwneud y Defnydd Gorau Posibl o Gyfleoedd yn y Gadwyn Gyflenwi

3.1 Mae CSYM yn croesawu'r ymrwymiad parhaus i ddatblygu cynllun gweithredu a siarter y gadwyn gyflenwi (paragraff 8.2.3) ond does dim digon o fanylion o hyd am y cyllid, y gweithredoedd a'r mecanweithiau penodol sydd eu hangen i gyflawni'r egwyddorion, y disgwyliadau a'r ymddygiadau sydd wedi'u pennu. Bydd CSYM yn parhau i weithio gyda Horizon, ei gadwyn gyflenwi a phartneriaid yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus i lunio a chyflawni'r ymrwymiad hwn.

3.2 Mae cyfraniad Menter Newydd a'i weithgarwch contract cynnar, ochr yn ochr â gwaith Hitachi gyda phartneriaid yn y DU, yn cael ei groesawu, yn ogystal â'r ffaith ei fod wedi cydnabod cwmnïau o Gymru sydd wedi'u cofrestru fel cyflenwyr posibl ar gyfer Hitachi. Mae angen parhau â'r gwaith hwn a'i drosi'n gyfleoedd contract cadarn drwy weithio mewn partneriaeth â busnesau lleol a rhanbarthol, yn ogystal â gweithio gyda'r sector cyhoeddus i oresgyn unrhyw gyfyngiadau/rhwystrau wrth gael mynediad at y gadwyn gyflenwi. Byddem hefyd yn croesawu ymgysylltu yn y tymor byr ynghylch manylion y cynllun caffael a phecynnau gwaith unigol er mwyn galluogi perthnasoedd â'r gadwyn gyflenwi leol i ddatblygu, a sicrhau y manteisir ar gynifer o gyfleoedd â phosibl yn lleol.

3.3 Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i wario 60% o gyllid y prosiect yn y DU. Mae'r gwerth a glustnodwyd ar gyfer y DU yn ymddangos yn uchel yng nghyd-destun gwaith a wnaed gan Oxford Economics ar gyfer yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd[8] yn y gorffennol . Yn naturiol, mae'r Cyngor yn gobeithio cael y gyfran leol fwyaf posibl o'r gwariant hwn yn y DU. Ar hyn o bryd, mae Horizon yn rhagweld y bydd tua £400m yn cael ei wario yn lleol, ac mae CSYM yn cydnabod y byddai hyn yn rhoi hwb sylweddol i'r galw yn yr economi leol. Hoffai CSYM ddeall sut cyrhaeddwyd yr amcan hwn, a byddem yn gwerthfawrogi rhagor o fanylion. A yw Horizon wedi dadansoddi gallu'r gadwyn gyflenwi leol ac amcangyfrif gwerth tebygol contractau a fydd ar gael i fusnesau lleol?

3.4 Rydym yn gwerthfawrogi'r camau sydd wedi'u cymryd i ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi a'r ymdrechion i gofrestru cwmnïau drwy gontractau Ymgysylltu ag Adeiladwyr yn Gynnar. Fodd bynnag, mae angen rhagor o fanylion a thystiolaeth ar CSYM o ran sut bydd cynifer o gyfleoedd busnes lleol â phosibl ar gael. Er enghraifft, yn ystod y cam hwn, gallai unrhyw wybodaeth ychwanegol a fyddai'n dangos y mathau o gontractau a'u maint annog rhagor o fusnesau ar Ynys Môn i ymgysylltu. Mae CSYM yn pwysleisio bod yn rhaid i gwmnïau lleol gael cyfleoedd i gyfrannu'n llawn yn y gadwyn gyflenwi yn ystod y cam adeiladu a'r cam gweithredu, ac y dylid eu cefnogi yn hynny o beth pan fo angen. Er enghraifft, dylai gwasanaethau nad ydynt yn rhai arbenigol neu dechnegol, fel Gwasanaethau Bws, Bwyd ac Arlwyo, Gwasanaethau Golchi Dillad (nid yw hon yn rhestr gyflawn) gael eu darparu gan gwmnïau lleol er mwyn cael y budd economaidd-gymdeithasol mwyaf posibl o'r prosiect. Mae'r Cyngor yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut bydd consortia busnesau bach yn cael eu hannog a'u cefnogi i sicrhau'r gwaith hwn. Mae'r Cyngor yn nodi bod pecynnau'r contractau ar gyfer y gwaith ar yr A5025 wedi eu dylunio'n fwriadol i hwyluso cyfraniad gan amrywiaeth o wahanol weithredwyr o wahanol feintiau. Dylid defnyddio dull tebyg ar gyfer contractau addas yn y prosiect i sicrhau bod y manteision posibl i fusnesau lleol a rhanbarthol yn cael eu sicrhau, a bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod dull o'r fath yn cael ei gynnwys yn y strategaeth caffael.

[8] http://namrc.co.uk/wp-content/uploads/2013/04/economic-benefits.pdf

3.5 Mae'n bwysig bod dulliau cadarn sydd wedi'u nodi'n glir ac y cytunir arnynt yn dangos sut bydd cyfraniad lleol mewn contractau cadwyn gyflenwi yn cael ei fonitro. Felly, yn ogystal ag ymrwymiad cadarn i ddeall capasiti'r gadwyn gyflenwi leol, i hybu Gwasanaethau Contractau'r Gadwyn Gyflenwi ac i ymgysylltu â busnesau bach i'w helpu i sicrhau contractau, dylai Horizon hefyd ymrwymo i fframwaith monitro cadarn a thrylwyr gyda mesurau lliniaru ychwanegol wedi'u darparu pan fo'r gwaith monitro yn dangos nad yw busnesau lleol yn manteisio ar gyfleoedd cadwyn gyflenwi lleol.

3.6 Mae'n gadarnhaol bod tua 100 o'r 500 o fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar wefan cyflenwyr Hitachi yn dod o Gymru. Hoffai CSYM groesawu deialog pellach yng nghyswllt hygrededd y busnesau hynny i fod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi, i nodi unrhyw fylchau o ran sgiliau, cyflawniad ac ati, a sut gall y sector cyhoeddus gynorthwyo i oresgyn y rhain.

3.7 Mae'r rhestr o waith arfaethedig gyda rhanddeiliaid (4.6.8) yn ddatblygiad cadarnhaol yn hynny o beth, ond mae angen gwneud rhagor o waith i bennu ymrwymiadau penodol a darparu eglurder ynghylch nifer, graddfa a maint y cyfleoedd cadwyn gyflenwi fydd eu hangen yn sgil y prosiect.

3.8 Mae'r ffaith y bydd 55% o'r gwariant ar gyfer y gwaith yn ystod y cam cynnar ar safle Wylfa Newydd yn cael ei wario ar y gadwyn gyflenwi leol/rhanbarthol yn cael ei chroesawu. Er mwyn sicrhau bod hyder yn cael ei feithrin yn yr economi leol, dylai gwariant lleol barhau a gwybodaeth am hynny gael ei rhannu. Bydd gallu dangos yr ymrwymiad hwn i'r gadwyn gyflenwi leol a rhanbarthol yn fanwl yn hanfodol drwy gydol y prosiect. Bydd angen adnoddau pellach a defnyddio data contract er mwyn caniatáu i'r monitro parhaus fynd rhagddo, a bydd angen i Horizon, Menter Newydd a'u cadwyn gyflenwi gytuno i gynnig y ddarpariaeth hon.

3.9 Mae PAC3 yn cynrychioli cam cadarnhaol yn y gwaith o ddatblygu gweithgareddau sy'n helpu busnesau lleol a rhanbarthol i gael mynediad at gontractau'r gadwyn gyflenwi, fodd bynnag mae angen mwy. Mae'n rhaid i'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a siarter y gadwyn gyflenwi gynnwys rhagor o gynigion cadarn ac ymrwymiadau ariannol i'r amrywiaeth o fesurau sydd wedi cael eu hamlinellu yn ein hymateb blaenorol i PAC2 (e.e. cymorth i helpu i ddatblygu a chynnal deallusrwydd a gwybodaeth gefndirol ynghylch busnesau, cymorth parhaus ar gyfer adnoddau staff i gefnogi datblygiad busnesau, cyfraniadau at y ganolfan menter cynyddu cyfalaf, darpariaethau ac adnoddau staff er mwyn cofnodi a monitro'n effeithiol yn erbyn targedau ar gyfer cynnwys lleol) ochr yn ochr â'r gweithgareddau cam cynnar a gyflwynwyd yn nogfen ymgynghori PAC3.

3.10 Mae sicrhau manteision lleol i drigolion a'r gweithlu presennol yn hynod bwysig i randdeiliaid, fel sy'n cael ei gydnabod yn yr ymateb i PAC3 (A8.1). Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn cyfleusterau a chyrsiau hyfforddi ochr yn ochr â mesurau i sicrhau bod y swyddi sy'n cael eu creu yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu yn cael eu llenwi gan y gweithlu lleol, a bod contractau'r gadwyn gyflenwi ar gael i fusnesau lleol (A 8.1, A8.3, A8.6).

3.11 Er ein bod yn croesawu'r manylion ychwanegol a'r ymrwymiad a gafwyd yng nghyswllt rhai o'r meysydd hyn: cynlluniau, targedau, mesurau lliniaru a monitro, mae gwaith i'w wneud o hyd i ddatblygu elfennau o'r prosiect sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi er mwyn helpu busnesau lleol a'r economi ehangach i gael y budd economaidd mwyaf posibl. Rydym yn edrych ymlaen at barhau â thrafodaethau ynghylch y materion hyn.



DRAFT

**<u>Crynodeb yr economi a'r gadwyn gyflenwi</u>**
**Rydym yn cefnogi'r targedau ar gyfer gwariant lleol a rhanbarthol a chyfraniad busnesau lleol, fodd bynnag mae angen rhagor o fanylion am sut bydd y rhain yn cael eu darparu. Mae'n rhaid cytuno ar gynlluniau a strategaethau manwl a mesuradwy i fonitro a darparu'r rhain yn y tymor byr a chyn cael y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.**

DRAFFT

## 4.0 LLETY GWEITHWYR ADEILADU

4.1 Mae'r adran hon yn cynnwys ymateb Partneriaeth Tai Ynys Môn Housing Partnership (y Bartneriaeth) i PAC3.

4.2 Mae adran 5.1 o’r Brif Ddogfen Ymgynghori yn cyflwyno'r newidiadau a wnaed gan Horizon yn ei ymgais i roi llety i weithwyr adeiladu. Y newid mwyaf sylweddol ers PAC3 yw'r bwriad o ddarparu llety i hyd at 4,000 o weithwyr ar y prif safle mewn campws pwrpasol, dros dro. Mae’r Cyngor yn mynnu bod Horizon yn darparu rhagor o wybodaeth i gyfiawnhau ei benderfyniad i leoli nifer y gweithwyr a nodwyd ar y safle, ynghyd â thystiolaeth o ystyried yr opsiynau gwahanol a rhagor o fanylion o lawer am y newidiadau i'r effeithiau a geir o ganlyniad i hyn, ac yn egluro mewn rhagor o fanylder pam mae’r dull diwygiedig yn well na’r un yn PAC2. Mae’n rhaid i Horizon allu cyfiawnhau’r cynnig newydd yn erbyn Polisi’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd PS9A a Chanllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd GP10.

### Cefndir y dull o roi llety i weithwyr adeiladu

4.3 Mae tabl 5.2 yn sefydlu safle Horizon o ran y galw am lety a’r cyflenwad ar draws gwahanol sectorau tai.

4.4 Dylai bod dogfennau PAC3 wedi darparu gwybodaeth ynghylch sut cafodd y galw a'r cyflenwad eu cyfrifo ar gyfer pob math o lety. Nid yw’r dogfennau PAC3 eu hunain yn darparu unrhyw gyfiawnhad nac eglurhad o le cafwyd y ffigurau galw a chyflenwad, ac felly nid oes cyfle i ymgyngoreion ddeall y methodolegau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau ac i ymateb yn ystyrlon. Mae hyn yn cyfyngu’n sylweddol ar allu'r ymgyngoreion hynny sydd heb fod yn rhan o ymgynghoriad anstatudol yn y maes pwnc hwn i roi eu barn ar ba mor briodol yw'r niferoedd a nodir. Mae hyn yn broblem arbennig yng nghyswllt eiddo perchen-feddianwyr lle nad yw nifer y gwelyau ar ei phen ei hun yn fesur priodol, gan fod rhai mathau o weithwyr yn debygol o fod eisiau prynu tai â mwy nag un gwely ynddynt – gwelyau na fydd yn cael eu defnyddio i letya gweithwyr.

4.5 **Nid yw’r Cyngor yn cytuno** â’r ffigurau capasiti a nodwyd yn y tabl, sy’n awgrymu bod capasiti ‘dros ben’ sylweddol yn y sectorau[9] hyn. Mewn gwirionedd mae’r sector rhentu preifat eisoes o dan straen sylweddol, a hynny heb ystyried y galw ychwanegol gan weithwyr adeiladu.

4.6 Mae’r Cyngor o'r farn fod nodweddion y sector rhentu preifat yn wahanol i'r darlun cenedlaethol lle mae landlordiaid yn fwy tebygol o osod eiddo dros gyfnod hir, sydd o ganlyniad yn lleihau'r trosiant a’r capasiti o ran eiddo gwag yn dod yn rhydd i weithwyr ei rentu.

4.7 Mae’r Cyngor yn ymwybodol o brofiadau prosiectau buddsoddi mawr eraill sy’n dangos ei bod yn well gan weithwyr rannu llety rhent gydag uchafswm o ddau, nid tri o bobl fel yr oedd Horizon wedi'i ragdybio. Byddai hyn yn cynyddu'r galw ar y Sector Rhentu Preifat sydd wedi'i nodi yn PAC3 ar hyn o bryd yn sylweddol, ac yn cynyddu'r effeithiau i fod yn fwy na'r hyn a ddangosir gan y ffigurau presennol. Dylid ystyried hyn er mwyn sicrhau bod asesiad 'gwaethaf posibl' yn cael ei gyflwyno.

4.8 Mae effeithiau’r Ad-Drefnu Nawdd Cymdeithasol bellach yn amlwg ac mae’r Cyngor a’r Bartneriaeth yn credu y bydd effaith gweithwyr Wylfa ar y farchnad dai yn

[9] Nid yw'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn cefnogi casgliadau Horizon. Bydd diweddariad ar yr asesiad hwnnw yn cael ei gyhoeddi fis Gorffennaf 2017.

gwaethygu'r sefyllfa. Bydd effaith y galw uwch yn golygu dadleoli, a fydd yn arwain at wneud y bobl fwyaf agored i niwed yn ddigartref. Mae’r Cyngor a Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith annibynnol yn y maes hwn ac mae ganddynt ddata sy’n nodi’r cartrefi mwyaf agored i niwed y bydd hyn yn effeithio arnynt, gan fod llawer yn byw yn y sector rhentu preifat. Ni all CSYM rannu’r data hwn â Horizon yn ei ffurf bresennol oherwydd materion Diogelu Data.

4.9 Er mwyn i'r Cyngor allu derbyn y ffigur ar gyfer y galw ar y Sector Rhentu Preifat yn y tabl yn PAC3, bydd angen rhoi nifer o fesurau lliniaru ar waith cyn i’r gwaith adeiladu ddechrau, a pharhau i liniaru a monitro gydol eu harhosiad. Heb fesurau lliniaru, byddai effaith dadleoli a chynnydd mewn tai sydd ddim yn fforddiadwy yn annerbyniol, a byddai'n rhaid i'r Cyngor wrthwynebu'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr.

4.10 Nid yw'r Cyngor yn cytuno bod lefel y galw am dai perchen-feddianwyr yn adlewyrchu’n gywir allu cadarn y farchnad i ddelio â'r galw ychwanegol. Mae'r ffigur yn awgrymu bod digon o welyau yn y sector i ddarparu llety i’r gweithwyr adeiladu. Mae gwybodaeth y Cyngor yn awgrymu bod prisiau tai cymedrig cyffredinol yn cynyddu o 21.7% rhwng y trydydd chwarter yn 2011 a'r trydydd chwarter yn 2015, o'i gymharu â chynnydd o 9.2% ar draws Cymru dros y cyfnod cyfatebol a bod prisiau tai ar gyfartaledd yn sylweddol uwch (14% ) na Chymru gyfan[10]. Mewn gwirionedd, bydd gweithwyr yn symud i mewn i’r sector perchen-feddianwyr yn arwain at gynnydd mewn prisiau tai a gwaethygu’r problemau fforddiadwyedd sy'n bodoli eisoes. Er mwyn cwrdd â'r cynnydd disgwyliedig yn y galw, bydd angen rhoi nifer o fesurau lliniaru ar waith cyn i’r gweithwyr adeiladu gyrraedd, a pharhau i liniaru gydol eu harhosiad. Bydd angen rhoi mesurau ar waith i annog cyfraddau’r adeilad newydd yn unol â thrywydd tai a fframwaith gofodol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn sicrhau bod y capasiti angenrheidiol yn cael ei ddarparu. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi ystyried effaith datblygiad Wylfa Newydd wrth bennu niferoedd tai, ond nid yw'r ddarpariaeth wedi cyrraedd y cyfraddau disgwyliedig yn y gorffennol. Dim ond os llwyddir i lynu wrth drywydd tai’r Cynllun y bydd y capasiti arfaethedig hwn ar gael. Mae angen cysylltiad rhwng gwaith blynyddol y Cyngor o fonitro’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a strategaeth y cytunir arni â Horizon er mwyn rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith (drwy ymyrryd o bosibl) os bydd lefel y ddarpariaeth yn is na’r trywydd tai disgwyliedig.

4.11 Mae’r Cyngor yn cytuno â’r ffigurau galw a chyflenwad ar gyfer llety Cudd. I gwrdd â'r galw uwch sy'n cael ei greu gan y prosiect, bydd angen i Horizon gefnogi mesurau i annog gwneud cyflenwad ar gael. Bydd angen gwybodaeth ar CSYM hefyd ynghylch sut byddai’r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr yn sicrhau bod defnyddio llety cudd yn cynnwys ystyriaethau diogelwch. Yn syml – mae hyn yn sicrhau’r broses o wirio a rheoli er mwyn gwneud yn siŵr bod unrhyw weithwyr sy’n aros mewn llety cudd, lle mae plant neu oedolion agored i niwed, wedi cael eu hasesu ac yn addas ar gyfer y cyd-destun byw penodol hwnnw.

4.12 Mae’r Cyngor yn cynghori bod y ffigurau cyflenwi ar gyfer twristiaeth a charafanau yn gorliwio’n helaeth lefel wirioneddol y cyflenwad realistig, ac felly nid ydynt yn cael eu derbyn[11]. Nid oes eglurhad o’r methodolegau y tu ôl i'r ffigurau a ddyfynnir yn PAC3. Felly ni fydd ymgyngoreion sydd heb fod yn rhan o ymgynghoriad anstatudol â Horizon yn gallu gwneud sylwadau ystyrlon ar y ffigurau hyn. Mae gwybodaeth sydd ar gael i’r Cyngor yn awgrymu nad oes modd cyflenwi’r 650 o welyau y mae galw

[10] Diweddariad ar yr Asesiad o'r Farchnad Dai lleol mis Mai 2016 (CSYM)

[11] Yn seiliedig ar wybodaeth a gedwir gan y Cyngor ynghylch caniatâd cynllunio, trwyddedau safle a dosbarthiad gofodol y safleoedd carafanau.

DRAFT

amdanynt mewn carafanau ar sail y cyflenwad presennol heb newid trwyddedau a chaniatâd cynllunio, gan fod llawer o'r safleoedd carafanau wedi'u cyfyngu o ran eu gallu i roi llety i bobl nad ydynt yn dwristiaid, neu nid oes modd iddynt weithredu 12 mis o'r flwyddyn. Ar ben hynny, mae'r Cyngor wedi nodi pryderon (gan gynnwys pryderon iechyd) bod rhywfaint o lety carafán yn cynnig ansawdd llety sydd ddim yn addas i fyw ynddo yn ystod y gaeaf.

4.13 Fel y nodwyd uchod, bydd angen caniatâd cynllunio i ddefnyddio llety gwyliau sy'n bodoli eisoes yn y tymor hir – bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer llety hunanarlwyo parhaol a llety dros dro (carafanau a chalets). Nid yw'r math hwn o ddatblygiad yn cael ei gefnogi gan y cynllun datblygu presennol na'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd oni bai fod modd dangos ei fod yn cydymffurfio â Pholisi PS11 yn yr ail Gynllun o'r rhain, ac yn achos y carafanau, y chalets neu lety gwyliau dros dro arall sy'n bodoli eisoes, ei fod yn cydymffurfio â Pholisi TAI 8.

4.14 Nid yw PAC3 yn sôn am leoliad y llety o gwbl – hynny yw, lleoliad y cyflenwad sydd ar gael a lle bydd y galw mwyaf. Mae diffyg gwybodaeth yn atal ymgyngoreion rhag gwneud sylwadau ystyrlon. Nid oes modd asesu effeithiau'r cynigion llety yn llawn nac yn ystyrlon heb y wybodaeth hon, oherwydd bydd y dosbarthiad gofodol yn effeithio nid yn unig ar effeithiau'r llety ond hefyd ar gydlyniant cymunedol, cyfleusterau cymunedol a hamdden, gwasanaethau meddygol a gofal cymdeithasol a'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. O ganlyniad, mae'n annerbyniol fod y manylion hyn wedi cael eu hepgor cyn hwyred yn yr ymgynghoriad.

**Cyfiawnhad dros y campws arfaethedig ar y safle**

4.15 Mewn egwyddor, mae datblygu rhywfaint o lety ar gampws ar y safle ar gyfer gweithwyr allweddol neu hanfodol yn cael ei gefnogi gan bolisi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd os yw wedi'i leoli yn ardal datblygu Wylfa Newydd, gan gymryd bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â Pholisi PS 9, Polisi PS 9A ac ystod o Bolisïau sy'n ystyried yr effaith ar ardaloedd o werth lleol, cenedlaethol a rhyngwladol o ran tirwedd (e.e. golygfeydd y tu mewn a'r tu allan i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol), bioamrywiaeth (e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) (Polisi PS 16) a threftadaeth (Polisi PS 17) yn ogystal ag effeithiau, er enghraifft, ar lif traffig rhydd a diogel, e.e. i ymuno â'r A5025 ac ar ei hyd (Polisi TRA 1).

4.16 Fodd bynnag, bydd angen llawer mwy o wybodaeth ar y Cyngor gan Horizon ynghylch yr effeithiau posibl er mwyn iddo ystyried cydymffurfio â pholisi'r cynllun datblygu gyda'r niferoedd sylweddol uwch sy'n cael eu cynnig bellach. Hefyd, bydd angen gwybodaeth bellach i gyfiawnhau bod angen llety ar 4,000 o weithwyr. Mae angen deall mewn rhagor o fanylder beth yw'r broses o edrych ar opsiynau a arweiniodd at bennu mai 4,000 oedd y nifer briodol a pha asesiadau effaith sydd wedi cael eu cynnal. Heb ddrafft o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol / Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, nid os modd i CSYM roi sylw ar yr effaith bosibl o gael 4,000 o weithwyr (a dros 1,000 mewn llety sy'n bodoli eisoes) yng ngogledd Ynys Môn. Bydd y Cyngor yn disgwyl gweld tystiolaeth o'r ystod o ffigurau, rhwng y 500 yn PAC2 a'r ffigur yn PAC3, sydd wedi cael eu hystyried ynghyd ag asesiad amgylcheddol o bob opsiwn.

4.17 Dylai'r Datganiad Amgylcheddol gynnwys disgrifiad llawn o'r gwahanol opsiynau a ystyriwyd ac yn enwedig perfformiad amgylcheddol yr opsiynau gwahanol a gynigiwyd yn PAC2 yn erbyn y rhai a gynigiwyd yn PAC3. Dylai asesiad o'r fath fod yn llawer mwy manwl na'r asesiad bras a gyflwynwyd yn PAC3. Wrth ystyried opsiynau gwahanol, dylid ystyried caniatâd presennol ar gyfer llety gweithwyr yn

rhywle arall cyn cynnig llety modiwlaidd mewn adeiladau dros dro yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

4.18 Mae Horizon yn cynnig cyflwyno'r campws ar y safle cam wrth gam, ac mae angen i'r Cyngor ddeall a chytuno ar y pwyntiau sbardun ar gyfer cyflwyno'r camau, a sicrhau bod mesurau lliniaru addas yn eu lle ar gyfer pob cam ac ar gyfer y gwaith adfer.

4.19 Mae Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol y Brif Ddogfen Ymgynghori yn cyflwyno asesiad Horizon o'r effeithiau amgylcheddol sy'n codi o'r newidiadau a wnaed yn PAC3. Mae Tablau 5-6 a 5-7 yn canolbwyntio ar effeithiau adeiladu a gweithredu sy'n codi'n bennaf o'r campws ar y safle. Nid yw datgomisiynu nac adfer wedi cael eu hystyried yn y cyswllt hwn. Mae'r Cyngor yn disgwyl i effeithiau datgomisiynu gael eu nodi, a bydd angen gwybodaeth ynghylch amserlen y datgomisiynu, y cyflwyno cam wrth gam (os caiff ei gynnig) a'r dulliau adfer. Efallai y bydd angen mesurau diogelwch ar gyfer y gwaith adfer hefyd.

4.20 Hefyd, dylai'r asesiad ystyried yr effeithiau sy'n codi o'r cynnig i newid nifer y gweithwyr o'r ffigur a gyflwynwyd yn PAC2 i'r un yn PAC3 (o 10,700 i 9,000). Er bod y tablau asesu yn rhoi cynnig ar asesu materion fel diddymu safleoedd Rhosgoch ac Amlwch, nid ydynt yn ystyried yr effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach o ganlyniad i leihau nifer y gweithwyr a'r crynodiad o Lety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro yng ngogledd Ynys Môn.

4.21 Nid yw'r asesiadau a gyflwynir yn PAC3 yn darparu digon o wybodaeth i alluogi ymgyngoreion i ymateb yn briodol i ganlyniadau'r effaith. Nid oes digon o wybodaeth waelodlin ynghylch cyflwr y safle yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol, na manylion am y campws arfaethedig, i alluogi'r Cyngor i gytuno neu anghytuno â'r canfyddiadau arwyddocaol a gofnodwyd yn y tablau. Er enghraifft, cyfeirir at y newidiadau hydrolegol posibl a fyddai'n arwain at effeithiau gweddilliol niweidiol ac arwyddocaol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Tre'r Gof, a allai arwain at golled a dirywiad yn y tymor hir. Fodd bynnag, does dim manylion wedi'u darparu ynghylch y drefn draenio arfaethedig, llif y dŵr wyneb a thir presennol i'r derbynnydd a sut gallai'r rhain gael eu tanseilio, neu'r mesurau digolledu er mwyn darparu cynefin i gydbwyso hyn pe bai'n cael ei golli. Dylai Horizon ei gwneud yn glir p'un ai a yw'r posibilrwydd o golli'r cynefin wedi cynyddu neu beidio o ganlyniad i newidiadau PAC3. Os yw'r tebygolrwydd o golled bosibl yn fwy o ganlyniad i'r cynnig i ddarparu llety i 4,000 o weithwyr yn y campws ar y safle, mae'n ategu gofyniad y Cyngor, sef bod angen asesiad manwl o'r ddau safle gwahanol a'r niferoedd gwahanol o weithwyr a fydd yn byw ar y safle.

**Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr**

4.22 Mae Polisi PS9 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn mynnu bod gofynion gweithwyr adeiladu o ran llety yn cael eu bodloni mewn ffordd sy'n cael yr effaith leiaf bosibl ar y farchnad dai, ac nad yw hyn yn arwain at effeithiau niweidiol annerbyniol o ran yr economi, y gymdeithas, yr iaith neu'r amgylchedd. Mae llwyddiant / effeithiolrwydd y Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr fel adnodd i reoli effeithiau llety gweithwyr yn dibynnu ar p'un ai a fydd gofyn i weithwyr adeiladu ei ddefnyddio neu beidio. Byddai'n llai gwerthfawr pe bai'n ddewisol yn hytrach na gorfodol.

4.23 Mae'r Cyngor yn croesawu'r ymrwymiad i'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr, fodd bynnag dylai ei gylch gwaith a'i gynllun monitro gael eu hymestyn i fonitro digartrefedd, prisiau tai a lefelau rhent ar Ynys Môn, yn ogystal â Phrif Ardal yr Astudiaeth Economaidd-gymdeithasol ehangach. Drwy hyn, gall Horizon a'r Cyngor ddeall y pwysau yn y farchnad a'r galw am liniaru ychwanegol pe bai prisiau yn codi

a'r effeithiau yn fwy na'r hyn a ragwelir yn y Datganiad Amgylcheddol. Bydd angen nodi beth fydd y sbardun ar gyfer gwahanol leoliadau a sectorau llety, a chytuno ymlaen llaw ar y mesurau lliniaru mewn achosion pe bai'r rhain yn cael eu sbarduno.

4.24 Mae CSYM eisoes wedi rhoi sylwadau ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr (ar 15 Mai 2017), a dylid darllen yr ymateb hwn ar y cyd â'r ymateb hwnnw.

**Cynllun Rheoli Campws y Safle**

4.25 Mae'r Cyngor yn croesawu'r bwriad o ddarparu cyfleusterau seilwaith cymunedol ar y safle. Nodir efallai na fydd y cyfleusterau hyn yn diwallu anghenion pob gweithiwr adeiladu, er enghraifft cyfeirir at anghenion gweithwyr a fydd efallai'n dewis peidio a dychwelyd adref yn ystod y penwythnos. Bydd angen cynnal trafodaethau parhaus â'r Cyngor er mwyn sicrhau bod modd i unrhyw gyfleuster oddi ar y safle ymdopi â'r galw neu'r effaith ychwanegol a nodir ym Mholisi PS 9 a Pholisi PS 2.

4.26 Gan ddefnyddio safonau FiT i ddarparu lle agored digonol ar gyfer 4,000 o weithwyr ar y safle, dylid darparu o leiaf 6.4ha o gyfleusterau chwaraeon y tu allan ar y safle. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cynyddu'r cwantwm hwn os bydd gweithwyr yn defnyddio'r cyfleusterau dim ots lle maent yn byw, fel y cyfeirir ato yn Nhabl 5.4 yn y Brif Ddogfen Ymgynghori.

4.27 Mae angen llawer mwy o fanylion ynghylch cwmpas, dyluniad, cynllun ac ati'r adeilad amwynder er mwyn i CSYM allu asesu a fydd yn diwallu anghenion y gweithlu heb gael effaith niweidiol ar gyfleusterau a gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Bydd angen i'r 3,000 o weithwyr sy'n byw mewn llety presennol, er enghraifft, ddefnyddio cyfleusterau a gwasanaethau lleol ac, fel y dangosir gan boblogaeth yr ardal, gallai hyn arwain at effeithiau sylweddol ar y rhain. Mae'n gwbl annerbyniol nodi y bydd 'cronfa gymunedol fach' yn cael ei darparu i liniaru'r effeithiau hyn. Bydd angen cynnal asesiad manwl o'r effaith a darparu mesurau lliniaru priodol.

4.28 Mae diffyg y manylion am y ddarpariaeth iechyd a llesiant ar y campws arfaethedig, a'r effaith bosibl y gallai gweithwyr ei chael ar ganolfannau hamdden lleol, yn annerbyniol. Nid yw'n glir a fydd y cyfleusterau ar y safle yn neuadd chwaraeon neu'n ystafell ffitrwydd, gan mai 'campfa' yw'r diffiniad ar hyn o bryd. Nid yw'r lle a ddyrennir ar gyfer y gampfa wedi cael ei ddiffinio chwaith. Gallai hynny gael effaith ar y canolfannau hamdden lleol os na fydd y lle hwn yn ddigon mawr ar gyfer nifer y defnyddwyr. Nid oes manylion am ddarpariaeth nofio ac anghenion y defnyddwyr yn hynny o beth, a fydd yn sicr yn cael effaith ar byllau nofio lleol. Mae'r ardal chwaraeon aml-bwrpas awyr agored wedi cael ei nodi, ond nid oes manylion am y math o lawr, e.e. 3G / tarmac. Eto, gallai hyn gael effaith ar y ddarpariaeth leol mewn canolfan hamdden gan y byddai gweithwyr yn teithio er mwyn chwarae ar gyfleusterau gwell. Mae angen darparu'r manylion hyn er mwyn gallu asesu'r effaith ar gyfleusterau lleol.

**Strategaeth Llety**

4.29 Mae'r strategaeth yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gyfyngedig yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir ym Mhennod 5. Yn ogystal â'r sylwadau a ddarparwyd mewn perthynas â'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr sydd eisoes wedi'u gwneud, byddai'n rhaid i'r Cyngor gytuno ar amserlen gyda Horizon ar gyfer sefydlu'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr, a ddylai fod wedi'i sefydlu ac ar waith cyn dechrau gwaith adeiladu prosiect Wylfa Newydd.

DRAFT

4.30 Mae'r Cyngor a'r Bartneriaeth yn croesawu'r ymrwymiad i ddarparu cronfa dai. Bydd angen i'r gronfa fod ar waith cyn dechrau adeiladu er mwyn cefnogi'r llety newydd a ddarperir, gan gynnwys cartrefi cymdeithasol a fforddiadwy i'w rhentu, cyn bod y gweithwyr adeiladu yn cyrraedd yr ynys. Bydd angen cytuno ar fanylion yr amserlen â'r Cyngor, a ddylai gynnwys y gwaith o gyflwyno llety newydd cam wrth gam cyn a thrwy gydol y cam adeiladu.

4.31 Yn ogystal â'r mesurau a nodir yn y ddogfen, mesurau lliniaru ar ffurf cyllid gan Horizon i ddarparu grantiau gwella sydd ar gael i landlordiaid, a chymorth i landlordiaid gofrestru â Rhentu Doeth Cymru. Bydd hefyd angen cyllid i helpu i roi cartrefi gwag ac adeiladau gwag eraill yn ôl ar y farchnad dai, ac annog cyflenwad llety cudd mewn cymunedau sy'n bodoli eisoes, a hynny er mwyn galluogi darparu'r capasiti yr hoffai Horizon ei ddefnyddio. Dylid darparu cyllid i ddiwallu'r cynnydd yn y galw am Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, Swyddogion Opsiynau Tai a Swyddogion Cartrefi Gwag.

**Cludo'r Gweithwyr**

4.32 Mae gan y Cyngor bryderon difrifol mewn perthynas â'r Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol ym Mhennod 6: Cludo Nwyddau a'r Gweithlu Adeiladu. Mae'r ddogfen yn nodi nifer o newidiadau i gwmpas yr asesiad o ganlyniad i'r broses optimeiddio yn dilyn PAC2, gan gynnwys newidiadau i swm y nwyddau fydd yn cael eu cludo ar hyd y ffyrdd a faint o wastraff adeiladu fydd yn cael ei gynhyrchu, ond eto nid yw'r un o'r newidiadau hyn yn cael eu hystyried yn Nhabl 6.4 yn y Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol. Yn ogystal â hynny, mae Tabl 6.4 yn nodi'n anghywir bod ffynonellau effeithiau amgylcheddol yn dderbynyddion (nid yw traffig ar y ffyrdd oherwydd llety gweithwyr dros dro yn dderbynnydd amgylcheddol). Mae'r gwallau hyn yn dirymu'r Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol. Mae camddealltwriaeth tebyg yn nhablau 6.6, 6.7 a 6.9, 6.10.

4.33 Nid yw'r Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol yn ystyried yr effeithiau sy'n deillio o ddatgomisiynu campws y prif safle, ac mae'r Cyngor yn rhagweld y gallent fod yn llawer mwy na'r rheini a ragwelwyd ar gyfer y campws 500 gwely yn PAC2. Dylai bod yr effaith ar yr amgylchedd o ganlyniad i'r traffig angenrheidiol i ddatgomisiynu'r campws fod wedi'i nodi.

4.34 Ategir y camddealltwriaeth yn Nhabl 6.4 gan y sylwadau sy'n nodi bod y cynnydd mewn cerbydau yn cydymffurfio â chapasiti dyluniad y ffyrdd. Mae'r canlyniad hwn eto'n dangos diffyg dealltwriaeth o broses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Dylid yn hytrach ystyried effeithiau'r cynnydd mewn traffig ar y ffyrdd ar dderbynyddion amgylcheddol o ganlyniad i, er enghraifft, sŵn, dirgrynu, nodweddion gweledol, torri cysylltiad, oedi i yrwyr a cherddwyr, ofn a bygythiad, ac ati, oni bai fod modd eu dileu. Nid yw gallu, neu anallu'r ffordd i ddelio â cherbydau yn ystyriaeth amgylcheddol yn ei hun, ond yn hytrach yr effeithiau amgylcheddol a fyddai'n deillio o ddefnyddio mwy arni y dylid eu hystyried.

**Crynodeb llety gweithwyr adeiladu**

**Nid yw'r Cyngor yn cytuno bod y wybodaeth waelodlin am argaeledd llety yn gywir, gan fod hynny'n gwrth-ddweud ei dystiolaeth ei hun. Mae angen i Horizon fynd ati yn y tymor byr i sefydlu gwaelodlin y cytunir arni. Ar ben hynny, mae rhai o'r tybiaethau y mae niferoedd Horizon yn seiliedig arnynt yn cael eu gwrthod, sy'n golygu bod y Cyngor yn ystyried y niferoedd a ddarperir yn ddiffygiol, ac nid yw'n derbyn na ellir defnyddio'r rhain i asesu effeithiau. Nid yw Horizon wedi darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer opsiynau gwahanol o ran y ddarpariaeth ar y safle, nac wedi eu hystyried yn briodol. Nid yw'n dderbyniol gwneud y campws hwn wyth gwaith yn fwy heb**

**ddarparu'r sylfaen dystiolaeth i alluogi asesiad o hynny. Mae'r manylion ar gyfer cynnal asesiad o’r effaith ar y gymuned a chaniatáu trafodaeth ystyrlon o'r effeithiau a'r mesurau lliniaru yn gwbl ddiffygiol, ac mae'n annerbyniol bod manylion am faterion fel trafnidiaeth gweithwyr, rheoli gweithwyr a darparu cyfleusterau hamdden wedi'u hepgor yn llwyr yn y cam hwn.**

DRAFFT

## 5.0 PRIFFYRDD A THRAFNIDIAETH

5.1 Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi crynodeb o faterion allweddol ynghylch 'Priffyrdd a Thrafnidiaeth' a bennwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ar ôl adolygu PAC3. Er mwyn osgoi ailadrodd diangen, cyfeirir at ymateb ffurfiol CSYM i ymgynghoriad PAC2 os bydd materion allweddol yn codi eto.

**Model Disgyrchiant Horizon**

5.2 Mae CSYM yn credu bod angen dilysiad annibynnol o Fodel Disgyrchiant Dosbarthu Gweithwyr Adeiladu HORIZON yn dilyn yr adolygiad o'r Nodyn Technegol: Model Disgyrchiant Teithio Gweithwyr Lleol a Gweithwyr Nad Ydynt yn Lleol (rhif dogfen 60PO8007/SOC/TM/002).

5.3 Mae'r model disgyrchiant yn amcangyfrif dosbarthiad daearyddol gweithwyr sydd naill ai'n teithio o'u cartrefi (Gweithwyr Lleol) neu'r rhai sydd wedi'u lleoli mewn llety dros dro (Gweithwyr Nad Ydynt yn Lleol). Seilir allbynnau'r model disgyrchiant ar gyfres o nodweddion mewnbwn sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â niferoedd gweithwyr, cyfran y mathau o swyddi/sgiliau a chyfran y mathau o lety.

5.4 Yn debyg i lawer o feysydd gwaith mewn modelu effeithiau datblygiadau/ prosiectau, ceir tri cham sy'n arwain rhywun i ddatblygu a chyfiawnhau mesurau lliniaru, sef:
1. Tybiaethau
2. Mewnbynnu a dosbarthu tybiaethau mewn model
3. Allbynnau

5.5 Bydd y mesurau lliniaru mae CSYM yn eu ceisio'n seiliedig ar yr allbynnau, ond rhaid i sail yr allbynnau hynny fod yn gadarn, sy'n creu pryder ynghylch y tybiaethau a wneir gan HORIZON. Mae'r tybiaethau hyn yn effeithio ar bob ffrwd waith, gan gynnwys iaith / diwylliant, tai, traffig a thrafnidiaeth, addysg, gwasanaethau iechyd, twristiaeth ac ati.

5.6 Gall y tybiaethau allweddol (nid hollgynhwysfawr) y bydd angen eu dilysu i sicrhau manwl gywirdeb yr allbwn gynnwys y canlynol:-
- Lleoli 4000 o weithwyr yn y llety gweithwyr dros dro ar y safle
- Dosbarthiad y Gweithwyr yn ystod y Cyfnodau Prysuraf h.y. 2000 lleol a 3000 nad ydynt yn lleol
- Rhaniad Gweithwyr Lleol a Gweithwyr Nad Ydynt yn Lleol yn ôl Ardaloedd Ynys Môn
- Proffil gweithwyr lleol
- Dadansoddiad gweithlu yn ôl grwpiau galwedigaeth
- Cyfran pob grŵp galwedigaethol sy'n debygol o fod yn bobl leol
- Stoc llety ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn lleol
- Amcangyfrif gwelyau ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn lleol

5.7 Hefyd, yng nghyd-destun Traffig a Thrafnidiaeth, mae'r canlyniadau hyn yn cael dylanwad sylweddol ar y canlynol:
- Lleoliad strategol unrhyw gyfleusterau parcio a rhannu
- Adnabod llwybrau priffyrdd sy'n agored i ddirywiad
- Llwybrau arfaethedig gwasanaeth bws gwennol HORIZON
- Nodi llwybrau priffyrdd anaddas ar gyfer gwasanaeth bws arfaethedig
- Safleoedd codi gweithwyr adeiladu
- Darpariaeth barcio ger unrhyw safle codi
- Safleoedd tagfeydd posibl

5.8 Mae CSYM eisiau cadarnhad bod y model(au) disgyrchiant ar gyfer dosbarthu gweithwyr adeiladu wedi cael ei asesu a'i ddilysu'n annibynnol gan berson addas a medrus, er mwyn symud ymlaen i asesu effeithiau'r dosbarthiad gweithlu hwn ar y rhwydwaith o briffyrdd.

**Gwelliannau i Ffordd yr A5025 rhwng y Fali ac Ardal Datblygu Wylfa Newydd**

5.9 Fel y nodwyd eisoes yn yr ymateb i PAC2 (paragraff 8.1), mae CSYM yn croesawu'r gwelliannau a'r newidiadau arfaethedig i'r A5025 gan eu bod yn hollbwysig i Strategaeth Cludo Nwyddau Horizon. Fodd bynnag, mae CSYM eisiau tystiolaeth y bydd gan y gylchfan newydd arfaethedig yn y Fali a'r gylchfan/ffordd ymuno ar gyfer Cyffordd 3 yr A55 gapasiti digonol i ymdopi a lefel y traffig a fydd yn gadael Wylfa i gael mynediad at yr A55, yn enwedig gyda'r nos ar yr 11eg diwrnod o weithio cyfnod shifft.

5.10 Bydd y llif traffig yn effeithio ar Ysgol newydd Rhyd-y-Llan a'i disgyblion, felly mae'n rhaid ystyried yn ofalus sut byddai modd rheoleiddio traffig yn ystod oriau agor a chau'r ysgol.

5.11 Mae CSYM yn croesawu'r gwelliannau a fydd yn cael eu gwneud ar Ffordd Nanner fel rhan o waith paratoi Horizon. Fodd bynnag, bydd angen i Horizon ddangos bod pob gwelliant sydd angen ei wneud ar Ffordd Nanner yn addas i'r diben, fel sicrhau bod y gwaith ar gyffordd gysylltiedig yr A5025 wedi'i gwblhau cyn cau Ffordd Cemlyn.

**Trafnidiaeth Gynaliadwy**

5.12 Mae tystiolaeth o brosiect Hinkley Point C yn tynnu sylw at y problemau parcio sydd wedi codi yn y prosiect hwnnw sydd o faint tebyg. O ganlyniad i'r problemau hyn, mae EDF wedi gwneud cais i Gyngor Sir Gwlad yr Haf am gael rhagor o gyfleusterau parcio a theithio (roedd pedwar safle parcio a theithio yn y cais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, nawr mae EDF (drwy'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref) yn gwneud cais am eu 8fed safle parcio a theithio). Mae hyn yn dangos manteision ymarferol a masnachol sicrhau a darparu cyfleusterau parcio a theithio / rhannu digonol mewn lleoliadau strategol fel rhan o strategaeth gydlynol a chadarn sy'n rhoi sylw i'r effeithiau yn y sefyllfa waethaf mewn cam cynnar addas.

5.13 Mae CSYM yn ailadrodd ei siomedigaeth nad yw Horizon wedi cydnabod bod angen cyfleusterau parcio a rhannu ar yr Ynys (ac ar y tir mawr) i ategu'r safle parcio a theithio arfaethedig. Dangoswyd yr angen am gyfleusterau o'r fath gan CSYM yn ystod PAC2 (paragraff 8.10). Er gwaethaf safbwynt Horizon, mae CSYM wedi darparu rhestr o leoliadau parcio a rhannu y gallai Horizon eu defnyddio er mwyn gwneud eu strategaeth trafnidiaeth yn hyblyg a chadarn.

5.14 Mae CSYM yn bryderus iawn ynghylch y diffyg manylder o ran parcio a rhannu ceir. Mae Horizon wedi nodi bod angen 3 gweithiwr ym mhob cerbyd er mwyn cael parcio ar y safle. Er bod CSYM yn cefnogi egwyddor trafnidiaeth gynaliadwy, mae ganddo bryderon difrifol ynghylch gweithredu a gorfodi strategaeth Horizon, o ystyried y diffyg manylion yn PAC3 a'r wybodaeth fonitro bresennol o Hinkley Point C, sy'n dangos mai dim ond rhwng 3% a 4% o bobl sy'n rhannu ceir. Mae'n rhaid rhoi'r cysyniad o 3 gweithiwr i bob car ar waith drwy gydol y cam adeiladu er mwyn cynyddu trafnidiaeth gynaliadwy. Dylai Horizon ddangos sut bydd hyn yn cael ei gyflawni neu gynyddu nifer y cerbydau i adlewyrchu'r effaith debygol realistig.

DRAFT

5.15 Mae gan CSYM bryderon y bydd cynnydd yn y traffig heb ei reoli sy'n defnyddio ffyrdd Dosbarth II a III a ffyrdd annosbarthedig i gael mynediad at fannau parcio yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, yn enwedig ar sail cymudo dyddiol. Byddai adleoli'r holl fannau parcio arfaethedig yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd i'r cyfleusterau parcio a theithio yn cael gwared â'r risg hon. Fodd bynnag, byddai CSYM yn ystyried mesurau amgen i leihau'r risg, fel blaenoriaethu mannau parcio yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Er mwyn lleihau'r effeithiau ar y rhwydwaith priffyrdd a chymunedau lleol, mae strategaeth gadarn a mwy cydlynol yn cael ei chyflwyno, gan gynnwys, fel isafswm, bod y ddarpariaeth parcio a theithio'n parhau ar 2,700 o fannau, bod darpariaeth ar y safle yn cael ei chyfyngu i 1,000, bod is-safleoedd parcio a theithio / parcio a rhannu yn cael eu cyflwyno a bod rhaid i weithwyr sy'n byw yn y prif Lety Gweithwyr Dros Dro barcio yn Nhalar Hir drwy gydol eu harhosiad. Hefyd bydd angen i'r cyfleuster Parcio a Theithio fod yn weithredol (mewn blociau o 250-500 os oes angen) cyn dechrau adeiladu.

5.16 Bydd rhaid i Horizon ddangos sut bydd yn gweithredu mesurau lliniaru gorfodol ac adweithiol. Bydd hyn yn cynnwys mesurau i reoli a gorfodi symudiadau teithio gweithwyr adeiladu er mwyn atal traffig heb ei reoli rhag defnyddio ffyrdd anaddas (perthnasol i bob gweithiwr adeiladu).

**Gwelliannau i Ffordd yr A5025 rhwng Wylfa Newydd ac Amlwch (A5025 y Gogledd)**

5.17 Yn dilyn datganiad Horizon y bydd pecyn cyllid yn cael ei ddarparu i Gyngor Sir Ynys Môn i gyflwyno gwelliannau cyfyngedig i briffordd bresennol yr A5025 rhwng Wylfa Newydd ac Amlwch, mae CSYM yn awyddus i drafod a chytuno ar gynllun gwella diogelwch ar y ffyrdd ymarferol a chadarn.

5.18 Gyda Horizon yn amcangyfrif y bydd symudiadau teithio dyddiol gweithwyr ar hyd rhan ogleddol yr A5025 yn awr yn cynyddu o 7% hyd at 15%, mae hyn yn awgrymu cynnydd cymharol isel o'i gymharu â lefelau traffig presennol. Yn unol â chais blaenorol CSYM yn PAC2 (paragraff 8.18), dylai'r cynnydd yn llif y traffig gael ei ddangos fel cynnydd fesul awr yn yr holl draffig sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd, yn hytrach na Chyfartaledd Blynyddol Traffig Dyddiol cerbydau. Bydd hyn yn tynnu sylw at y cynnydd sylweddol mewn lefelau traffig a ddisgwylir ar ddechrau / diwedd shifftiau, i alluogi dewis mesurau lliniaru priodol.

**Adeiladu a Gweithredu safleoedd Datblygiadau Cysylltiedig (gan gynnwys llety dros dro i weithwyr)**

5.19 Mae CSYM wedi nodi'r effeithiau niweidiol posibl ar y rhwydwaith priffyrdd o ganlyniad i draffig adeiladu sy'n gysylltiedig â'r safleoedd Datblygiadau Cysylltiedig. Yn unol â chais blaenorol CSYM yn PAC2 (paragraff 8.24.1), dylai Horizon gyflwyno Cynlluniau Rheoli Traffig Adeiladu ar gyfer pob Datblygiad Cysylltiedig a gwelliannau i briffordd yr A5025.

5.20 Er mwyn lleihau'r effaith niweidiol bosibl hon ar y rhwydwaith priffyrdd, dylai Horizon adeiladu'r Ganolfan Logisteg a'r cyfleuster Parcio a Theithio cyn unrhyw Ddatblygiad Cysylltiedig arall. Byddai hyn yn caniatáu i symud cerbydau adeiladu gael ei reoli'n briodol er mwyn lleihau'r effeithiau ar y rhwydwaith priffyrdd.

5.21 Ni ddylai gwaith adeiladu'r Garej Offer Argyfwng Symudol/y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen a'r Labordy Arolygon Amgylcheddol ddechrau nes bydd newidiadau i'r A5025 oddi ar y ffordd bresennol wedi cael eu cwblhau. Byddai hyn yn lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro gyda'r ysgol newydd yn Llanfaethlu.



DRAFT

5.22 Mae CSYM yn dymuno taro ar gytundeb ffurfiol gyda Horizon, dan Adran 59 Deddf Priffyrdd 1980, i gynnal arolygon cyflwr priffyrdd ar lwybrau i Ardal Datblygu Wylfa Newydd a’r holl safleoedd Datblygiadau Cysylltiedig. Byddai CSYM yn awgrymu bod Horizon yn ymgymryd â gwaith priffyrdd er mwyn ystyried y dyfodol o ran y llwybrau hyn er mwyn lleihau'r risg o oedi gyda'i raglen adeiladu.

5.23 Mae CSYM yn argymell bod Horizon yn darparu cronfa ar gyfer y gwaith cynnal a chadw parhaus ar y priffyrdd a fydd yn ofynnol ar gyfer pob ffordd sy'n cysylltu safleoedd Datblygiadau Cysylltiedig â safle Wylfa Newydd, yn ogystal â gwella’r A5025 rhwng y Fali a Wylfa er mwyn rhoi sylw i’r difrod y bydd eu defnydd o rwydwaith y priffyrdd yn ei achosi.

**Defnyddio'r Cyfleuster Dadlwytho Morol a gwelliannau i briffordd yr A5025**

5.24 Mae CSYM yn croesawu'r bwriad o leihau symudiadau nwyddau ar y ffyrdd drwy wneud y defnydd gorau o'r Cyfleuster Dadlwytho Morol arfaethedig. Fodd bynnag, mae angen trafodaethau pellach i gytuno ar drothwyon cyfeintiol y traffig adeiladu y byddai'n dderbyniol ei yrru ar hyd yr A5025 yn ystod gwahanol gamau adeiladu Wylfa Newydd. Byddai camau o'r fath yn cynnwys cyn y newidiadau oddi ar y ffordd bresennol i’r A5025 a hefyd cyn i'r Cyfleuster Dadlwytho Morol fod yn weithredol neu pan na fydd ar gael. Mae CSYM yn pryderu y byddai unrhyw oedi o ran adeiladu a chyflawni'r Cyfleuster Dadlwytho Morol yn cael effaith sylweddol ar y rhwydwaith priffyrdd. Mae CSYM yn ceisio eglurder a sicrwydd gan Horizon y bydd y Cyfleuster Dadlwytho Morol yn weithredol erbyn 2021 mewn pryd ar gyfer y prif waith adeiladu, a pha fesurau lliniaru sy'n cael eu paratoi os bydd unrhyw oedi. Mae angen manylion pellach hefyd ar faint o ddeunydd adeiladu y disgwylir y bydd yn cael ei gludo i’r safle tra bydd y Cyfleuster Dadlwytho Morol yn cael ei adeiladu.

**<u>Crynodeb Priffyrdd a Thrafnidiaeth</u>**

**Fel y nodwyd mewn adrannau eraill, mae’r Cyngor yn ystyried bod y diffyg manylion a ddarparwyd am y thema hon yn annerbyniol. Nid yw’r Cyngor yn derbyn y Model Disgyrchiant a ddefnyddiwyd ac felly ni all gytuno i’r ffigurau sylfaen gyda Horizon ar hyn o bryd. Hefyd nid yw’r Cyngor yn derbyn bod rhai o dybiaethau Horizon, fel cyfraddau rhannu ceir, yn realistig nac yn briodol. Rhaid i Horizon sicrhau bod y modelu traffig yn ystyried sawl senario a’i fod yn gadarn a realistig. Nid yw'r Cyngor yn derbyn bod y modelu presennol yn cyrraedd y safon sy’n ofynnol. Gan nad oes modd cytuno ar y sylfaen a’r effeithiau, nid yw’n bosib bwrw ymlaen â thrafodaethau ystyrlon ar ffurfiau lliniaru manwl gywir, fel dylai fod ar y gweill yn y cam hwn.**

DRAFT

## 6.0 YR IAITH GYMRAEG A'I DIWYLLIANT

6.1 Yn ei ymateb i ymgynghoriadau blaenorol, mae CSYM yn datgan y disgwyliad bod yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu trin fel thema hollgynhwysfawr ac edau aur sy'n sail i ystyriaethau o effeithiau a lliniaru pob agwedd ar brosiect Wylfa Newydd. Rydym yn croesawu ailgadarnhad Horizon o'i ymrwymiad i'r dull hwn o weithredu, fodd bynnag, nid yw'r dull yn glir yn nogfennau PAC3. Gan hynny, mae CSYM yn tynnu sylw Horizon at y fethodoleg a fabwysiadwyd ganddo wrth baratoi'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol drafft fel rhan o PAC2. Roedd hyn yn cynnwys adran ym mhob pennod a oedd yn ystyried goblygiadau'r cynigion ar y Gymraeg. Dylai'r gwaith 'diogelu' penodol hwn o ran yr iaith a'r diwylliant Cymraeg gael ei gynnwys yn y cyflwyniad Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a'r dogfennau ategol. Mae'n dilyn felly bod yr Holiadur sy'n gofyn i ymgyngoreion raddio mathau o brosiectau yn nhrefn eu pwysigrwydd yn ddiffygiol iawn, gan fod yr Iaith a'r Diwylliant Cymraeg ar y rhestr o brosiectau.

6.2 Mae CSYM wedi bod yn aelod gweithgar o Grŵp Llywio Iaith Gymraeg Wylfa Newydd a sefydlwyd gan Horizon. Mae'r Grŵp wedi galw ar arbenigedd cynllunio a hwyluso ieithyddol arbenigol, a arweiniodd at gynhyrchu rhestr o Gamau Gweithredu a oedd yn sail ar gyfer Strategaeth ddrafft ar welliannau a chamau lliniaru o ran y Gymraeg a'i Diwylliant. Noda CSYM fod y brif Ddogfen Ymgynghori'n cyfeirio at y gwaith hwn, ac mae'n edrych ymlaen at weithio gyda Horizon a chyd-aelodau'r Grŵp i ddatblygu'r mesurau hyn a'u cyflawni.

6.3 Gan hynny, mae CSYM yn gwerthfawrogi'r cyhoeddiad ynghylch penodi Cydlynydd y Gymraeg a'i Diwylliant i gynorthwyo â datblygu ymhellach, gweithredu a monitro rhaglen gytunedig o fesurau. Byddai CSYM yn hapus i ddarparu unrhyw gefnogaeth neu gyfraniad fel y gall at y broses recriwtio ar gyfer y swydd bwysig hon a byddai'n gofyn am gyfle i adolygu a chyflwyno sylwadau ar y disgrifiad swydd cyn hysbysebu'r rôl. Dylai'r cydlynydd hwn adrodd yn ôl i'r Grŵp Llywio annibynnol yn rheolaidd.

6.4 Barn bendant CSYM yw y dylai'r Cydlynydd a benodir gael mynediad at arbenigedd cynllunio ieithyddol, a oedd yn allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r Camau Gweithredu a'r Strategaeth ddrafft, a chymorth wrth ddefnyddio Methodoleg Asesu Risg Llywodraeth Cymru.

6.5 Noda CSYM bod y tair thema allweddol ar gyfer y meysydd lliniaru a gwella eang yn Addewid Horizon o ran y Gymraeg yn ailadrodd y 3 maes blaenoriaeth yn Strategaeth Iaith Gymraeg CSYM a gyhoeddwyd gan Fforwm Strategol y Gymraeg. Mae'r Strategaeth hon yn seiliedig ar y Weledigaeth y dylai Cyfrifiad 2021 weld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu i o leiaf 60.1%, fel yr oedd yn 2001. Drwy gydweithrediad a chymryd camau ymarferol, mae hynny'n gyraeddadwy. Mae'r blaenoriaethau hyn yn sail i'r cynigion yn y Strategaeth Lliniaru a Gwella drafft, y bydd angen ailymweld â hwy yn sgil y newidiadau i'r prosiect a amlinellir yn PAC 3. Gan hynny, mae CSYM yn disgwyl i'r aliniad hwn gael ei atgyfnerthu yng nghynnwys y Strategaeth derfynol a'i gweithrediad.

6.6 Mae PAC 3 yn amlinellu newidiadau arfaethedig i brosiect Wylfa Newydd. Un o'r newidiadau allweddol yw'r Strategaeth Llety Gweithwyr. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer cymunedau cyfagos sy'n darparu lle i weithwyr mewn llety twristiaeth sy'n bodoli'n barod, y sector rhentu preifat a llety arall a'r defnydd o gyfleusterau a gwasanaethau, a'r rhyngweithio cyfun â gweithwyr a fydd yn cael lle ar y campws. Mae'r ddogfennaeth yn cyfeirio at Gynllun Rheoli Campws y Safle gan nodi mesurau i helpu i sicrhau nad oes effeithiau andwyol ar gymunedau lleol a'r iaith Gymraeg a'i

diwylliant. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw arwydd o raddfa debygol y rhyngweithio na chynigion manwl. Mae'r Cyngor angen golwg gyfannol a gofodol ar y manteision a'r effeithiau posibl a'r ffyrdd o'u lliniaru. Felly mae CSYM yn ystyried datganiad Horizon y bydd yn darparu cronfa ar raddfa fechan i liniaru effeithiau cymunedol penodol, gan gynnwys effeithiau cronnus, fel datganiad cwbl annigonol. Credir bod manylu ar y gronfa fel un fechan yn rhagdybio gormod ac y dylai maint y gronfa fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ofynnol yn dilyn asesiad priodol nad yw wedi cael ei gynnwys yn PAC3.

6.7 Mae CSYM yn gwerthfawrogi bod Horizon yn derbyn y bydd mewnlifiad o weithwyr adeiladu di-Gymraeg yn lleihau cyfran y siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, bydd effaith, a thrwy hynny'r camau lliniaru priodol ar gyfer y mewnfudo hwn, yn dibynnu ar nifer y gweithwyr yn mewnfudo, eu dibynyddion, eu lleoliad, y lleoedd sydd eu hangen mewn ysgolion, faint o ryngweithio fydd â'r cymunedau lle maent yn byw a hyd eu harhosiad.

6.8 O ran addysg a sgiliau, mae'r Cyngor wedi nodi mesurau lefel uchel yn y Strategaeth ddrafft ar Liniaru a Gwella sy'n defnyddio ei Gynllun Strategol ar Addysg Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys offeryn Asesu Sgiliau Cymraeg a thargedau cyrhaeddiad ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg, a gallu arbenigol, cyrsiau a chyfleusterau i gefnogi teuluoedd a'u plant sy'n adleoli i Ynys Môn. Hefyd, dylai sgiliau Cymraeg (dwyieithog) gael eu hasesu a'u cynnwys fel rhan o'r broses recriwtio ar gyfer prentisiaethau, er mwyn i Horizon drin y Gymraeg fel edau aur yn yr holl brosesau a chamau gweithredu, a datgan yr effeithiau posib a graddfa'r addysg sydd ei hangen, yn ogystal â helpu i adnabod preswylwyr sy'n dychwelyd gyda rhywfaint o allu presennol yn yr Iaith Gymraeg.

6.9 Yn ogystal â bod yn edau aur, mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn un o'r saith o Nodau Llesiant y mae angen eu hystyried ynghyd â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhroses gwneud penderfyniadau CSYM a chyrff rhestredig eraill sy'n rhanddeiliaid allweddol ym mhrosiect Wylfa Newydd. Mae Horizon yn gwneud rhywfaint i gydnabod y rhyng-berthynas rhwng y Nodau hyn yn ei ddatganiad sy'n cydnabod y cysylltiad rhwng economi gref, swyddi a llesiant y Gymraeg a diwylliant Cymru ar Ynys Môn. Ystyrir bod y cysylltiad hwn yn ddibynnol ar lefel y buddsoddiad mewn hyfforddiant sgiliau, cymunedau cynaliadwy ac ati sy'n cael eu trafod yn fanwl yn yr adrannau ategol perthnasol.

6.10 Mae llesiant y Gymraeg yn rhan annatod nid yn unig o ran swyddi (y Nod 'Cymru / Ynys Môn Ffyniannus') ond pob un o'r chwe Nod arall. Gan hynny, mae CSYM yn gofyn i Horizon ddilyn y dull a gymerir gyda'i Asesiad o Effaith ar Iechyd (sy'n cynnwys y Nod 'Cymru / Ynys Môn Iach'), h.y. o ran croesgyfeirio mesurau lliniaru mewn Asesiadau a Strategaethau eraill. Er enghraifft, mae llinyn pwysig o'r Strategaeth ddrafft ar Liniaru a Gwella'r Iaith Gymraeg yn ymwneud â mesurau addysg a sgiliau a fydd yn cael sylw manwl yn Adran Economaidd-Gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol yn y cyflwyniad Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Byddai CSYM hefyd yn awgrymu bod dull tebyg o weithredu i'r un a fabwysiadwyd gyda'r Iaith Gymraeg fel un cyfannol i bob elfen o'r prosiect yn cael ei fabwysiadu gydag Iechyd a Llesiant.

**<u>Crynodeb yr Iaith Gymraeg</u>**

**Unwaith eto mae Horizon wedi methu rhoi'r pwys mae'r Cyngor yn gofyn amdano i'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ac nid yw'n ei thrin fel thema hollgynhwysfawr er gwaetha'r ffaith ei fod wedi dweud y bydd yn gwneud hynny. Mae hwn yn fater allweddol i Ynys Môn ac mae'r Cyngor wedi dweud wrth Horizon ar bob cyfle y dylai**

**gael ei ystyried yn gyfannol ar draws pob agwedd ar y prosiect ac na ddylai Horizon geisio delio ag ef yn ynysig. Mae'r dull presennol o weithredu'n trin hyn fel un o feysydd effaith posibl amrywiol ac felly'n methu'n llwyr a chydnabod y neges glir ynghylch hyn, y mae wedi'i derbyn. Mae'r Cyngor eisiau gweld Horizon yn integreiddio'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant fel ystyriaeth sylfaenol a maes ar gyfer asesu effaith ar draws y prosiect cyfan, a bydd unrhyw ddull arall o weithredu'n ddiffygiol.**

DRAFFT

## 7.0 TWRISTIAETH

7.1 Mae CSYM yn croesawu cydnabyddiaeth Horizon o bwysigrwydd y sector twristiaeth i economi Ynys Môn. Mae’r camau lliniaru arfaethedig, gan gynnwys creu Cronfa Twristiaeth, yn elfen hanfodol er mwyn sicrhau nad yw’r effeithiau amrywiol ar y sector yn cael effaith andwyol ar yr economi ehangach. Croesewir y Gronfa Dwristiaeth arfaethedig. Dylai cwmpas y gweithgarwch y gellid defnyddio'r Gronfa Twristiaeth ar ei gyfer gael ei nodi’n gliriach a chynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i (er enghraifft):

- 7.1.1 Mesurau i fonitro ac adrodd ar y defnydd o lety twristiaeth i helpu i ddeall effeithiau, a datblygu a gweithredu mesurau lliniaru priodol wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen;
- 7.1.2 Mesurau i fonitro ac adrodd ar weithgarwch a gwariant ymwelwyr er mwyn deall yr effeithiau ar y sector twristiaeth yn llawn, a datblygu ymatebion lliniaru priodol gan gynnwys gweithgarwch hyrwyddo a marchnata;
- 7.1.3 Mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw ddirywiad mewn safonau llety a grëwyd gan ddefnyddio llety twristiaeth i gartrefu gweithwyr adeiladu;
- 7.1.4 Datblygu ymgyrch farchnata a hyrwyddo i fynd i'r afael â materion a phryderon yn ymwneud â chanfyddiadau negyddol ymwelwyr a’r effeithiau dilynol ar refeniw twristiaeth, cyflogaeth ac allbwn economaidd.
- 7.1.5 Buddsoddiad cyfalaf i wella seilwaith a chyfleusterau twristiaeth i sicrhau bod y cynnig i dwristiaid ar yr Ynys yn cael ei ddiogelu a'i wella lle bo hynny'n bosibl.

7.2 Byddai’r Gronfa hefyd angen trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau priodol i sicrhau penderfyniadau cadarn a gwrthrychol. Mae angen bwrw ymlaen â’r agwedd hon ochr yn ochr â'r trefniadau ar gyfer cronfeydd eraill a fwriadwyd fel camau lliniaru gan Horizon. Mae CSYM yn croesawu'r cyfle i barhau i drafod a chymryd rhan yn y gwaith o gynllunio, llywodraethu a chyflawni’r Gronfa. Yn benodol, mae angen penderfynu ar faterion, gan gynnwys maint posibl y Gronfa, ei strwythur cyfreithiol a rôl y partneriaid amrywiol, gan gynnwys y sector preifat, mewn penderfynu sut ac ar gyfer beth y defnyddir y Gronfa, a sut mae hynny’n berthnasol i’r effeithiau sydd wedi’u datgan ar gyfer y prosiect.

7.3 Mewn perthynas â llety twristiaeth, mae'n hanfodol bod gwaith monitro’n ffurfio rhan o'r lliniaru ehangach sy'n ymwneud â'r effeithiau ar dai yn ei ystyr ehangaf. Mae CSYM yn cefnogi'n gryf yr angen i Horizon ddarparu gwasanaeth rheoli llety i weithwyr adeiladu ac mae angen i hyn allu monitro a rheoli llety ar draws pob math a daliadaeth. Mae CSYM yn croesawu’r cynnig gan Horizon i gyllido'r gwasanaeth hwn. Bydd angen i'r gwasanaeth hwn fod yn weithredol cyn dechrau’r prif waith adeiladu, gan fod llety i dwristiaid yn debygol o gael ei dargedu’n gyntaf gan weithwyr adeiladu tra bydd tai i weithwyr dros dro’n cael eu hadeiladu.

7.4 Barn CSYM yw bod y cyfeiriad at "gapasiti dros ben sylweddol" yn y sector llety twristiaeth yn anghywir, yn seiliedig ar dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli a nifer o ffactorau sy'n cyfyngu ar y defnydd posibl o lety. Mae'r rhain yn cynnwys cyfansoddiad gwirioneddol a dosbarthiad gwelyau ochr yn ochr â ffactorau eraill, gan gynnwys trwyddedu, cyfyngiadau safleoedd, ymarferoldeb rhoi llety i ymwelwyr a gweithwyr adeiladu ar yr un safleoedd ac awydd perchnogion i osod eu heiddo i weithwyr adeiladu. Mae angen mwy o waith ar yr agweddau hyn er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen.

7.5 Y tu hwnt i'r capasiti gwirioneddol sydd ar gael yn y stoc twristiaeth, erys y mater o safonau llety yn dirywio yn effeithio ar weithredu’r sector twristiaeth a sut bydd hyn yn cael ei liniaru gan Horizon. Amlygwyd hyn yn PAC2 fel maes sy'n peri pryder, ac mae

DRAFT

hyn yn parhau i fod yn wir. Fel y nodwyd eisoes, gall Cronfeydd Tai a / neu Dwristiaeth ddarparu ffordd o liniaru'r effeithiau hyn.

7.6 Mae CSYM yn pryderu o hyd bod lefel y galw ychwanegol ar gyfer Wylfa Newydd yn debygol o achosi prinder gweithwyr a dadleoli mewn sectorau a busnesau sy'n bodoli'n barod, a byddai hyn yn cynnwys cyflogaeth a chwmnïau yn y sector twristiaeth. Mae hwn yn gyfle i Horizon a'i gadwyn gyflenwi fuddsoddi mewn hyfforddiant mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod digon o weithwyr ar gyfer y galw a ddaw yn sgil Wylfa Newydd. Byddai hyn hefyd yn helpu i liniaru effeithiau dadleoli ac yn cynnig manteision i'r dyfodol ar ôl y prosiect er mwyn cefnogi sectorau pwysig yn yr economi – gan gynnwys twristiaeth. O ystyried hyn, mae angen i Horizon a'i gadwyn gyflenwi ymrwymo i fuddsoddiad ychwanegol mewn hyfforddiant ar gyfer swyddi mewn sectorau gwasanaeth i gefnogi prosiect Wylfa Newydd.

7.7 Mae nifer o gyfeiriadau at y ganolfan croesawu ymwelwyr a'r cyfryngau yn nogfen ymgynghori PAC3. Er bod y defnydd o gystadleuaeth ddylunio ryngwladol ar gyfer y cyfleuster parhaol yn cael ei groesawu, mae pryder nad oes ymrwymiad pendant i adeiladu'r Ganolfan ymwelwyr a chyfryngau ac na fydd yr elfen hon o'r prosiect yn cael ei chyflawni efallai. Mae CSYM eisiau i'r bwriad a nodwyd i wneud cais am ganiatâd cynllunio i ymrwymiad cadarn i gynllunio, adeiladu a gweithredu'r cyfleuster gael ei ddiwygio i gyflwyno ymrwymiad wedi'i sicrhau a'i gyllido, y gellir ei gyflawni, i wneud hynny. Mae'r man gwylio dros dro yn ystod y gwaith adeiladu'n syniad y mae CSYM yn ei gefnogi, ond ni ddylai hyn gael ei weld fel rhywbeth yn lle cyfleuster parhaol i ymwelwyr. Mae CSYM yn teimlo na ddylai rôl adeiladu Wylfa Newydd o ran denu ymwelwyr (a phobl leol) gael ei thanbrisio. Mae angen manylion pellach er mwyn deall sut byddai'r galw hwn yn cael ei gynnwys yn ymarferol o fewn y llwyfan dros dro i ymwelwyr ac o ran y galw ychwanegol ar y seilwaith ffyrdd a gaiff ei greu gan yr ymwelwyr ychwanegol hyn.

7.8 Mae angen ymrwymiad a buddsoddiad pellach i hyfforddi a datblygu staff ar gyfer Wylfa Newydd mewn ardaloedd lle bydd y prosiect yn creu galw am sgiliau sy'n gorgyffwrdd ag anghenion sgiliau'r sectorau twristiaeth e.e. arlwyo, lletygarwch, hamdden, logisteg. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw arwydd y bydd Horizon na'i gadwyn gyflenwi yn cynnig cymorth a buddsoddiad ariannol yn y meysydd hyn i gefnogi hyfforddiant sy'n ymateb yn uniongyrchol i'r galw mae prosiect Wylfa Newydd yn ei greu. Crynodeb twristiaeth

**<u>Crynodeb Twristiaeth</u>**

**Mae'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd y sector twristiaeth yn cael ei groesawu ond mae angen ei ddangos drwy weithredu yn hytrach na geiriau. Rhaid sefydlu cynlluniau manwl, wedi'u cyllido, yn gynnar, gyda threfn fonitro addas a mesurau y cytunir arnynt, i wrthbwyso effeithiau sy'n mynd y tu hwnt i'r rhai a ddisgwylir. Nid yw effeithiau canlyniadol y prosiect, fel dadleoli llafur, wedi cael sylw digonol eto, ac mae angen llawer mwy o fanylion am y rhain i alluogi asesiad effaith ystyrlon ac adnabod mesurau lliniaru priodol.**

## 8.0 IECHYD A LLESIANT

8.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol i nifer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru (gan gynnwys y Cyngor fel Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru). Gan fod y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu’n berthnasol i Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru, mae CSYM o’r farn y dylai hefyd ystyried y ddeddfwriaeth hon a phwysigrwydd yr egwyddorion y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi grym statudol iddynt.

8.2 Mae CSYM o'r farn bod rhaid i wybodaeth fanwl am y prosiect gael ei darparu er mwyn galluogi'r Cyngor a chyrff rhestredig eraill yn y ddeddfwriaeth i wneud penderfyniadau gwybodus, gan roi ystyriaeth lawn i'r dyletswyddau llesiant statudol[12], sef yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a’r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol. Rhaid i Horizon ddarparu’r wybodaeth angenrheidiol i'r Cyngor ac i Lywodraeth Cymru er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad statudol.

8.3 Bydd Horizon eisoes yn ymwybodol o safbwynt yr Awdurdod Lleol ar y mater hollbwysig hwn. Yn wir, codwyd y mater gan y Cyngor yn ei ymateb i ddogfen Diweddariad Prosiect Wylfa Newydd, yr Adroddiad Interim Asesiad o’r Effaith ar Iechyd a hefyd PAC2, pan ddywedodd fod y ddogfen yn methu â chydnabod yn ddigonol sail statudol llesiant yng Nghymru a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[13]. Cedwir at y farn hon.

8.4 Er mwyn i CSYM ymateb yn llawn i’r cynigion, dylai Horizon ddarparu gwybodaeth fanwl am y prosiect er mwyn galluogi i CSYM a chyrff cyhoeddus eraill wneud penderfyniadau doeth a rhoi ymatebion ystyrlon, ystyried y datblygiad arfaethedig drwy lens y fframwaith deddfwriaethol llesiant, gan drin llesiant fel thema hollgynhwysol; a mabwysiadu asesiadau[14] o anghenion llesiant statudol fel llinell sylfaen gyffredin ar gyfer y themâu iechyd a llesiant a'r asesiadau effaith ac fel llinell sylfaen ar gyfer monitro parhaus o effeithiau sy'n dod i'r amlwg nas rhagwelwyd. Dylai'r adroddiad Swyddogion Cynnwys y Gymuned a gyhoeddwyd yn ddiweddar (dyddiedig Ebrill 2017) hefyd ffurfio rhan o'r llinell sylfaen gyffredin hon.

### Cwmpas yr Asesiadau Effaith

8.5 Mae CSYM wedi gwneud sylwadau yn flaenorol ar ddigonolrwydd a chadernid cwmpas asesiadau[15] effaith drafft fel rhan o'i ymateb ffurfiol i PAC2 a’r adroddiadau interim asesiadau effaith. Yn ei ymateb i PAC2, cyflwynwyd sylwadau pellach gan y Cyngor, a oedd yn cynghori Horizon yn gryf na ellid datblygu asesiadau effaith na chamau lliniaru ar wahân, heb ystyriaeth lawn o'r prosiect cyfan. Nid yw'r cynigion yn ddigon manwl o hyd. Mae eglurder yn hanfodol er mwyn galluogi:

8.5.1 Asesiadau gwybodus a chynhwysfawr o effeithiau cymunedol, iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant.

8.5.2 Datblygu cynigion gwaddol ar gyfer cymunedau ar yr Ynys fel rhan o’r lliniaru ar effeithiau andwyol (yn benodol i'r ardal ac ar draws Ynys Môn).

[12] Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

[13] Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn (24/10/2016) i Gam Dau yr ymgynghoriad cyn ymgeisio ar Brosiect Wylfa Newydd Pŵer Niwclear Horizon. Paragraff 7.11

[14] Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015; Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

[15] Asesiad o'r effaith ar Iechyd, yr Amgylchedd a Chydraddoldeb

DRAFT

8.6 Nid yw'r asesiadau effaith cyfredol yn adlewyrchu canlyniadau proses optimeiddio prosiect Horizon. Er enghraifft, nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ystyried/asesu effeithiau 4,000 o leoedd Llety Dros Dro i Weithwyr ar Safle Wylfa Newydd. Mae CSYM o'r farn fod hyn ar ei ben ei hun wedi newid datblygiad arfaethedig Wylfa Newydd yn sylfaenol, a bod effeithiau ychwanegol, andwyol yn dod yn ei sgil. Mae lleoliad y llety i weithwyr yn parhau i fod yn elfen sylfaenol a hanfodol o'r datblygiad arfaethedig yn ei gyfanrwydd - o ran llety i weithwyr ar y safle ond hefyd y 3,000 o weithwyr sydd ar ôl a fydd yn lletya mewn cymunedau lleol neu a fydd yn cymudo o'u cartrefi eu hunain. Nid yw darparu ar gyfer nifer sylweddol o weithwyr dros dro ar y safle, o fewn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, wedi cael ei gwmpasu yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd na'i drafod a'i ystyried gan y Grŵp Llywio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Nid yw hyn yn rhoi llawer o hyder i CSYM a chyrff cyhoeddus eraill bod effeithiau ar Iechyd a Llesiant wedi cael eu nodi'n llawn na'u lliniaru'n ddigonol er mwyn lleihau'r effeithiau andwyol.

8.7 Er mwyn rhoi sylw i'r pryderon ynghylch asesiad effaith annigonol yn PAC3, rhaid i Horizon sicrhau bod asesiadau effaith cadarn ac integredig o effeithiau posibl ar draws y sbectrwm o ystyriaethau cymunedol, iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant, sy'n adlewyrchu canlyniadau'r Adolygiad Optimeiddio diweddar, yn cael eu cynnal ac yr ymgynghorir yn eu cylch. Bydd rhaid i Horizon gydweithredu â CSYM a phartneriaid llesiant i sicrhau bod effeithiau'n cael eu datgan a'u lliniaru fel rhan o'r asesiad effaith cyffredinol a'r dull lliniaru.

**Ansawdd yr Aer**

8.8 Mae'r Canllawiau Polisi diweddaraf ar Reoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru (Mehefin 2017) yn cynnwys Canllaw WHO Gwerth 10ug/m3. Ein dadl ni yw y gall unrhyw gynnydd mewn PM2.5 arwain at effeithiau iechyd (nid oes llawer o dystiolaeth bod trothwy lle na fyddai unrhyw effeithiau iechyd niweidiol yn cael eu rhagweld oddi tano (WHO, REVIHAPP, 2013)) ac mae amheuaeth am Safon Ansawdd Aer bresennol ar gyfer y DU o 25µg/m3 ac ni ddylid ei defnyddio fel un o'r meini prawf arwyddocâd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Mae WFGA o blaid cynnal neu wella'r dwyseddau PM2.5 presennol ac mae CSYM yn credu nad yw'n briodol defnyddio'r safon 25ug/m3 mwyach. Hyd yn oed yn 10ug/m3, mae'n sylweddol uwch na'r lefelau presennol yn yr ardal a'r lefelau ar gyfartaledd yng Nghymru / ar Ynys Môn. Mae pwyslais mawr yn y Canllaw Polisi newydd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac rydym yn credu mai ein dull ni o weithredu yw'r un cywir i'w ddilyn.

8.9 Er nad yw'n gymuned ddifreintiedig, mae Horizon wedi nodi bod gan y gymuned leol iechyd anadlol is na'r cyfartaledd ym mharagraff 2.5.5. Mae'r Canllaw Technegol a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, (TG16) Ebrill 2016, yn cyflwyno rôl newydd ar gyfer Awdurdodau Lleol yn Lloegr, i weithio tuag at leihau allyriadau a dwyseddau PM2.5 yn lle cyfartaledd blynyddol; ac mae amcan cyfartaledd blynyddol newydd o 10µg/m3 wedi'i gyflwyno ar gyfer yr Alban. Ni wneir unrhyw gyfeiriad at y farn yng Nghymru ac, o'r herwydd, cred CSYM mai Canllaw Polisi Llywodraeth Cymru ar Ansawdd Aer Lleol yw'r arweiniad cliriaf ar gyfer y sefyllfa berthnasol i PM2.5 yng Nghymru.

**Diogelu, cydlyniant cymunedol a thyndra**

8.10 Mae Pennod 7 yn ystyried effeithiau ar gymunedau, ond yn gyfyngedig bron yn gyfan gwbl i effeithiau amgylcheddol a thrafnidiaeth. Yn ogystal, mae CSYM wedi gwneud sylwadau helaeth o'r blaen ar effeithiau diogelu a chydlyniant cymunedol posibl a

hefyd ar effeithiau andwyol ar gymunedau lleol[16] . Mae diogelu, ffordd o fyw ac ymddygiad i gyd yn faterion sy'n peri pryder sylweddol a fydd yn effeithio'n andwyol ar gydlyniant cymunedau lleol, ac mae'n annerbyniol nad yw Horizon wedi cydnabod yn llawn bwysigrwydd sicrhau bod trefniadau diogelu cadarn ar waith, fel y cynigiwyd yn flaenorol gan CSYM.

8.11 Mae gweithlu diogel yn elfen graidd o ddull diogelu sefydliad, ac nid oes llawer yn nogfennaeth PAC3 ar sut mae Horizon yn bwriadu sefydlu fframwaith polisi i reoleiddio ymddygiad y gweithlu ar draws yr holl wasanaethau mewnol ac ar gontract. Mae'n rhaid i Horizon ddangos arweinyddiaeth yn y maes hwn. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i Horizon roi lle blaenllaw i ddiogelu asesiadau effaith mewn prosesau tendro am gontractwyr / is-gontractwyr. Dylai Horizon fabwysiadu fframwaith cyflogwyr cadarn i ddangos eu hymrwymiadau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol i'r materion hyn, ac i ddarparu eglurder ynghylch disgwyliadau o ran ymddygiad y gweithlu (i fod yn berthnasol yn ystod a thu allan i oriau gwaith). Dylai hyn gynnwys polisïau a phrosesau Recriwtio Mwy Diogel, penodi Hyrwyddwr/Cydgysylltydd Diogelu yn Horizon, hyfforddiant diogelu gorfodol a chod ymddygiad diogelu ar gyfer y gweithlu cyfan. Mae'r Cyngor yn gwahodd Horizon i weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Prifysgol Bangor i gynnal astudiaeth o effeithiau'r datblygiad ar gydlyniant cymunedol, diogelu ac amddiffyn yn ystod y cam adeiladu, a byddai'n falch o helpu gyda'r cydweithredu hwn.

8.12 Mae cefnogaeth i'r nod o **Ynys o gymunedau cydlynol** yn hanfodol ac mae hyrwyddo cymunedau mwy diogel, drwy ein gwaith ar y cyd â'r Heddlu a'r gwasanaethau Golau Glas eraill, a'r bartneriaeth diogelwch cymunedol, yn elfen annatod o strategaeth gadarn. Mae CSYM yn parhau i bryderu am y cynnydd posibl yn y fasnach mewn pobl a gweithgareddau caethwasiaeth fodern, sy'n gysylltiedig yn aml â phrosiectau ar raddfa fawr. Rydym yn ailadrodd ein barn bod yr ymddygiadau hyn yn arwain at effeithiau difrifol a niweidiol ar gymunedau lleol a bod angen eu hasesu a rhoi sylw iddynt er mwyn osgoi'r effeithiau hyn cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol. Mae'r cynnig diwygiedig am lety dros dro i weithwyr yn arwain at effeithiau diogelu a chydlynu ychwanegol y mae'n rhaid i Horizon eu hasesu a'u lliniaru. Er enghraifft, bydd gan nifer sylweddol o'r gweithwyr y darperir llety iddynt ar y safle fynediad at eu cerbydau a byddant yn rhydd i gael mynediad at wasanaethau oddi ar y safle, ar draws yr Ynys. Yn ogystal, nid yw PAC3 yn trafod y manylion ynghylch tua 3,000 o'r gweithwyr fydd ar ôl a fydd yn lletya mewn cymunedau lleol neu'n cymudo o'u cartrefi eu hunain.

8.13 Er mwyn rhoi sylw i'r problemau sydd wedi'u datgan, rhaid i Horizon ddatblygu Canolbwynt Llesiant amlddisgyblaethol, amlasiantaethol yn Amlwch i liniaru'r effeithiau yn y cymunedau sy'n agos at safle Wylfa Newydd. Rhaid cynnwys asesiad llawn o'r effaith ar gydlyniant cymunedol fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, i wireddu'r nod o Ynys Môn o gymunedau cydlynol. Mae hyn wedi cael ei nodi'n fanwl yn flaenorol yn ymateb CSYM i PAC2. Hefyd, mae'n rhaid i Horizon sicrhau bod fframwaith cadarn yn ei le i gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, o fewn cyd-destun polisi cenedlaethol Cymru. Rhaid i bolisïau cadwyn gyflenwi Horizon gynnwys rhagofyniad i bob masnachwr gael ei gymeradwyo / fetio fel pasbort i gynnig am gontractau datblygiadau cysylltiedig a hefyd contractau i wasanaethu'r safle a'r gweithwyr (fel gwasanaethau ategol). Rhaid i'r holl fesurau hyn fod yn seiliedig ar drefniadau monitro cadarn a pharhaus i sicrhau adnabod cynnar ac ymateb priodol i unrhyw effeithiau niweidiol a ddaw i'r amlwg. **Dylai plant, pobl ifanc ac oedolion** agored i niwed gael eu hystyried fel grwpiau arbennig o

---

[16] Ymateb ffurfiol CSYM i'r Ddogfen Diweddariad ar y Prosiect (Ionawr 2016), Adroddiad Cynnydd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Mawrth 2016) a Cham II yr ymgynghori cyn cyflwyno cais (Hydref 2016)

sensitif o fewn y boblogaeth.  Mae'r grwpiau hyn yn aml yn cael eu hintegreiddio mewn cymunedau lleol, gan fyw'n annibynnol a chael cymorth i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth.

8.14 Mae'n rhaid i Horizon ymgysylltu â chymunedau lleol ar Ynys Môn er mwyn sicrhau eu bod yn nodi'n glir eu disgwyliadau o ran ymddygiad uniongyrchol y gweithlu a chontractwyr. Dylid gofyn am fewnbwn gan gymunedau lleol fel sail i asesiadau effaith a sicrhau mesurau lliniaru cadarn i leihau effeithiau andwyol posibl. Rhaid i Horizon sicrhau bod pob grŵp sensitif yn cael eu nodi a'u hasesu o ran effaith fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Ar ôl asesu ac adnabod mesurau lliniaru, mae angen trefniadau monitro cadarn parhaus er mwyn sicrhau adnabod cynnar ac ymateb priodol i effeithiau niweidiol sy'n dod i'r amlwg.

**Ymgysylltu ac ymgynghori**

8.15 Cyfeiriwyd sawl gwaith yn y ddogfennaeth PAC2 at fwriad ar ran Horizon i gynnal rhagor o ymgysylltu â chymunedau lleol a grwpiau a gaiff eu heffeithio.  Fel y nododd CSYM yn flaenorol yn ei ymateb ffurfiol i ddogfennaeth[17] y prosiect , mae'n rhaid i'r ymgysylltu hwn gynnwys grwpiau agored i niwed ac anodd eu cyrraedd a chael ei gynnal mewn modd ystyrlon a deniadol, gan osgoi symboleiddiaeth.  Cred CSYM na ellir ymgysylltu ac ymgynghori'n ystyrlon o fewn cyfnod ymgynghori o 4 wythnos, ac yn sicr nid yw hyn yn unol ag arfer da[18] .

8.16 Fel y cynigiwyd yn flaenorol gan CSYM, dylai Horizon fabwysiadu fframwaith 10 Egwyddor Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfranogaeth Cymru fel sylfaen ar gyfer rhaglen gadarn o ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau lleol a grwpiau sy'n agored i niwed Hefyd, cynghorir Horizon yn gryf i fabwysiadu a gweithredu argymhellion adroddiad y Swyddogion Cynnwys y Gymuned a gyhoeddwyd yn ddiweddar (Ebrill 2017).

**Monitro**

8.17 Mae effeithiau ar gymunedau'n debygol iawn o gynnwys effeithiau caethwasiaeth fodern, masnachu mewn pobl a chamfanteisio'n rhywiol, cynnydd posibl yn y cyfraddau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynnydd mewn ymddygiad lle cymerir risg.  Bydd yr effeithiau hyn yn eu tro yn arwain at ragor o gyfraddau atgyfeirio diogelu at gyrff statudol (sy'n cynnwys CSYM).  Mae llesiant, gan gynnwys diogelu plant ac oedolion rhag effeithiau andwyol posibl, yn aml ar ben "meddalach", llai diriaethol y raddfa, ac felly'n heriol iawn ei fesur.  Fodd bynnag, heb ymyrraeth briodol, gall effeithiau o'r fath amharu'n niweidiol ar gadernid unigolion a chymunedau.

8.18 Mae'r ddogfen yn trafod "cronfa ar raddfa fechan i liniaru effeithiau". Er bod CSYM yn croesawu'r ymrwymiad i sefydlu cronfa, bydd angen i'r gronfa hon fod yn gymesur ac ar raddfa addas i gwrdd â'r effeithiau posibl.  Mae'n rhaid i Horizon sicrhau bod cronfa ag adnoddau digonol yn cael ei sefydlu i ymateb i effeithiau andwyol sy'n dod i'r amlwg gyda threfniadau llywodraethu cadarn yn eu lle (i gynnwys eglurhad ar gwmpas/paramedrau, sbardunau a dangosyddion ymyrraeth, proses uwchgyfeirio, awdurdod i ymrwymo gwariant).Mae hefyd angen sicrhau argaeledd arian digonol i ymateb yn briodol i effeithiau sy'n dod i'r amlwg, gan y bydd absenoldeb ymyriadau

[17] Adroddiad Diweddariad ar y Prosiect, Adroddiad Cynnydd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Cam II Ymgynghori Cyn Gwneud Cais

[18] fframwaith 10 Egwyddor Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfranogaeth Cymru

DRAFT

amserol yn arwain at ganlyniadau niweidiol ar gyfer unigolion a chymunedau ac yn achosi anawsterau i enw da'r datblygwr. Bydd angen cynnwys yr effeithiau anfesuradwy neu annisgwyl hyn yng nghwmpas Cronfa Cydnerthedd Cymunedol i sicrhau nad yw Ynys Môn a'i thrigolion yn cael eu heffeithio'n andwyol gan y datblygiad arfaethedig. Dylai Horizon sefydlu proses ar gyfer monitro amlasiantaethol o amodau sylfaenol a thystiolaeth o effeithiau datblygiad Wylfa Newydd ar gymunedau lleol (gan gynnwys diogelu, cydlyniant a'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol)

**Crynodeb Iechyd a Llesiant**

**Mae CSYM yn parhau i fynnu bod y datblygiad arfaethedig yn cael ei ystyried yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol llesiant, a bod llesiant yn cael ei drin fel thema hollgynhwysol sy'n sail i ystyried effeithiau a lliniaru pob agwedd ar brosiect Wylfa Newydd. Mae hepgor gwybodaeth am y pwnc hwn o hyd yn annerbyniol ac mae'n ofynnol i Horizon ddarparu asesiad cynhwysfawr, seiliedig ar wybodaeth, o effeithiau cymunedol, iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Dylid rhoi sylw i'r effeithiau hyn gyda chynigion lliniaru ar gyfer cymunedau ar yr Ynys, yn cael eu targedu, eu cyllido a'u cefnogi gan gynlluniau cyflawni realistig.**

DRAFT

## 9.0 YR AMGYLCHEDD: PENODOL I'R SAFLE

9.1 Nid oes digon o fanylder yn y Brif Ddogfen Ymgynghori i alluogi'r Cyngor i roi sylwadau manwl ac ystyrlon ar y gwahanol faterion amgylcheddol (Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Mynediad, Tirwedd ac Amwynder Gweledol, Ecoleg, Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol), felly gallai'r sylwadau a ddarperir yn y ddogfen hon newid wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael.

9.2 Mae rhai adnoddau a derbynyddion amgylcheddol pwysig (gan gynnwys derbynyddion tirwedd, gweledol, ecolegol, archeolegol a threftadaeth ddiwylliannol) wedi eu hepgor o'r cynlluniau ac o destun y Brif Ddogfen Ymgynghori, ac ymddengys iddynt gael eu hanwybyddu. Mae'n bwysig bod yr wybodaeth sylfaenol yn gynhwysfawr ac yn gyfredol a bod yr asesiadau yn ystyried yr wybodaeth sylfaenol hon. Dim ond gwybodaeth gyfyngedig iawn a ddarperir o hyd ar y llinell sylfaen ecoleg ac nid oes manylion am y mesurau lliniaru arfaethedig.

9.3 Mae'r holl gynlluniau a ddarperir yn y Brif Ddogfen Ymgynghori yn fach o ran maint ac yn wael o ran ansawdd atgynhyrchu, i'r graddau ei bod yn amhosibl darllen y rhan fwyaf o'r anodiadau a'r allweddau. Dylai pob cynllun gael ei atgynhyrchu ar raddfeydd priodol, gyda'r holl anodiadau ac allweddi yn glir a darllenadwy, a dylent fod yn seiliedig ar y mapiau Arolwg Ordnans diweddaraf neu arolygon safle mwy manwl, a dylent gynnwys yr holl ddatblygiadau diweddar, e.e. dylai Ysgol Llanfaethlu, sydd newydd gael ei hadeiladu, gael ei dangos ar y cynllun ar gyfer Adran 5 y Gwelliannau Priffyrdd i'r A5025, yn Atodiad D.

9.4 O ran yr hyblygrwydd arfaethedig o ran lleoliadau a dimensiynau adeiladau, strwythurau, staciau a ffyrdd ar safle'r Orsaf Bŵer, Campws y Safle, y Cyfleusterau oddi ar Safle'r Orsaf a'r Datblygiad Cysylltiedig, fel y diffinnir ym mharagraff 1.4.6 - 1.4.10, dylai'r rhain i gyd gael eu nodi'n glir ar gynlluniau cynllun a drychiadau, ynghyd â'r hyblygrwydd sydd ei angen ym mhob achos. Dylai pob derbynnydd a allai fod yn sensitif o amgylch yr adeiladau a'r strwythurau hyn gael eu nodi, a dylid nodi ac asesu senarios "achos gwaethaf derbyniol" a dylid diffinio terfynau'r paramedrau lleoliadol a dimensiynol er mwyn sicrhau nad yw'r effeithiau a ragwelir yn cael eu rhagori.

9.5 Mae holl sylwadau'r Cyngor ar ymgynghoriad PAC2 / Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol yn dal yn ddilys a dylid rhoi sylw iddynt yn y cais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu terfynol a cheisiadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (lle bo'n berthnasol) (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud ag elfennau'r cynllun sydd wedi cael eu dileu o'r Prosiect).

### Prif Safle'r Orsaf Bŵer

9.6 Mae'r Cyngor yn nodi penderfyniad Horizon i leihau cwmpas y gwaith paratoi a chlirio'r safle a gaiff ei wneud cyn dyfarnu'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Nodir ym mharagraff 2.3.7 bod Horizon yn bwriadu cyflwyno cais cynllunio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref ar wahân i'r Cyngor am y gwaith paratoi a chlirio'r safle yn 2017. Rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad ar y cais paratoi a chlirio'r safle hwn yn cael ei gynnal yn ystod haf 2017, a bod y rhan fwyaf o'r hyn a ystyriwyd yn waith paratoi a chlirio'r safle (ymgynghoriad s.61z Rhagfyr 2016) yn awr yn cael ei gynnwys yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

9.7 Yn anffodus, nid yw PAC3 yn darparu unrhyw wybodaeth sylweddol ar union gwmpas y gwaith paratoi a chlirio'r safle a gynigir yn awr, ac felly ni ellir rhoi sylwadau manwl ar hyn o bryd. Bydd yn ofynnol i'r ymgynghoriad a gaiff ei gynnal yn

DRAFT

ystod haf 2017 roi sylw i'r holl faterion a godwyd yn flaenorol, a galluogi'r Cyngor i roi eu sylwadau ar yr agwedd hon ar y Prosiect.

9.8 Fel rhan o'r broses hon, bydd angen ymgorffori manylion am y cynigion lliniaru yn y gwaith paratoi a chlirio’r safle er mwyn galluogi'r Cyngor i asesu effeithiau'r cais paratoi a chlirio'r safle. Mae angen i'r cynigion lliniaru hyn fod yn rhan o'r cais Deddf Cynllunio Gwlad a Thref ac ni ellir eu gohirio’n gyfan gwbl tan y cais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu gan y dylent gynnwys cynigion manwl ar gyfer adfer / lliniaru, ac ati pe na bai’r prif waith Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn mynd yn ei flaen. Mae’r Cyngor yn cadw at ei safbwynt a nodwyd yn flaenorol y bydd y gwaith hwn yn gam cyntaf y prosiect a bod rhaid eu trin felly. Ni ellir ystyried y gwaith o baratoi a chlirio’r safle ar wahân i’r prosiect yn gyffredinol a bydd rhaid i’r cysylltedd hwn a’r effeithiau cronnol gael eu hasesu’n briodol ar gyfer y ddau gais (Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a Pharatoi a Chlirio’r Safle, a’r cais Cynllunio Gwlad a Thref).

**Cynllun yr Orsaf Bŵer**

9.9 Mae'r ynys bŵer ymhellach i ffwrdd o'r A5025 a chymunedau lleol, ond, o ganlyniad, mae'n nes at Barc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig Cestyll. Mae angen asesu’r effeithiau ar Barc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig Cestyll ymhellach, a chytuno ar fesurau lliniaru a gwella drwy lunio Cynllun Rheoli Cadwraeth a’i roi ar waith.

9.10 Gallai cynnydd yn uchder y platfformau gynyddu uchder adeiladau a strwythurau mewn perthynas â'r ardal o gwmpas, a allai wneud gwahaniaeth sylweddol i edrychiad yr adeiladau a’r strwythurau hyn a’r effeithiau a ragwelir ar asedau morlun, tirwedd, mwynderau gweledol a threftadaeth. Dylai pob derbynnydd a allai fod yn sensitif o amgylch y lleoliadau gael eu nodi, dylid nodi ac asesu senarios "achos gwaethaf derbyniol" a dylid diffinio lefelau uchaf y llwyfannau er mwyn sicrhau nad yw'r effeithiau a ragwelir yn cael eu rhagori.

**Gwedd Adeiladau Parhaol yr Orsaf Bŵer**

9.11 O safbwynt y dirwedd, amwynder gweledol a threftadaeth ddiwylliannol, mae angen ystyried y pwyntiau a ganlyn:

9.12 Bydd defnyddio lliwiau tywyllach ar gyfer yr adeiladau llai o faint, ynghyd â phalet cyfyngedig o orffeniadau wyneb yn gwneud yr adeiladau hyn yn fwy enciliol yn y dirwedd a bydd yn helpu i leihau'r "annibendod" gweledol lefel isel.

9.13 Mae angen ystyried yn ofalus defnyddio mynegiant cryf o liw ar adeiladau'r adweithyddion. Gallai lliw(iau) priodol wneud yr adeiladau hyn yn nodweddion eiconig, tra gallai lliw(iau) amhriodol orbwysleisio eu graddfa a'u gweledededd. Dylid ystyried defnyddio lliwiau mwy priddlyd o ddaeareg yr ynys (gweler y Cloc Creigiau ym Mhorth Amlwch).

9.14 Dylid darparu manylion pellach ar yr ymddangosiad allanol (cynllun, lleoliad, dimensiynau, dyluniad, deunyddiau, gorffeniadau wyneb, ac ati) holl brif adeiladau ac adeiladau ategol yr Orsaf Bŵer, fel cynlluniau a drychiadau, ynghyd â montage lluniau o leoliadau cyfagos i roi gwell dealltwriaeth o raddfa a golwg y Prosiect ac i alluogi asesiadau mwy ystyrlon o'r effeithiau ar y dirwedd, amwynder gweledol ac asedau treftadaeth.

**Llwybr Arfordir Cymru**

9.15 Roedd Atodiad A - paragraff 9.8 - ac Atodiad C - paragraff 2.4.1 yn ymateb CSYM i PAC2 yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod Llwybr yr Arfordir, yn ystod y cam

gweithredu, mor agos â phosibl at y môr er mwyn cynnig y llwybr gorau posibl ar hyd yr arfordir, gyda gwell golygfeydd o'r môr. Nod hyn oedd sicrhau bod un o Feini Prawf Llwybrau Llwybr Arfordir Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei fodloni: "RC4: "Dylai'r llwybr fod mor agos â phosib at y môr, o ran yr hyn sy'n ymarferol ac yn ddymunol".

9.16 Nid yw Horizon wedi esbonio pam nad yw pompren ar draws blaen y strwythur cymeriant dŵr oeri yn ymarferol. Dim strwythur sy'n defnyddio tyrau cynnal tal ydy'r unig opsiwn sydd ar gael. Er enghraifft, mae pontydd troed polymer a atgyfnerthwyd â ffeibr sydd â rhychwant hyd at 300m wedi cael eu hadeiladu mewn mannau eraill. Llwyddwyd i sicrhau'r rhychwantau hir heb fod angen offer cynnal gyda cheblau a mastiau, a wnaed yn bosibl drwy ddefnyddio deunyddiau cyfansawdd carbon ffibr ysgafn iawn.

9.17 Mae'r llwybr i mewn i'r tir a gynigir ar gyfer llwybr yr arfordir yn cynnwys dargyfeiriad mawr tua'r tir, ac ni fydd yn ddeniadol o gwbl i gerddwyr gan y bydd mewn coridor rhwng safle'r orsaf bŵer a'r A5025. Byddai'r llwybr wedi'i ddargyfeirio hefyd yn ychwanegu tua 4km at hyd y llwybr i gyd. Mae CSYM yn awyddus i drafod llwybrau amgen neu atebion peirianyddol a fyddai'n caniatáu i'r llwybr gael ei leoli mor agos ag y bo modd at y môr. Mae Llwybr yr Arfordir yn bwysig iawn i ddarpariaeth hamdden, adloniant a thwristiaeth Ynys Môn (gan ei fod yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru ehangach) ac mae'n bwysig bod cyfanrwydd darpariaeth y Llwybr Arfordirol yn cael ei ddiogelu - os nad ei wella - o ganlyniad i'r prosiect hwn. Byddai CSYM yn argymell yn gryf bod Llwybr yr Arfordir yn cael ei adfer ar yr arfordir ar ôl cwblhau'r prif waith adeiladu a gofynnir i Horizon edrych eto ar yr opsiwn hwn.

9.18 I helpu i leihau effeithiau dargyfeirio Llwybr Arfordir Cymru i mewn i'r tir, cynigir rhwydwaith o lwybrau troed yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd er mwyn cynnig golygfeydd eraill o'r môr a llwybrau deniadol eraill i gerddwyr yn ystod cyfnod gweithredu'r Orsaf Bŵer. Bydd y rhain yn cynnwys llwybr ar hyd Afon Cafnan, a llwybr dros y drymlin newydd. Gallai'r llwybrau troed newydd hyn ychwanegu gwerth drwy ddarparu golygfeydd a gwybodaeth ddeongliadol yn ymwneud â thirwedd, ecoleg, archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal, e.e. golygfeydd o henebion a nodweddion tirwedd pwysig fel meini hirion ar ben y bryn yn Llanfechell. Gallai unrhyw fudd tymor hir / etifeddol o'r rhaglen archeolegol fwydo i mewn i ddeunydd deongliadol ar gyfer defnyddwyr y llwybrau troed, a gallai'r llwybrau troed hyn gysylltu â, a darparu mynediad i Barc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig Cestyll.

9.19 Ni ddarparwyd gwybodaeth am lwybr arfaethedig y llwybr troed a beicio deuol a fyddai'n cael ei greu i gysylltu'r Trywydd Copr â Chemaes drwy'r Penrhyn (ni ddangosir hynny ar yr un o'r cynlluniau yn PAC3). Ar hyn o bryd, mae'r Trywydd Copr yn dilyn Llwybr Beicio Cenedlaethol 566 Sustrans, sy'n rhedeg tua 1km i'r de o Gemaes. Mae Horizon yn bwriadu ail-lwybro rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol 566 rhwng Llanfechell a Bae Cemlyn fel rhan o'r gwelliannau priffyrdd i'r A5025 a fydd yn dargyfeirio Llwybr Beicio Cenedlaethol 566 a'r Trywydd Copr ymhellach o Gemaes, felly byddai'n ddefnyddiol gwybod beth yw llwybr y cysylltiad arfaethedig hwn rhwng Llwybr Beicio Cenedlaethol 566 a Chemaes a sut mae'n cysylltu ag ail-lwybro arfaethedig Llwybr Beicio Cenedlaethol 566.

9.20 Mae Ffigur 2-8 sy'n dangos gwyriad Llwybr Arfordir Cymru yn annigonol i asesu'r llwybrau arfaethedig yn gywir oherwydd maint bach a graddfa'r map sylfaen. Byddai'r Cyngor yn croesawu trafodaethau pellach gyda Horizon ar aliniad terfynol Llwybr yr Arfordir.

DRAFT

**Dŵr Ymdrochi Cemaes**

9.21 Cododd yr Awdurdod Lleol fater Dŵr Ymdrochi Cemaes yn ei ymateb i'r Ymgynghoriad Cwmpasu ym mis Ebrill 2016, gan ddatgan yn benodol bod angen mesurau lliniaru ar waith i atal gwaddodi yn y bae er mwyn cynnal ac, os yw'n bosibl, gwella ansawdd dŵr y bae. Mae angen dylunio mesurau o'r fath i ymdopi â glaw trwm.

9.22 Rydym yn deall bod yr Arolygiaeth Gynllunio a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi hefyd nad oedd y Farn Gwmpasu wedi ystyried yr effeithiau posibl ar Fae Cemaes fel Dŵr Ymdrochi Ewropeaidd dynodedig. Er bod Horizon wedi nodi ers hynny y bydd effaith gwaddodion a Pharamedrau ansawdd dŵr eraill yn cael eu hystyried yn y bennod ar yr Amgylchedd Morol yn y Datganiad Amgylcheddol, nid yw'n dderbyniol nad yw'r mater hwn wedi cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad PAC3. Rydym yn cwestiynu pa gyfle pellach, os o gwbl, fydd gan yr Awdurdod Lleol ac asiantaethau eraill yn awr i wneud sylwadau ar y mater hwn cyn Cyflwyno'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, yn enwedig gan fod ansawdd y dŵr wedi cael ei ddynodi fel ansawdd gwael ar gyfer tymor ymdrochi 2017, a'i bod yn hanfodol bod HORIZON yn sicrhau nad yw'n cael effaith negyddol ar Ddŵr Ymdrochi'r Undeb Ewropeaidd ym Mae Cemaes. Gan hynny, mae'n rhaid ystyried canlyniadau niferoedd mwy o symudiadau llongau a'r posibilrwydd o dyrfedd cynyddol ac ati, a chytuno ar fesurau lliniaru i leihau effeithiau andwyol. I'r perwyl hwn, dylai'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid gael cyfle i roi sylwadau ar y bennod ar yr Amgylchedd Morol yn y Datganiad Amgylcheddol cyn y cyflwyniad Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

9.23 Dywed Horizon yn glir y bydd y mesurau lliniaru niferus sy'n ymwneud â sŵn a dirgrynu; yn yr ardaloedd Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a Datblygiadau Cysylltiedig ac o'u hamgylch yn cael sylw yn y Datganiad Amgylcheddol. Gan hynny, dylai'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid gael cyfle i roi sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol cyn y cyflwyniad Gorchymyn Cydsyniad Datblygu er mwyn sicrhau bod unrhyw agwedd dechnegol o fewn y cynigion lliniaru yn gadarn ac yn wydn er mwyn diogelu amwynder eiddo preswyl a busnesau fel ei gilydd.

9.24 Byddai CSYM hefyd yn dymuno cael eglurder yn gynnar ar y mesurau lliniaru manwl a gynigir ar gyfer eiddo preswyl a busnesau. Cyfeiriwyd at y rhain yn flaenorol yn y 'Cynllun Lliniaru Sŵn Gwirfoddol Lleol' fel rhan o ymgynghoriad PAC2, er bod mesurau lliniaru penodol o'r fath yn absennol. Ni ddylai mesurau lliniaru o'r fath gael eu cyfyngu i sŵn a dirgrynu yn unig, ond dylent edrych ar faterion amgylcheddol yn gyfannol ac ailadroddol (h.y. sŵn, ansawdd aer, golau artiffisial, arogl, ac ati) ac effeithiau'r rhain. Byddem yn nodi ein bod ni o'r farn y byddai'r llety gweithwyr yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn dderbynnydd perthnasol o ran yr holl amcanion ansawdd aer, ac mae'r awdurdod lleol yn parhau i geisio ymrwymiad gan HORIZON i fabwysiadu Amcan Blynyddol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer PM2.5; yn enwedig o ystyried bod ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i leihau crynodiadau o'r llygrydd hwn a lefelau amlygiad cyfartalog presennol ar Ynys Môn a Chymru ar hyn o bryd lawer yn is na therfyn[19] Sefydliad Iechyd y Byd .

**Cyfleuster Dadlwytho Morol a Morgloddiau**

9.25 Mae'r morglawdd wedi symud tua 20 metr i'r gorllewin (ymhellach i'r môr), ac mae hefyd wedi cynyddu o ran maint a màs. Nid yw'n glir pa effaith y gallai'r newidiadau

[19] Stats Cymru: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Air-Quality/airqualityindicators

i'r morglawdd gael ar y 'golygfeydd arwyddocaol' o Barc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig Cestyll (dyffryn a gerddi chegin) nac ar leoliadau Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig Cestyll ac adeiladau rhestredig cyfagos.

9.26 O ran y Cyfleuster Dadlwytho Morol, dylid ystyried yr effeithiau andwyol o bosibl ar Barc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig Cestyll a'r golygfeydd arwyddocaol tua'r môr hefyd.

**Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol**

9.27 O ran y Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol, mae gan CSYM sylwadau penodol ar lefel uchel ynghylch materion yn gysylltiedig â Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Mynediad, Tirwedd ac Amwynder Gweledol, Ecoleg, Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol, a nodir isod:

9.28 Mae angen rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r amseru, llwybro a mecanwaith cyfreithiol i sefydlu'r rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus newydd ar Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Dylai hawliau tramwy newydd arfaethedig gael eu manylu mewn atodlen i'w chyflwyno gyda'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a dylid datblygu Cynllun Gweithredu Llwybr Troed mewn trafodaeth â'r Cyngor. Mae CSYM yn awyddus i gytuno ar gynnwys y cynllun hwn.

9.29 Dylai prif gynlluniau'r Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol (Camau Un i Bump) gael eu llunio ar raddfa lawer mwy, eu troshaenu ar fap Arolwg Ordnans presennol neu arolwg mwy manwl o'r safle, a dylai nifer o drawstoriadau fod ynghlwm sy'n dangos uchderau cymharol y twmpathau arfaethedig a gweithgareddau ar y safle o edrych ar yr aneddiadau cyfagos a lleoliadau i ymwelwyr fel Bae Cemlyn, ac ati.

9.30 Mae'r bwnd a ddangosir ar Gamau Tri a Phedwar y Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol wrth ymyl Tregele yn gul iawn ac ni fyddai'n uchel iawn (hyd yn oed gyda llethrau 1:2). Yn ogystal, nid yw'n cael ei ddangos gyda choed wedi eu plannu arno. Mae angen rhagor o fanylion am y bwnd hwn a dylid ystyried ei ailddylunio os nad yw'r bwnd hwn yn sgrinio gweithgareddau'r cyfnod adeiladu rhag eiddo yn Nhregele.

9.31 Nid yw llethrau ar raddiant o 1:2 yn gyson â graddiannau nodweddiadol y drymlinau presennol (1:8 i 1:24) ac maent yn fwy serth na'r ongl orffwys ar gyfer deunydd gronynnog (1:3 neu lai fel arfer), felly byddai angen mesurau i gadw'r haenau arwyneb yn eu lle. Byddai'n well creu twmpathau anghymesur gyda llethrau mwy serth yn wynebu'r safle, a llethrau "terfynol" llai serth sy'n edrych yn fwy naturiol yn wynebu am allan yn ystod y cyfnod adeiladu. Yna gellid plannu ar y llethrau allanol yn ystod y cyfnod adeiladu ac ni fyddai angen tarfu ar y gwaith plannu wrth i'r twmpathau gael eu hailfodelu i'w ffurf derfynol.

9.32 Yn dibynnu ar ba mor serth yw'r llethrau tirffurf terfynol a'u haddasrwydd ar gyfer amaethyddiaeth, gall fod yn briodol cynyddu swm y coed llydanddail a gaiff eu plannu ar y twmpathau terfynol.

9.33 Nid yw prif gynlluniau'r Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol (Camau Un i Bump) yn dangos y Safleoedd Natur sy'n ymgeisio - Arfordir Mynydd y Wylfa - Trwyn y Penrhyn (sydd o fewn Ardal Datblygu Wylfa Newydd) a Thrwyn Pencarreg, sy'n rhoi camargraff o bwysigrwydd yr ardaloedd hyn ar gyfer bioamrywiaeth. Dylai'r safleoedd hyn gael eu dangos ar yr uwchgynlluniau hyn gan eu bod yn debygol iawn o gael eu cadarnhau fel Safleoedd Bywyd Gwyllt yn y broses Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gyfredol.

9.34 Nid yw cynlluniau’r Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol yn dangos ffin bresennol Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig Cestyll sy'n gorwedd yn rhannol o fewn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae'r ffin bresennol yn cynnwys yr ardd ddyffryn a'r ardd gegin ar wahân, gyda'r naill a’r llall yn meddu ar olygfeydd arwyddocaol sy'n wynebu'r môr. O ganlyniad, mae'r ffens gwaith adeiladu dros dro yn rhedeg drwy’r Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig cyfredol, ac mae Camau Tri a Phedwar y Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol cyfredol yn dangos y gwaith datblygu arfaethedig ar y Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig.

9.35 Mae’r Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig yn ddynodiad statudol erbyn hyn (dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016), a cheir ar ddeall bod y ffin statudol (i’w chadarnhau gan Cadw) yn debygol o fod yn fwy. Mae angen eglurhad gan Cadw ynghylch ffin statudol arfaethedig y Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig hwn, a dylid ei dangos ar gamau 1 i 5 y Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol, **heb unrhyw fath o waith** wedi’i gynnwys o fewn y ffin statudol hon.

9.36 Mae angen paratoi Cynllun Rheoli Cadwraeth ar gyfer Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig Cestyll, a chynnwys mesurau lliniaru a gwella yn y Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol. Hefyd, mae gan Horizon gyfle unigryw i weithio ar y cyd â thirfeddianwyr eraill y Parc a’r Ardd Hanesyddol Gofrestredig i ariannu a hyrwyddo’r gwaith o warchod a rheoli’r Parc a’r Ardd Hanesyddol Gofrestredig, sy’n statudol erbyn hyn, er gwerthfawrogiad / mwynhad y cyhoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

9.37 Er gwaethaf y ffordd ymlaen sydd wedi’i nodi uchod mae angen cynnwys lluniadau, manylebau a chynlluniau manylach sy’n dangos y ffin arfaethedig rhwng ffin statudol y Parc a’r Ardd Hanesyddol Gofrestredig a safle Ardal Datblygu Wylfa Newydd er mwyn gallu asesu natur a lefel yr effeithiau niweidiol ar gyd-destun gweledol y Parc a’r Ardd Hanesyddol Gofrestredig statudol cyn llunio unrhyw fesur lliniaru a gwella.

9.38 Fel y nodwyd ym mharagraff 9.32 uchod, mae angen paratoi Cynllun Rheoli Cadwraeth ar gyfer Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig Cestyll, a chynnwys mesurau lliniaru a gwella yn y Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol. Hefyd, mae gan Horizon gyfle unigryw i weithio ar y cyd â thirfeddianwyr eraill y Parc a’r Ardd Hanesyddol Gofrestredig i ariannu a hyrwyddo’r gwaith o warchod a rheoli’r Parc a’r Ardd Hanesyddol Gofrestredig, sy’n statudol erbyn hyn, er gwerthfawrogiad / mwynhad y cyhoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

DRAFT

## <u>Cyfleusterau Oddi ar Safle’r Orsaf Bŵer</u>

### Tirwedd ac Amwynder Gweledol

9.39 Yn Nhablau 3-3 a 3-4 dylai’r derbynyddion tirwedd a gweledol hefyd gynnwys: trigolion mewn eiddo cyfagos a modurwyr ar yr A5025.

### Ecoleg

9.40 Yn Nhablau 3-3 a 3-4 dylai derbynyddion ecolegol hefyd gynnwys Madfallod Dŵr Cribog y gwyddys eu bod yn bresennol yn yr ardal, ac mae angen cynnal arolygon digonol am y madfallod hyn.

### Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol

9.41 Gwyddys fod yr ardal a ddynodwyd ar gyfer tirlunio a gorlif parcio i'r de o'r adeiladau yn cynnwys olion anheddiad cynhanesyddol, a bydd angen gwaith cloddio llawn o'r

holl olion archeolegol yn yr ardal hon cyn unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar y safle hwn.

### Camau Lliniaru Arfaethedig

9.42 O ran ansawdd y tirlunio a lleihau'r effeithiau posibl ar drigolion lleol, mae'n bwysig sicrhau bod lle digonol yn cael ei ddarparu o amgylch ffin y safle (rhwng waliau/llystyfiant presennol ffin y safle a'r adeiladau/lleiniau caled arfaethedig) i ddarparu ar gyfer llain sylweddol o lystyfiant.

## <u>Campws y Safle</u>

### Cyflwyno cam wrth gam dangosol

9.43 Mae Ffigur 5-1 yn awgrymu bod yr angen am lety ar Gampws y Safle yn dechrau dirywio erbyn ail chwarter 2025, ac na fydd ei angen erbyn diwedd 2025 (erbyn diwedd Cyfnod 2: Y Prif Gam Adeiladu, gweler Ffigur 2-1). Dylai datgomisiynu Campws y Safle gael ei gyflwyno'n raddol, yn unol â'r lleihad gwirioneddol mewn anghenion llety yn ystod cyfnod adeiladu'r Orsaf Bŵer, ac nid ei adael tan ddiwedd y cyfnod adeiladu.

### Dyluniad y Cynllun sy'n dod i'r amlwg

9.44 Mae'r lleoliadau adeiladu, y ffyrdd a'r llwybrau i gerddwyr arfaethedig a ddangosir yn Ffigur 5-3 i raddau helaeth yn osgoi nodweddion pwysig y dirwedd yn y rhan hon o Ardal Datblygu Wylfa Newydd, fel y creigiau creigiog a'r coetir hynafol presennol, a dylai dyluniad terfynol Campws y Safle hefyd osgoi'r nodweddion hyn, y dylid eu diogelu yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn sicrhau nad yw'r gwaith i'w cadw yn cael ei gyfaddawdu'n anfwriadol.

9.45 Mae'r lleoliad ar ben y clogwyn yn debygol o fod yn agored iawn. Os nad ydy hyn wedi cael ei wneud yn barod, dylai Horizon fonitro a modelu'r gwynt ar y safle hwn. Dylai hefyd ddylunio cynllun a strwythur adeiladau Campws y Safle a'r gwaith tirweddu cysylltiedig er mwyn sicrhau bod yr adeiladau'n gallu gwrthsefyll grym y gwynt, nad ydy'r mannau yn yr awyr agored rhwng yr adeiladau yn dwneli gwynt ac y gall y gwaith tirlunio caled a meddal arfaethedig ar y safle oroesi'r amodau.

9.46 Mae angen i'r holl oleuadau gael eu cynllunio i osgoi effeithio ar fenter "Statws Awyr Dywyll" Ynys Môn.

9.47 Bydd y gwaith o adeiladu'r campws (fel y dangosir yn Ffigur 5-3) yn cael effaith uniongyrchol ar weddillion archeolegol arwyddocaol sydd wedi'u claddu, gan gynnwys mynwent Gristnogol helaeth o'r Canol Oesoedd neu safle domestig o ddiwedd cyfnod y Rhufeiniaid neu'r Canol Oesoedd Cynnar a nodweddion archeolegol gwahanol eraill. Bydd angen gwneud gwaith cloddio llawn ar yr holl weddillion archeolegol yn yr ardal hon cyn bwrw ymlaen ag unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar y safle hwn, er mwyn sicrhau cofnod o'r holl eitemau archeolegol arwyddocaol.

9.48 Nodir yn nhabl 9-3 mai'r prif oblygiad ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n deillio o'r newid arfaethedig i Gampws y Safle yw rheoli'r llif o ddŵr budr a gaiff ei ollwng. Fodd bynnag, mae'r cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth llety ar y safle yn golygu y bydd 3,500 o weithwyr adeiladu ychwanegol yn aros ar Gampws y Safle, a gallai hyn hefyd arwain at ragor o effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd cyfagos yn

DRAFT

sgil mwy o ymwelwyr. Gan hynny, dylai'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd ystyried effeithiau posibl rhagor o bwysau gan ymwelwyr ar y safleoedd Ewropeaidd cyfagos.

## Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol

### Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Mynediad, Tirwedd ac Amwynder Gweledol

9.49 Rydym yn falch y bydd Llwybr Arfordir Cymru o Gemaes i Drwyn Wylfa yn cael ei gadw yn ystod camau adeiladu a gweithredu Campws y Safle. Fodd bynnag, bydd y gwaith yn dal i gael effeithiau niweidiol sylweddol ar werth amwynder hamdden y llwybrau troed hyn. Mae angen rhagor o wybodaeth am leoliad a manyleb y ffens rhwng Campws y Safle a Llwybr Arfordir Cymru, ynghyd ag asesiad o'r cynnydd a ragwelir yn y defnydd o'r llwybrau troed cyfagos yn sgil Campws y Safle.

9.50 Dylai'r asesiad o’r morlun, y dirwedd ac amwynderau gweledol o Gampws y Safle gael ei gynnal fel asesiad ar wahân i asesiad o’r morlun, y dirwedd ac amwynderau gweledol yr Orsaf Bŵer, a dylai ystyried effeithiau'r camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar yr holl adnoddau a derbynyddion a restrwyd yn Nhablau 5-6 a 5-7 yn ogystal ag AHNE Ynys Môn a’r Arfordir Treftadaeth, a hefyd effeithiau cronnol rhyng-brosiectau.

9.51 O ran Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Tre’r Gof, mae anghysondeb rhwng yr asesiad o’r effeithiau yn yr adrannau ‘dŵr daear a dŵr wyneb’ yn Nhabl 5-6 (effaith niweidiol ganolig) a'r adran ecoleg, lle mae’r senario asesu yn nodi “y gallai’r cynigion arwain at golli’r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn yr hirdymor”. Mae'r gwahaniaeth i'w weld yn nogfennau PAC2 hefyd, ac nid yw’n glir sut mae’r cynnydd sylweddol ym maint y llety i weithwyr yn cael ei adlewyrchu yn yr asesiadau. Byddai colli’r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn amlwg yn effaith sylweddol ac arwyddocaol, a byddai’n anodd gwrthbwyso neu wneud iawn am hynny. Mae’n rhaid cael rhagor o fanylion am yr agwedd hon.

9.52 Nid yw effeithiau posibl hyd at 4000 o breswylwyr ar dderbynyddion ecolegol lleol, yn enwedig effeithiau trefoli neu bwysau ymwelwyr ar safleoedd dynodedig cyfagos, yn cael eu nodi fel effaith bosibl. Er y bydd effeithiau’n cael eu cyfyngu yn sgil gwahanol fesurau lliniaru (e.e. darparu cyfleusterau hamdden lleol) neu ffactorau lliniaru (e.e. mae’n annhebygol y bydd modd cael mynediad rhwydd ar droed i Fae Cemlyn o gampws y safle oherwydd y safle adeiladu), dylid ystyried effeithiau posibl cynnydd ym mhwysau ymwelwyr ar dderbynyddion ecolegol, yn enwedig safleoedd wedi’u dynodi, yn yr Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (ar gyfer safleoedd Ewropeaidd) yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd.

9.53 Nid oes arolygon neu asesiadau ecolegol manwl o hyd ar gyfer unrhyw un o'r safleoedd, ac mae angen gwneud y gwaith hwn ar frys a'i anfon at y Cyngor ar gyfer sylwadau.

9.54 Mae’r effeithiau a ragwelir ar y dirwedd ac ar amwynder gweledol, gan gynnwys effeithiau gweledol yn y nos, hefyd yn debygol o arwain at gynyddu’r effeithiau ar gyd-destun gweledol henebion (e.e. y meini hirion yn Llanfechell), adeiladau rhestredig (e.e. Eglwys Sant Padrig yn Llanbadrig) ac Ardal Gadwraeth Cemaes.

9.55 Mae angen ailasesu effeithiau’r gwaith o adeiladu, rhedeg a datgomisiynu Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar gyd-destun gweledol Asedau Hanesyddol yn sgil cynyddu’r llety campws ar y safle.

DRAFT

9.56 Dylai'r gwaith lliniaru hefyd gynnwys mesurau i sicrhau y gall adeiladau Campws y Safle a'r gwaith tirlunio arfaethedig wrthsefyll y prifwyntoedd, ac nad ydyn nhw'n creu amodau anffafriol i'r gweithwyr preswyl na'r gwaith tirlunio arfaethedig ar y safle. Mae datgomisiynu effeithiol a chyflawn sy'n dychwelyd y dirwedd yn y rhan hon o Ardal Datblygu Wylfa Newydd i'w gyflwr presennol yn hanfodol.

**Cyfleuster Parcio a Theithio Dalar Hir**

9.57 Dylid cyflwyno Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol ar gyfer cyfleuster Parcio a Theithio Dalar Hir, sy'n cynnwys yr holl gynigion ynghylch mynediad, y dirwedd a'r ecoleg a ddisgrifir ym mharagraffau 6.6.8 - 6.6.9 fel rhan o'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

9.58 Dylid ymgymryd ag asesiad llawn o'r dirwedd ac amwynderau gweledol ar gyfer cyfleuster Parcio a Theithio Dalar Hir sy'n ystyried camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu cyfleuster hwn a'r effaith ar yr holl dderbynyddion sensitif a restrir yn Nhablau 6-6 a 6-7, yn ogystal â'r AHNE, preswylwyr mewn eiddo o gwmpas y safle, beicwyr ar Lwybr Beicio Cenedlaethol 8 (Lôn Las Cymru) Sustrans sy'n rhedeg ar hyd ffordd fechan tua 300m i'r de o'r safle a defnyddwyr y Ganolfan Cartio gerllaw ym Mryngoleu.

9.59 Nid yw ecoleg yn cael ei nodi fel derbynnydd yn Nhablau 6-6 a 6-7 ac nid oes cyfeiriad at unrhyw newid mewn effeithiau ecolegol. Mae rhywogaethau gwarchodedig ar y safle a gerllaw y mae angen eu hystyried, mae gosodiad y cynllun wedi newid ac mae parth gwarchod ecolegol yn cael ei gynnig. Mae angen rhagor o eglurhad ynghylch a yw effeithiau ecolegol yn debygol o fod yr un fath neu'n wahanol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

**Canolfan Logisteg Parc Cybi**

9.60 Gellid datblygu safle ehangach Parc Cybi yn y dyfodol ar gyfer defnydd cymysg (yn unol â'r caniatâd ym mis Mawrth 2005) ac nid yn unig ar gyfer defnydd diwydiannol, ac mae'r safle ar dir uchel ac yn weladwy o dirwedd yr AHNE o gwmpas, o'r B4545 a'r cwrs golff i'r de-orllewin, o lwybr Beicio Lôn Trefignath yn union i'r de o'r safle ac o ardaloedd preswyl cyfagos. Gan hynny, nid yw'n briodol i'r gwaith ar y ffiniau gynnwys dim ond ffin glaswellt cul a ffens ddiogelwch paneli rhwyllog uchel 2.4m.

9.61 Argymhellir y dylai'r waliau cerrig presennol a'r coetir gael eu hymestyn o amgylch tair ffin arall y safle (na fyddai'n cuddio'r llinell olwg rhwng y siambr gladdu a'r maen hir) i sgrinio'r cerbydau nwyddau trwm a fydd wedi parcio a strwythurau eraill ar y safle rhag y dirwedd sensitif a'r derbynyddion gweledol a threftadaeth ddiwylliannol o'u hamgylch.

9.62 Yn ychwanegol at byllau (i'r gorllewin a'r gogledd-ddwyrain o'r safle) a siambr gladdu Trefignath (i'r dwyrain), mae yna hefyd frigiad creigiog o fewn ac yn agos at gornel ddeheuol y safle, coetir collddail bach aeddfed yng nghornel orllewinol y safle, waliau cerrig ar hyd y ffin dde-orllewinol a llinell olwg bwysig rhwng y siambr gladdu a maen hir Tŷ Mawr i'r gorllewin.

9.63 Mae'r safle hefyd yn serth iawn, gyda gostyngiad o fwy na 10m rhwng corneli deheuol a gogleddol y safle.

9.64 Dylai dyluniad a chynllun Canolfan Logisteg Parc Cybi gadw pob un o'r nodweddion ecoleg, tirwedd a threftadaeth pwysig hyn.

9.65 Fel y nodwyd uchod, mae'r safle ar lethr amlwg a bydd angen cryn dipyn o waith llenwi i ofalu bod y safle yn addas ar gyfer cerbydau nwyddau trwm. Byddai mewnlenwi'r safle yn arwain at lethr serth ochr yn ochr â'r A55 a dylid ystyried plannu coetir ar y llethr hwn.

9.66 Nodir ym mharagraff 6.5.5 na ragwelir y bydd unrhyw symudiad o ddeunyddiau adeiladu rhwng Ardal Datblygu Wylfa Newydd a safleoedd eraill y Prosiect. Fodd bynnag, os caiff safle Parc Cybi ei ddatblygu, yna gall fod yn briodol defnyddio rhywfaint o'r deunyddiau dros ben o Ardal Datblygu Wylfa Newydd i wneud iawn i lefelu'r safle hwn (yn amodol ar addasrwydd deunyddiau, cludiant ac effeithiau amgylcheddol eraill).

9.67 Dylid ymgymryd ag asesiad llawn o'r dirwedd ac amwynderau gweledol ar gyfer Canolfan Logisteg Parc Cybi, sy'n ystyried y cam adeiladu (gan gynnwys effeithiau mewnforio'r deunyddiau sydd eu hangen i wneud iawn drwy lefelu'r safle), camau gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster hwn, gyda mesurau lliniaru i gynnwys cadw a gwella'r nodweddion terfyn presennol ac asesu'r effeithiau ar yr holl dderbynyddion sensitif a restrir yn PAC2 a PAC3.

9.68 Unwaith eto, nid yw ecoleg yn cael ei nodi fel derbynnydd yn Nhablau 6-9 a 6-10 ac nid oes cyfeiriad at unrhyw newid mewn effeithiau ecolegol. Mae gosodiad y cynllun wedi newid, ac mae angen rhagor o eglurhad ynghylch a yw effeithiau ecolegol yn debygol o fod yr un fath neu'n wahanol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

9.69 O safbwynt Archeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol, nid yw'r effeithiau hyn ar y lleoliadau wedi cael eu hystyried yn ddigonol. Nid amwynder gweledol yn unig yw gosod (er bod hyn yn agwedd bwysig ar osod - yn enwedig y golygfeydd rhwng yr henebion yn yr achos hwn). Yn ogystal, mae angen ystyried yn briodol effaith Canolfan Logisteg Parc Cybi, gan gynnwys symudiadau cerbydau nwyddau trwm, goleuadau, ac ati, ar leoliadau'r siambr gladdu a maen hir Tŷ Mawr, yn ogystal â'r llinell olwg bwysig rhwng y ddau Ased Treftadaeth hyn.

9.70 Dylai'r ailasesiad hwn o effeithiau Canolfan Logisteg Parc Cybi ar gyd-destun Asedau Hanesyddol gael ei gynnal yn unol â chanllawiau newydd Cadw, ac mae angen cynnwys mesurau i liniaru effeithiau a gwella cyd-destun gweledol yr henebion hyn mewn dyluniadau a chynlluniau lliniaru yn y dyfodol.

**<u>Gwaith Priffyrdd ar yr A5025</u>**

**Gwelliannau Ar Lein i'r Briffordd**

9.71 Mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol drafft ar gyfer y Gwelliannau i ffordd bresennol yr A5025, a hoffai i'w holl sylwadau ac awgrymiadau ar newidiadau a gwelliannau priodol i waith ar derfynau ar ochr y ffordd, plannu o amgylch y pyllau setlo a'i bryderon ynghylch dargyfeirio a chroesfannau'r A5025 â Llwybrau Beicio Cenedlaethol 5 a 566 Sustrans gael eu hystyried yn y Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol a gaiff ei gyflwyno gyda'r cais Deddf Cynllunio Gwlad a Thref ar gyfer y gwaith hwn.

**Gwelliannau Oddi Ar Lein i'r Briffordd**

9.72 Byddai'r Cyngor yn croesawu'r cyfle i drafod y gwaith priodol ar y ffiniau ar hyd y rhannau newydd o'r A5025 ac i wneud sylwadau ar uwchgynlluniau'r dirwedd, rhestrau o rywogaethau, gwelliannau ecolegol, llwybrau hamdden, ac ati, a gaiff eu cynnwys mewn Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol i'w gynnwys yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer y Newidiadau oddi ar ffordd bresennol yr A5025.

**Crynodeb amgylcheddol**

**Nid oes digon o fanylion ym Mhrif Ddogfen yr Ymgynghoriad i alluogi'r Cyngor i ddarparu sylwadau manwl ac ystyrlon ar y materion amgylcheddol amrywiol. Mae'r Cyngor yn nodi bod PINS wedi mynegi pryder hefyd am ddiffyg gwybodaeth yn y farn gwmpasu (2017). Mae'r diffyg manylion a hepgor adnoddau a derbynyddion amgylcheddol pwysig (gan gynnwys derbynyddion tirwedd, gweledol, ecolegol, archeolegol a threftadaeth ddiwylliannol) o'r cynlluniau'n golygu na all y Cyngor gyflwyno sylwadau ystyrlon ar sawl agwedd ar hyn o bryd. Mae Horizon wedi dweud y bydd y mesurau lliniaru niferus sy'n ofynnol yn gysylltiedig ag ardaloedd y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a Datblygiadau Cysylltiedig yn cael sylw yn y Datganiad Amgylcheddol. Nid yw'n dderbyniol mai cyflwyno'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu fydd y cyfle cyntaf i CSYM archwilio'r rhain ac mae'r dull hwn o weithredu'n creu risg y bydd y Cyngor yn dod i'r casgliad nad yw unrhyw agweddau technegol yn ddigon cadarn a gwydn. Ni ellir derbyn hyn ac felly rhaid cyflwyno gwrthwynebiad wrth archwilio'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Er mwyn lleihau'r risg hon, dylai Horizon gysylltu'n ystyrlon â'r Cyngor ac ymgyngoreion eraill yn fanwl, gyda'r holl wybodaeth sy'n angenrheidiol cyn cyflwyno'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.**

DRAFT

DRAFT

**Cymhariaeth Lefel Uchel PAC2 a PAC3**

| **Pwnc /Thema /Safle** | **Safle PAC 2 Horizon** | **Safle PAC 3 Horizon** | **Sylwadau CSYM** | **COG** |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y Gweithwyr Adeiladu** | 1. 10,750 o weithwyr ar y cyfnod prysuraf (2022)<br>2. Gweithwyr a fydd yn byw gartref 2,700 (25%)<br>3. Gweithwyr na fyddant yn byw gartref 8,000 | 1. 9,000 o weithwyr ar y cyfnod prysuraf (2023)<br>2. Gweithwyr a fydd yn byw gartref 2,000 (22%)<br>3. Gweithwyr na fyddant yn byw gartref 7,000 | 1. Mae CSYM yn gofyn am y cyfiawnhad ynghylch pam mae nifer y gweithwyr a fydd yn byw gartref wedi cael ei leihau. Mae hi'n annerbyniol bod nifer y swyddi adeiladu ar gyfer pobl leol wedi disgyn o ran niferoedd a chanrannau<br>2. Nid oes dim cyfiawnhad i bennu pam na all y ffigur a'r ganran ar gyfer cyflogaeth leol fod yn uwch a bod hyn yn cael ei gefnogi gan fwy o ymrwymiad at hyfforddi ac arfogi'r bobl leol i fod yn rhan o'r gronfa lafur.<br>3. Bydd CSYM yn parhau i weithio gyda Pŵer Niwclear Horizon i gynyddu nifer y gweithwyr a fydd yn byw gartref.<br>4. Mae CSYM yn nodi mai ardal teithio i'r gwaith 90 munud 90 Horizon ydy'r ardal byw gartref. Fodd bynnag, ac ystyried mai Ynys Môn ydy'r ardal sy'n cynnal y prosiect mae disgwyl y bydd cyfran uwch o'r gweithwyr sy'n byw gartref o Ynys Môn yn hytrach na'u bod ar wasgar ar draws y rhanbarth ehangach.<br>5. Er gwaethaf nifer o geisiadau nid ydy Horizon ond wedi darparu dadansoddiad lefel uchel o'r mathau o swyddi a masnachau. Mae angen dadansoddi hyn yn ôl rolau a lefel sgiliau manylach a hyd y contractau.<br>6. Mae PAC3 yn canolbwyntio ar fanylion nifer y gweithwyr yn ystod y cyfnod prysuraf – nid oes dim gwybodaeth wedi cael ei darparu am ddadleoli /athreuliad llafur dros oes y prosiect. | |
| **Llety'r Gweithwyr Adeiladu** | **Safleoedd**<br>1. Opsiwn Land & Lakes i letya 3,500 o weithwyr.<br>2. Fferm Madyn (Tai Parhaol i'r Dyfodol) 200 o weithwyr.<br>3. Rhosgoch yn cael ei gydnabod fel 'safle ategol' ar gyfer 1,500 o weithwyr.<br>4. Opsiwn A a B Amlwch i letya 800 o weithwyr.<br>5. 500 o 'weithwyr allweddol hanfodol' i'w lletya ar y safle. | **Safleoedd**<br>1. Hyd at 4,000 ar y safle mewn Llety Gweithwyr Dros Dro.<br>2. Dim safleoedd eraill yn cael eu hystyried ar gyfer Llety Gweithwyr Dros Dro.<br>3. Rŵan yn cyfeirio at Lety Gweithwyr Dros Dro fel 'Campws y Safle'. | 1. Nid ydy ymgynghoriad PAC3 yn cynnwys y manylion am y Llety Gweithwyr Dros Dro sydd eu hangen er mwyn i CSYM roi ymateb ar sail gwybodaeth. Ni roddwyd dim cyfiawnhad dros y cynnydd mewn llety i weithwyr adeiladu ar y safle o 500 i 4,000.<br>2. Mae Cynllun Rheoli Gweithwyr manwl yn hanfodol er mwyn cyfrannu at Asesiad o'r Effaith Gymunedol fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ehangach. Mae angen hyn er mwyn i'r Cyngor lunio barn resymegol ynghylch y cynnig a'i effeithiau a'r mesurau lliniaru.<br>3. Os eir ar drywydd y dull gweithredu Llety Gweithwyr Dros Dro ar y safle mae CSYM yn mynnu bod y Llety Gweithwyr Dros Dro ar gael | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | o ddechrau'r prosiect (drwy gael ei adeiladu mewn blociau o 250 – 500 yn ôl yr angen).<br>4. Mae'r diffyg manylion a thystiolaeth ynghylch effeithiau'r Llety Gweithwyr Dros Dro yn cryfhau'r gofyniad am Gronfa Gwytnwch Cymunedol er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau nad oes modd eu mesur neu nad oes modd eu rhagweld.<br>5. Rhaid i CSYM gael rhagor o fanylion am y Gronfa Dai arfaethedig a sut gellid defnyddio hon i liniaru'r effeithiau niweidiol ar dai a llety sydd eisoes ar gael. | |
| | **Sector Llety**<br>1. 2,700 yn byw gartref<br>2. 730 yn prynu eu heiddo eu hunain<br>3. 1,100 yn y Sector Rhentu Preifat<br>4. 400 mewn llety cudd<br>5. 1,100 mewn twristiaeth<br>6. 4,700 'o stoc newydd ei angen' (Llety Gweithwyr Dros Dro)<br>*7.* ***Cyfanswm 11,000*** | **Sector Llety**<br>1. 2,000 yn byw gartref<br>2. 600 yn prynu eu heiddo eu hunain<br>3. 900 yn y Sector Rhentu Preifat<br>4. 400 mewn llety cudd<br>5. 1,100 mewn twristiaeth (650 mewn carafanau)<br>6. 4,000 mewn Llety Gweithwyr Dros Dro ar y safle<br>*7.* ***Cyfanswm 9,000*** | 1. Mae CSYM yn poeni bod nifer y gweithwyr mewn llety sydd eisoes ar gael wedi aros yn weddol gyson ers PAC2, er gwaethaf y gostyngiad sylweddol yn nifer y gweithwyr adeiladu. Mae CSYM yn credu y dylai nifer y gweithwyr adeiladu mewn llety sydd eisoes ar gael gael ei ***gwtogi ymhellach*** er mwyn lleihau'r effeithiau ar sectorau llety sydd eisoes ar gael (yn enwedig twristiaeth a'r Sector Rhentu Preifat) ac mae'n gofyn am y cyfiawnhad/tystiolaeth ynghylch pam nad yw'r nifer hwn wedi cael ei gwtogi. Nid ydy CSYM yn derbyn y ffigurau capasiti sydd wedi'u nodi gan Horizon ar gyfer llety sydd eisoes ar gael. Mae tystiolaeth CSYM yn dangos bod capasiti cyfyngedig yn y sectorau llety hyn a heb gamau lliniaru sylweddol i gynyddu'r cyflenwad, bydd Wylfa Newydd yn cael effaith niweidiol sylweddol ar sector dai Ynys Môn.<br>2. Mae gostyngiad o 700 yn nifer y gweithwyr sy'n byw gartref a 700 yn nifer y gweithwyr mewn Llety Gweithwyr Dros dro ers PAC 2 yn golygu bod y nifer mewn llety sydd eisoes ar gael ond wedi disgyn 600 ers PAC2.<br>3. Dylai defnyddio llety gweithwyr fel rhan o'r stoc llety twristiaeth fod yn seiliedig ar arolygon CSYM o welyau sy'n mesur nifer y gweithredwyr sy'n fodlon gosod llety ar gyfer gweithwyr. Mae gwallau sylfaenol yn null Horizon o ddefnyddio cyfradd meddiannu fel sail ar gyfer dod o hyd i'r llety sydd ar gael, oherwydd ni fydd ar rai gweithredwyr eisiau darparu llety i weithwyr adeiladu.<br>4. Mae CSYM yn cydnabod efallai y bydd angen rhywfaint o gapasiti i weithwyr adeiladu dros dro aros mewn carafanau, fodd bynnag, rydyn ni'n | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | pryderu o ran nifer, lleoliad a rheoli/gorfodi safleoedd o'r fath. Fel y nodwyd gan y SoS yn y Farn Gwmpasu Gorchymyn Cydsyniad Datblygu diweddar (adran 3.106) dylai Horizon ystyried yr effeithiau ar lety twristiaeth (yn enwedig carafanau a chyfleusterau gwely a brecwast) yn eu ES. | |
| | **Dosbarthiad Gofodol (mewn llety sydd eisoes yn bodoli)**<br>1. Gogledd Ynys Môn 1,218<br>2. De Ynys Môn 661<br>3. Gorllewin Ynys Môn 933<br>4. Tir Mawr Menai 508<br>*5. **Cyfanswm 3,320*** | **Dosbarthiad Gofodol (mewn llety sydd eisoes yn bodoli)**<br>1. Gogledd Ynys Môn 1,032<br>2. De Ynys Môn 636<br>3. Gorllewin Ynys Môn 892<br>4. Tir Mawr Menai 441<br>*5. **Cyfanswm 3,000*** | 1. Mae canoli gweithwyr yng Ngogledd Ynys Môn yn bryder enfawr (4,000 mewn Llety Gweithwyr Dros Dro a 1,032 mewn llety sydd eisoes ar gael) ac nid ydy CSYM wedi cael y dystiolaeth/asesiadau o'r effaith perthnasol er mwyn deall effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd posibl y newid sylfaenol hwn yn strategaeth Horizon.<br>2. Mae'r Cyngor yn gweld rôl y CWAMS arfaethedig fel rhywbeth hanfodol er mwyn cofrestru gweithwyr a'r gwahanol fathau o lety a'u dyraniad – yn enwedig ar sail ofodol er mwyn sicrhau na eir dros y capasiti.<br>3. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r diffyg cyfiawnhad/tystiolaeth yn cyfrannu at y gofyniad i gael Cronfa Gwytnwch Cymunedol er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau anhysbys neu nad oes modd eu mesur. | |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Cludo Pobl)** | **Parcio**<br>1. 2,700 o lefydd parcio yn Dalar Hir<br>2. 500 o lefydd parcio ar y safle (hyd at 1,000 wrth adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio).<br>3. 1,100 o lefydd parcio yn Rhosgoch (Llety Gweithwyr Dros Dro)<br>4. 1,000 o lefydd gan Land & Lakes<br>5. Dim anogaeth / cymhellion i rannu ceir.<br>6. Dim safleoedd parcio a rhannu lloeren yn cael eu cynnig.<br>7. Dalar Hir yn cael ei fwriadu ar gyfer y rheini a fydd yn teithio bob dydd. | **Parcio**<br>1. Lleihau Dalar Hir o 2,700 o lefydd i 1,900.<br>2. Cynyddu'r nifer ar y safle o 1,000 (neu 500) i 1,900.<br>3. Dim parcio arall yn cael ei ddarparu.<br>4. Byddai Dalar Hir yn cael ei ddefnyddio 'yn rhannol fel parcio tymor hir ar gyfer cyfran o weithwyr yng nghampws y safle' – serch hynny nid oes dim manylion.<br>5. Cymhareb rhannu ceir cyfartalog o 1.2 o leiaf (gyda dyhead o 1.5).<br>6. Disgwylir 1,200 yn rhagor o symudiadau ceir fesul diwrnod i'r safle (600 o geir yn cyrraedd ac yn gadael bob dydd). Mae'r cynnydd mewn 600 o symudiadau ceir bob dydd yn deillio o gynnydd o 500 o lefydd parcio ceir yn Safle'r Orsaf Bŵer i 1,100 yn ystod y cam adeiladu.<br>7. Er nad yw'n cael ei ddatgan yn PAC3, mewn casgliad mae Horizon yn disgwyl y bydd 800 o lefydd parcio ar y safle i weithwyr a fydd yn byw yng nghampws y safle (hy i gyrraedd y cyfanswm o 1,900). | 1. Mae CSYM yn glynu wrth ei safbwynt ers PAC2 ac ni ystyrir bod Dalar Hir yn lleoliad addas ar gyfer cyfleuster Parcio a Theithio. Nid oes dim cyfiawnhad ychwanegol yn PAC3 i wneud i CSYM newid ei feddwl.<br>2. Mae hyn yn galw am gynllun rheoli trafnidiaeth cynhwysfawr er mwyn fframio ystyriaethau pob cynnig a'r effeithiau ar gymunedau penodol. Rhaid cael yr wybodaeth hon ar frys.<br>3. Mae CSYM yn credu y dylai'r ddarpariaeth parcio yn y prif safle parcio a theithio aros gyda 2,700 o lefydd.<br>4. Fel rhan o'r strategaeth rheoli gweithwyr adeiladu ar y safle, mae CSYM yn gofyn y dylai'r rheini sydd yn byw ar y safle barcio yn y lleoliad Parcio a Theithio dros gyfnod eu harhosiad.<br>5. Mae hi'n hanfodol bod nifer o gyfleusterau parcio a rhannu lloeren ar gael mewn trefi a phentrefi allweddol ar draws yr Ynys ar gyfer y gweithwyr a fydd yn byw gartref a'r rheini na fyddant yn byw gartref ond a fydd yn byw mewn llety sydd eisoes ar gael. Bydd CSYM yn gofyn am hyn drwy'r cytundeb adran 106.<br>6. Mae CSYM (ar y cyd â Llywodraeth Cymru) yn awyddus i weithio gyda Horizon i ddod o hyd i | |

DRAFFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | safleoedd addas ar gyfer parcio a theithio / parcio a rhannu. | |
| | **Rhannu Ceir / Trafnidiaeth Gynaliadwy**<br>1. Nid oedd rhannu ceir yn cael sylw amlwg yn PAC2. | **Rhannu Ceir / Trafnidiaeth Gynaliadwy**<br><br>2. Mae Horizon rŵan yn hybu rhannu ceir a bydd yn rhoi cymhellion am wneud hynny. O leiaf 3 o weithwyr fesul car i barcio ar y safle, ***ond dim ond yn ystod y flwyddyn brysuraf***.<br>3. Dim safleoedd parcio a rhannu lloeren yn cael eu cynnig.<br>4. Bydd y dull gweithredu rhannu ceir yn cael ei hwyluso drwy ***gronfa ddata ar y we*** a ***rhaglen symudol*** i gyfateb gweithwyr sy'n byw yn agos ac sydd ar shifftiau tebyg.<br>5. Bydd rheoli a gorfodi parcio yn cael ei ddatblygu i leihau'r effeithiau ar drigolion lleol ac 'atal parcio ym mhob man'.<br>6. Mae Horizon yn anelu am ffactor rhannu ceir o ddau weithiwr fesul car ar draws y Prosiect. Maen nhw'n honni bod hyn yn cyd-fynd â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol tebyg.<br>7. Nid yw Horizon rŵan yn cynnig darparu bysiau gwennol o orsafoedd trenau (oherwydd llai o alw).<br>8. Llai o fysiau gwennol ar hyd yr A5025 (i'r Dwyrain ac i'r Gorllewin) oherwydd 'llai o alw'. 25 o fysiau gwennol dyddiol i'r Gogledd (a ddylai hyn fod yn i'r Dwyrain?) ac 20 o fysiau gwennol dyddiol ar hyd yr A5025 i'r Gorllewin. | 1. Mae CSYM yn croesawu'r bwriad i hybu a chymell rhannu ceir. Mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen ers PAC2, fodd bynnag, dim ond un fenter ydy hon mewn cynllun trafnidiaeth gynaliadwy – mae angen i Horizon ddarparu manylion y cynllun hwn.<br>2. Fodd bynnag nid ydy CSYM wedi cael y strategaeth rheoli gweithwyr i ddeall sut byddai hyn yn cael ei orfodi sy'n annerbyniol.<br>3. Mae CSYM yn credu mai dim ond ceir sydd ag o leiaf 3 o weithwyr ym mhob car ddylai gael parcio ar y safle drwy gydol y cyfnod adeiladu os eir ar drywydd Llety Gweithwyr Dros Dro ar y safle.<br>4. Er mwyn lliniaru canlyniadau posibl hyn (hy gweithwyr yn parcio'n anghyfreithlon mewn cilfannau a lleoliadau trafferthus eraill heb eu dynodi) mae CSYM yn credu bod angen nifer o gyfleusterau parcio a rhannu lloeren mewn trefi a phentrefi allweddol ar draws yr Ynys<br>5. Mae CSYM yn awyddus i weithio gyda Horizon i ddod o hyd i gyfleusterau parcio a theithio/parcio a rhannu addas. Nid ydy'r gymhareb gyfartalog sy'n cael ei thybio gan Horizon sef 2:1 yn realistig heb gyfleusterau i hyrwyddo hyn yn weithredol.<br>6. Mae'r gronfa ddata ar y we a'r rhaglen symudol yn syniad da ar bapur. Fodd bynnag, wrth ystyried natur wledig Ynys Môn, amodau'r tywydd a'r shifftiau bore cynnar, bydd gweithwyr yn gyrru i gwrdd mewn un lleoliad (hy parcio a rhannu).<br>7. Ar ben hynny, ac ystyried yr athreuliad gweithlu, nid yw'n debyg y bydd gweithwyr yn rhannu â'r un bobl wythnos ar ôl wythnos sy'n golygu y bydd hi'n anodd hyrwyddo a rheoli hyn.<br>8. Pa fesurau sydd yna i atal gweithwyr rhag cwrdd yn Dalar Hir a gyrru i'r safle mewn un car (sy'n gynt o lawer na bws)?<br>9. Bydd lleoliad y cyfleuster parcio a theithio (a chyfleuster parcio a rhannu) yn effeithio ar le mae ar weithwyr eisiau byw. Nid ydy CSYM yn credu bod y gydberthynas hon wedi cael ei phwyso a'i mesur yn briodol fel rhan o'r Model Disgyrchiant. | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Cludo Deunyddiau)** | **Morol**<br>Byddai angen nifer o gydrannau Prosiect Wylfa Newydd yn yr amgylchedd morol er mwyn cefnogi adeiladu a gweithredu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd:<br>1. morglawdd gogledd orllewinol ar gyfer y system dŵr oeri ym Mhorth-y-pistyll, a fyddai'n cael ei dynnu oddi wrth lan ar ôl gorffen yr adeiladu;<br>2. morglawdd gogledd-ddwyreiniol ar gyfer y system dŵr oeri ym Mhorth-y-pistyll, a fyddai'n cael ei gysylltu â'r lan;<br>3. strwythur sugno'r system dŵr oeri ym Mhorth-y-pistyll, gyda rhwystr cysylltiedig i ddiogelu llongau;<br>4. Cyfleuster Dadlwytho Morol wrth ymyl morglawdd gogledd-ddwyreiniol y system dŵr oeri, a fyddai'n cynnwys dau gei ar wahân. Byddai un cei yn caniatáu gyrru Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin, offer a chyfarpar mawr oddi ar y<br>5. llongau (o'r enw cei Rolio ymlaen/Rolio i ffwrdd), a byddai'r llall yn golygu bod modd codi deunyddiau mawr i'r lan drwy ddefnyddio craen (y cei deunyddiau swmpus); a<br>6. seilwaith gollwng y system dŵr oeri i'r gorllewin o Drwyn Wylfa.<br><br>**Deunyddiau**<br>7. 5.5 miliwn tunnell i gael ei gludo i Ynys Môn ac oddi yno yn ystod y cam adeiladu er mwyn cefnogi adeiladu'r Orsaf Bŵer, y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, Datblygiadau Cysylltiedig a gwaith y Newidiadau i'r Briffordd<br>8. Mae Horizon yn amcangyfrif y byddai rhwng 60% a 80% o'r holl ddeunyddiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu Prosiect Wylfa Newydd yn cael ei ddanfon dros y môr, drwy ddefnyddio'r Cyfleuster Dadlwytho Morol<br>9. Mae Horizon wedi asesu sefyllfa waethaf o ddanfon 40% o'r nwyddau ar hyd y ffyrdd<br>a. Deunyddiau swmpus: 4.4m tunnell 80% dros y môr 20% ar y ffyrdd<br>b. Deunyddiau cyffredin: 685,000 tunnell 100% ar y ffyrdd<br>c. Nwyddau mewn cynhwysyddion: 72,000 tunnell 100% ar y ffyrdd<br>d. Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin 42,000 tunnell 100% dros y môr | **Morol**<br>1. Mae hyd y Morglawdd Dwyreiniol rŵan wedi cynyddu tua 60m ac mae cyfanswm ei hyd rŵan tua 150m.<br>2. Mae hyd y Morglawdd Gorllewinol rŵan hyd at 50m yn llai, mae cyfanswm ei hyd rŵan tua 500m. Mae'r morglawdd hwn hefyd wedi symud tua 20<br>3. metr i'r gorllewin (ymhellach allan i'r môr).<br>4. mae dull carthu lled-sych rŵan yn cael ei ffafrio oherwydd ei fod yn lleihau faint o ddeunydd bydd angen ei gloddio o dan y dŵr, yn osgoi'r angen am<br>5. ffrwydro o dan y dŵr, ac mae'n gwella diogelwch a rheolaeth gweithgareddau adeiladu<br>6. Mae dyluniad y Cyfleuster Dadlwytho Morol rŵan yn darparu dau lwyfan (gyda thri chei) gyda sawl bwi angori, yn hytrach nag un wal cei hir. Mae'r newidiadau yn cynyddu capasiti delio â chargo'r Cyfleuster Dadlwytho Morol a lleihau faint o gloddio gwely'r môr sydd ei angen.<br>7. Byddai symudiadau llongau'n cynyddu o oddeutu 48 y mis i oddeutu 55 y mis.<br>**Deunyddiau**<br>8. Dim newidiadau o ran faint o ddeunyddiau fydd eu hangen i adeiladu'r Orsaf Bŵer, y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, y Datblygiadau Cysylltiedig a'r gwaith Newidiadau i'r Brifordd<br>9. Dim newid i'r ganran o ddeunyddiau a fydd yn cael eu danfon dros y môr i'r Cyfleuster Dadlwytho Morol<br>10. Dim newid i'r sefyllfa waethaf o'r nwyddau a fydd yn cael eu cludo ar y ffyrdd a aseswyd<br>11. 40 o deithiau cerbydau nwyddau trwm yr awr ar hyd yr A5025 rhwng 07:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener<br>12. Nifer is o nwyddau'n cael eu danfon ar foreau Sadwrn a niferoedd isel iawn o gerbydau nwyddau trwm ar adegau eraill<br>13. Cludo pob Llwyth Anwahanadwy Anghyffredin dros y môr<br>14. Dim newid mewn teithiau danfon gweithredol<br>15. Deunyddiau swmpus: 4.2m tunnell 80% dros y môr 20% ar y ffyrdd<br>16. Deunyddiau cyffredin: 1,075,000 tunnell 100% ar y ffyrdd<br>17. Nwyddau mewn cynhwysyddion: 63,000 tunnell 100% ar y ffyrdd<br>18. Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin 52,000 tunnell 100% dros y môr<br>19. Gwastraff 175,000 tunnell 100% ar y ffyrdd. Mae swmp y deunyddiau adeiladu wedi cynyddu tua 0.2 | 1. Nid oes gan CSYM unrhyw wrthwynebiad i ddarparu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol ac mae'n cefnogi cynyddu faint o ddeunyddiau y bydd modd eu cludo drwy ddefnyddio'r cyfleusterau<br>2. Y prif fater yw hyd y cyfnod ar gyfer adeiladu a darparu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol wrth gymharu â faint o ddeunyddiau ac offer fydd angen eu cludo i'r safle. Mae CSYM yn gofyn am esboniad a sicrwydd gan Horizon y bydd y Cyfleuster Dadlwytho Morol yn weithredol erbyn 2021 mewn da bryd ar gyfer y prif waith adeiladu a pha fesurau lliniaru sy'n cael eu hystyried ar gyfer unrhyw oedi. Mae hefyd angen rhagor o fanylion ynghylch faint o ddeunyddiau adeiladu mae disgwyl iddynt gael eu cludo i'r safle wrth i'r Cyfleuster Dadlwytho Morol gael ei adeiladu. Mae unrhyw ddefnydd o'r A5025 fel opsiwn wrth gefn yn gwbl annerbyniol heb gytuno ar becyn lliniaru priodol ar gyfer effeithiau defnydd o'r fath.<br>3. Mae CSYM yn gofyn am ddealltwriaeth well o'r rhaglen adeiladu, er mwyn asesu effeithiau a chyfleoedd y Cyfleuster Dadlwytho Morol, yn yr un modd â'r holl Ddatblygiadau Cysylltiedig er mwyn deall yr effeithiau cronnus ac ymateb yn briodol.<br>4. Mae'r Cyngor yn gofyn am fanylion dewisiadau amgen i'r Cyfleuster Dadlwytho Morol yn ystod amodau tywydd a llanw gwael fel defnyddio Porthladd Caergybi a goblygiadau symudiadau cerbydau nwyddau trwm ychwanegol.<br>5. Mae CSYM yn gofyn bod y cynllun rheoli traffig yn dangos dealltwriaeth well o'r symudiadau cerbydau rhwng dechrau'r cam adeiladu a diwedd 2021 a sut byddai'r symudiadau hyn yn digwydd ar yr un pryd â gwaith y safle Parcio a Theithio, y newidiadau a'r gwelliannau i'r A5025 a cyn adeiladu'r campws ar y safle<br>6. Bydd angen i CSYM ystyried cyfyngiadau ar nifer y symudiadau cerbydau nwyddau trwm, Bysiau a Cheir cyn i elfennau allweddol o'r Datblygiadau Cysylltiedig gael eu rhoi ar waith. Os ydy Horizon yn dymuno cael cydsyniad heb gyfyngiad yna bydd yn rhaid ystyried y cais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ar sail y sefyllfa waethaf | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | e. Gwastraff 125,000 tunnell 100% ar y ffyrdd | miliwn tunnell i oddeutu 5.5 miliwn tunnell dros oes y cyfnod adeiladu.<br>20. Bydd yr holl ddeunyddiau a fydd yn cael eu cloddio yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd rŵan yn cael eu cadw yn yr ardal hon, mae rŵan disgwyl y bydd tua 50,000 tunnell yn fwy o ddeunydd gwastraff adeiladu yn cael ei gynhyrchu. Mae disgwyl rŵan y bydd tua 200,000 tunnell yn llai o goncrit yn cael ei gynhyrchu o ganlyniad i optimeiddio dyluniad yr unedau adweithydd niwclear<br>21. Mae'n ymddangos bod y tunelli a ddisgwylir o ddeunyddiau cyffredin wedi cynyddu tua 50% ers yr ymgynghoriad blaenorol, mae hyn oherwydd cynnwys Datblygiadau Cysylltiedig a Chyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn y ffigurau am y tro cyntaf | | |
| **Cydsyniad** | ***Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd***<br>1. Elfennau ar y tir yr Orsaf Bŵer, gan gynnwys y Prif Offer, yr Offer Cyffredin a'r adeiladau cefnogol<br>• Adeiladu a thirweddu'r Orsaf Bŵer, gan gynnwys:<br>2. cau Ffordd Cemlyn;<br>3. cynigion draenio; a<br>4. gwaith llwybrau troed parhaol<br>• Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer<br>• Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer<br>5. Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen;<br>6. Labordy Arolygon Amgylcheddol; a<br>7. Garej Offer Argyfwng Symudol.<br>• Llety Gweithwyr Dros Dro wrth ymyl Safle'r Orsaf Bŵer, yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, ar gyfer y gweithwyr adeiladu a fydd yn gwneud tasgau hanfodol<br><br>***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref***<br>2. Gwaith Galluogi: Gwaith paratoi a chlirio'r safle yn<br>3. Safle'r Orsaf Bŵer a'r ardal gyfagos<br>4. Disodli'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen a'r Labordy Arolygon Ardal ar gyfer yr Orsaf Bŵer Bresennol (ar ran Magnox Limited)<br>5. Gwelliannau i Brifffordd yr A5025<br>6. Newidiadau i Brifffordd yr A5025<br>7. Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro<br>8. Pwrpasol (Oddi ar y Safle) | ***Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd***<br>1. Mae Horizon rŵan yn cynnig gwneud cais am y rhan fwyaf o gydrannau'r Prosiect drwy'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu<br><br>2. Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd a'r gwaith cysylltiedig gan gynnwys cysylltiad trydanol ag is-orsaf y National Grid;<br>3. Cyfleuster Dadlwytho Morol a morgloddiau;<br>4. Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, a fydd yn cynnwys y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol, a Garej Offer Argyfwng Symudol;<br>5. Campws Safle dros dro (4000 o welyau);<br>6. Cyfleuster Parcio a Theithio dros dro yn Dalar Hir;<br>7. Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi; a,<br>8. Newidiadau i Brifffordd yr A5025 sy'n cynnwys:<br>9. rhwng yr A5 i'r dwyrain o Gyffordd y Fali ac i'r gogledd o Gyffordd y Fali (A5/A5025);<br>10. rhwng i'r gogledd o Lanynghenedl ac i'r gogledd o Lanfachraeth;<br>11. rhwng i'r de o Lanfaethlu ac i'r gogledd o Lanfaethlu;<br>12. rhwng i'r gogledd o Lanrhuddlad ac i'r gogledd o Gefn Coch; ac<br>13. rhwng i'r gogledd o Gefn Coch ac i Gyffordd Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer.<br>14. Mae cynnig Horizon yn cynnwys cyfleuster storio gwastraff ymbelydrol lefel ganolradd sydd heb newid ers yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau. Fodd bynnag, rydyn ni rŵan yn cynnig un cyfleuster storfa gyfun ar gyfer tanwydd sydd wedi'i ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol lefel uchel, a fydd yn cael ei | 1. Un o'r newidiadau mwyaf sylweddol a sylfaenol rhwng PAC2 a PAC3 ydy'r newid yn strategaeth cydsyniad Horizon. Gyda Deddf Cymru 2017 yn cael cydsyniad brenhinol ym mis Ionawr 2017, mae rŵan modd cynnwys datblygiadau cysylltiedig (ee parcio a theithio, llety gweithwyr adeiladu ac yn y blaen) yn y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.<br>2. Mae'r diffyg manylion a thrafodaethau ac ymgysylltu cyn ymgeisio hyd yma ynghylch symud y cyn ddatblygiadau cysylltiedig i'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn annerbyniol. Yn benodol, mae'r newid o lety i 500 o weithwyr dros dro ar y safle i lety i 4,000 yn newid sylfaenol a sylweddol i'r prosiect ac ni ymgynghorwyd yn ddigonol ar hyn yn ystod y cam cyn ymgynghori. PAC3 ydy'r cyfle cyntaf mae CSYM ac eraill wedi'i gael i roi sylw ar y Llety Gweithwyr Dros Dro ar gyfer 4,000 o weithwyr. Mae'r diffyg manylion ac asesiadau o'r effaith yn PAC3 yn annerbyniol gan na fydd CSYM na'r cyhoedd yn gweld y manylion hyn nes i'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu gael ei gyflwyno, mae hyn yn mynd yn gwbl groes i'r dull gweithredu llwytho ar y blaen mae'r drefn Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn ei fynnu.<br>3. Mae hyn yn hollol annerbyniol oherwydd nad ydy CSYM nac eraill yn gallu asesu'r effeithiau posibl yn llawn na gwneud penderfyniad rhesymegol ar sail gwybodaeth ynghylch y cynigion. Felly ni all CSYM wneud sylwadau pendant ar y cam hwn, ac mae'n cadw'r hawl i gyflwyno rhagor o sylwadau ar y cam Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 9. Cyfleusterau Parcio a Theithio ar gyfer gweithwyr adeiladu<br>10. Canolfan Logisteg<br>11. Canolfan Ymwelwyr<br><br>***Trwyddedau morol*** (ynghyd â HEO posibl)<br>12. System Dŵr Oeri, morgloddiau a<br>13. Chyfleuster Dadlwytho Morol, gan gynnwys carthu<br><br>***Trwyddedau amgylcheddol*** a<br><br>14. Trwyddedau rheoleiddio, gan gynnwys Trwydded Safle Niwclear | adeiladu ac ar gael 10 mlynedd ar ôl dechrau gweithredu (2035).<br>15. Gallai gwastraff ymbelydrol aros ar Safle'r Orsaf Bŵer am hyd at oddeutu 140 o flynyddoedd ar ôl gorffen cynhyrchu trydan, er rydyn ni'n disgwyl gallu lleihau'r cyfnod hwn.<br><br>***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref***<br>16. Ceisiadau cynllunio ar wahân i Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ar gyfer y<br>17. Gwaith Paratoi a Chlirio'r Safle (cwmpas llai na PAC2) a<br>18. Gwelliannau i Briffordd yr A5025.<br><br>19. Mae hyn o ganlyniad i newidiadau mewn deddfwriaeth a fydd rŵan yn caniatáu i Horizon wneud cais am Ddatblygiadau Cysylltiedig yn ei DCO. | 4. I grynhoi, nid oes gan CSYM unrhyw wrthwynebiad i gynnwys y ceisiadau ar gyfer y datblygiadau cysylltiedig yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Fodd bynnag, mae'r diffyg manylion yn PAC3 a'r ffaith na fydd y manylion hyn yn cael eu darparu tan ar ôl cyflwyno'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu annerbyniol ac yn golygu bod y prosiect mewn perygl o beidio â chael ymgynghoriad sylweddol ac ystyrlon ynghylch yr elfennau hyn. | |
| **Yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant** | 1. Cyhoeddwyd Adroddiad Interim yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ac ymgynghorwyd yn ei gylch fel rhan o PAC2.<br>2. Nodwyd yn PAC2 i gefnogi a chyfrannu at wella'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. | 1. Bydd Horizon yn penodi Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a fydd yn goruchwylio gweithrediad y mesurau manwl a ddatblygir gyda'r Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.<br>2. Nid yw Horizon yn ymgynghori ynghylch mesurau manwl, oherwydd bydd yn rhan o rôl y Cydlynydd i gynghori a gweithredu'r rhain. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a gyflwynir gyda'r cais am y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.<br>3. Mae Rhestr o Gamau Gweithredu (gan Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg) wedi bod yn sail ar gyfer y Strategaeth ddrafft Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.<br>4. Wedi ymrwymo i sicrhau bod yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cael eu diogelu a, lle bo'n bosibl, eu gwella. Bwriedir cyflawni hyn drwy alluogi creu rhywbeth manteisiol i'r dyfodol yn lleol o ran mynediad i swyddi a'r manteision economaidd a fydd yn deillio o'r Prosiect, er mwyn annog pobl leol i aros ac i symud yn ôl i'r ardal.<br>5. Hyrwyddo defnyddio cwrteisi ieithyddol drwy'r gweithlu adeiladu i helpu i hwyluso cydlyniant cymunedol.<br>6. Eisoes yn cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg a'i diwylliant drwy gefnogi cyfres o ddigwyddiadau a mentrau lleol a hefyd drwy ymgorffori'r Gymraeg fel agwedd bwysig o fywyd gwaith, addysg a gwasanaethau cymunedol.<br>7. Yn ystod cam gweithredol y Prosiect, mae disgwyl y bydd hyd at 85% o'r gweithwyr yn weithwyr sy'n byw gartref yn lleol. Mae hyn yn uwch na'r amcangyfrif | 1. Mae'r Cyngor a Horizon yn gweld yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant fel llinyn aur, sy'n rhedeg drwy bob agwedd o'r prosiect. Felly rhaid gweld yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant fel elfen hanfodol o ffordd o fyw a lles pobl o bob oed.<br>2. Mae CSYM yn cefnogi bwriad Horizon i benodi Cydlynydd Iaith Gymraeg.<br>3. Mae hi'n hanfodol bod y Grŵp Llywio, y mae CSYM yn aelod ohono, yn ymwneud yn llawn â'r broses recriwtio. Byddai CSYM yn gofyn am gael gweld y Disgrifiad Swydd a chyfrannu ato cyn hysbysebu'r swydd.<br>4. Er bod mesurau penodol yn y Strategaeth Lliniaru a Gwella ddrafft sy'n cael ei pharatoi gan Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg Wylfa Newydd, nid oes cyfeiriad at fesurau eraill. Rhaid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod yr holl fesurau lliniaru yn cael eu diwallu.<br>5. Mae CSYM yn credu'n gryf y dylai'r Cydlynydd a benodir gael mynediad at yr arbenigedd cynllunio ieithyddol arbenigol a oedd yn hollbwysig wrth ddatblygu'r Camau Gweithredu a'r Strategaeth ddrafft, a chefnogaeth i ddefnyddio Methodoleg Asesu Risg Llywodraeth Cymru.<br>6. Mae CSYM yn nodi bod y tair thema allweddol ar gyfer y meysydd cyffredinol o ran lliniaru a gwella yn Addewid Iaith Gymraeg Horizon yn adlewyrchu 3 mas blaenoriaeth Strategaeth Iaith Gymraeg CSYM. Mae CSYM felly'n disgwyl y bydd yr aliniad hwn yn cael ei | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | blaenorol ac mae disgwyl y bydd gan hyn effeithiau manteisiol sylweddol ar hyfywedd a bywiogrwydd yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y tymor hir, yn enwedig yn Ynys Môn, a gogledd orllewin Gwynedd.<br>8. Ers PAC2, mae Horizon wedi ymgynghori i ddod o hyd i fesurau i liniaru'r effeithiau niweidiol, ac i wella effeithiau manteisiol y Prosiect ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant<br>9. Grŵp Llywio Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg gyda chadeirydd annibynnol<br>10. Ystyriaethau'r iaith Gymraeg ar gyfer y gweithlu:<br>- Ystyried gofynion iaith Gymraeg ar gyfer pob swydd<br>11. Hyfforddiant iaith Gymraeg (ar lefelau gwahanol)<br>12. Cwrteisi ieithyddol (pecynnau croeso a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith)<br>13. Cefnogi awdurdodau lleol i gynllunio gwasanaethau lleol<br>14. Byddai defnyddio Campws y Safle yn arwain at gynnydd sylweddol yn y boblogaeth leol ger cymunedau Cemaes a Thregele ac mae'n debyg o leihau cyfran y siaradwyr Cymraeg. Mae'n dibynnu'n drwm ar lefel y rhyngweithio cymunedol rhwng y gweithwyr a'r cymunedau cyfagos. | atgyfnerthu yng nghynnwys y Strategaeth derfynol ac yn ei gweithrediad.<br>7. Mae CSYM yn gwerthfawrogi bod Horizon yn derbyn y bydd y mewnlifiad o weithwyr adeiladu nad ydynt yn siarad Cymraeg yn lleihau cyfran y siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, bydd yr effaith ac felly'r camau lliniaru priodol yn dibynnu ar y nifer, eu lleoliad, graddfa'r rhyngweithio â'r cymunedau lle maen nhw'n byw a hyd eu harhosiad, nid ydy'r wybodaeth hon wedi cael ei darparu ac felly nid oes modd asesu'r effaith yn briodol.<br>8. Gallai cynnig Horizon i ddarparu llety i weithwyr adeiladu ar y safle o bosibl leihau'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae CSYM yn gofyn am fanylion y strategaeth rheoli gweithwyr er mwyn deall yn well sut bydd y gweithwyr hyn yn cael eu rheoli er mwyn asesu'r effeithiau a'r cyfleoedd cyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.<br>9. Mae CSYM yn dal yn poeni ynghylch y 3,000 o weithwyr a fydd yn aros mewn llety sydd eisoes ar gael ac unwaith eto mae'n gofyn am y strategaeth rheoli gweithwyr er mwyn deall yn well sut bydd y gweithwyr hynny'n cael eu rheoli ac er mwyn asesu'r effeithiau a'r cyfleoedd cyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.<br>10. Mae CSYM yn poeni am ddadleoliad posibl trigolion presennol o'r farchnad dai (y Sector Rhentu Preifat a pherchen-feddianwyr). Mae CSYM hefyd yn poeni am ddadleoliad posibl twristiaid o lety twristiaeth.<br>11. Mae CSYM yn croesawu Cynllun Prentisiaeth Horizon ac yn gofyn bod faint o bobl ifanc leol sy'n cael eu recriwtio yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall<br>12. Mae CSYM yn croesawu'r ymrwymiad i ddarparu buddsoddiad cyfalaf i'r pum ysgol uwchradd ac mae'n awyddus i weithio gyda Horizon er mwyn mesur hyd a lled y gweithgarwch, lefel y buddsoddiad a chytuno ar amserlen ar gyfer darparu oherwydd mae 2019 yn rhy hwyr. | |
| **Yr Economi a'r Gadwyn Gyflenwi** | 1. Wedi cynnwys Siarter Cadwyn Gyflenwi drafft | 1. Siarter Cadwyn Gyflenwi'n cael ei adolygu i ddeall a oes angen ei fireinio yn dilyn y newidiadau i'r Prosiect.<br>2. Annog ei bartneriaid darparu i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gadwyn gyflenwi | 1. Mae CSYM yn gofyn am gael gweld rhaglen gaffael a strategaeth contractau Horizon gan gynnwys manylion ynghylch sut bydd cyfranogiad lleol (math a maint y contract) yn cael ei gynyddu a'i reoli er mwyn darparu | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 3. Gwerth y buddsoddiad lleol dros y cyfnod adeiladu i gynyddu i gyfanswm o £400 miliwn (ar ôl gwneud rhagor o waith i ddeall manteision economaidd y Prosiect).<br>4. Mae modd disgwyl cynnydd i dros £20M y flwyddyn i economi Ynys Môn dros oes weithredol yr Orsaf Bŵer.<br>5. 500 o fusnesau wedi cofrestru ar wefan cyflenwyr Hitachi (100 yng Nghymru)<br>6. Sefydlu'r Gwasanaeth Contractau Cadwyn Gyflenwi – yn hyrwyddo cyfleoedd i fusnesau ymgysylltu â chadwyn gyflenwi Wylfa Newydd.<br>7. Bydd yn sefydlu Cynllun Gweithredu Cadwyn Gyflenwi – siarter cadwyn gyflenwi (nod o wario 60% o werth y Prosiect yn y DU drwy gydol y cyfnod adeiladu) | sicrwydd a hyder y bydd busnesau yng Ngogledd Cymru yn gallu manteisio ar y cyfleoedd a fydd ar gael<br>2. – Mae CSYM yn gofyn i Horizon wneud y gwaith a llunio cynlluniau darparu i ddeall capasiti'r gadwyn gyflenwi leol, hyrwyddo'r Gwasanaeth Contractau Cadwyn Gyflenwi ac ymgysylltu â chwmnïau bach i'w helpu i ennill contractau.<br>3. Rhaid cael Cynllun Gweithredu ar waith rŵan i ddangos sut bydd y Gwasanaeth Contractau Cadwyn Gyflenwi yn cael ei weithredu a'i fonitro.<br>4. Rhaid i bob contractwr ymrwymo i'r Gwasanaeth Contractau Cadwyn Gyflenwi.<br>5. Byddai CSYM yn croesawu sgwrs ynghylch gallu'r busnesau sydd wedi cofrestru ar wefan cyflenwyr Hitachi (o Gymru) i fod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi.<br>6. Dylid parhau i fonitro gwariant lleol/rhanbarthol<br>7. Mae CSYM yn credu ei bod hi'n hanfodol bod Horizon yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus er mwyn adnabod y bylchau posibl yn sgiliau, lefelau achrediad ac ati busnesau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cystadlu am gyfleoedd yn ystod cam adeiladu a cham gweithredu'r prosiect.<br>8. Mae CSYM yn awyddus iawn i weithio ar y cyd â Pŵer Niwclear Horizon i fynd â'r agenda Cadwyn Gyflenwi rhagddi. | |
| **Swyddi a Sgiliau** | 1. Nifer uchaf y gweithwyr adeiladu yn 10,700<br>2. Disgwylir y bydd y gweithlu yn cyrraedd ei lefel uchaf yn 2022<br>3. Gweithwyr sy'n byw gartref (adeiladu) – 25%<br>4. Gweithlu gweithredol 850.<br>5. 45% o weithwyr y gweithlu gweithredol yn lleol<br>6. Cynllun Prentisiaeth yn rhedeg ac wedi recriwtio 10 | ***Swyddi***<br>1. Nifer uchaf y gweithwyr adeiladu yn 8,500 (ond gan ddefnyddio'r nifer uchaf o 9,000 ar gyfer y gwaith asesu)<br>2. Disgwylir y bydd y gweithlu yn cyrraedd ei lefel uchaf yn 2023<br>3. Gweithwyr sy'n byw gartref (adeiladu) – 22%<br>4. Gweithlu gweithredol 850, gyda hyd at 1,000 o weithwyr ychwanegol i wneud y gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn ystod y cyfnodau segur.<br>5. 85% o weithwyr y gweithlu gweithredol yn weithwyr sy'n byw gartref yn lleol.<br>6. Cynllun Prentisiaeth yn dal i redeg, ar ganol recriwtio 12 o brentisiaid eraill<br>7. Mae rhagor o wybodaeth am y mathau o swyddi ar gael yn PAC3.<br>8. Rhagamcaniadau wedi'u diweddaru o ran nifer y gweithwyr y bydd eu hangen ar gyfer adeiladu a gweithredu.<br>9. Gofyniad gweithlu uchaf fesul cydran o'r Prosiect yn PAC3 (dim gwybodaeth o'r fath yn PAC2) | 1. Camau cadarnhaol yn y maes hwn ers PAC2 o ran nifer y swyddi lleol ar y cam gweithredu. Y cam nesaf ydy creu Cynllun Gweithredu i gyrraedd 85% (a mwy) o gyflogaeth leol drwy gydol y cyfnod gweithredu. Bydd angen monitro hyn a rhoi mecanweithiau ar waith i gynyddu'r ffigur os na chyrhaeddir y targed.<br>2. Mae CSYM yn croesawu'r cynnydd yn y gweithlu gweithredu lleol o 45% i 85% - byddai CSYM yn hoffi gweld yr 85% hwn fel lefel sylfaenol ac nid dyhead.<br>3. Mae hi'n annerbyniol bod cyflogaeth leol yn ystod y cam adeiladu wedi disgyn o 25% (2,700) i 22% (2,000).Mae CSYM yn gofyn am y cyfiawnhad a'r dystiolaeth i gefnogi'r gostyngiad hwn.<br>4. Nid oes dim cyfiawnhad i bennu pam nad oes modd i'r ffigur a'r ganran cyflogaeth leol fod yn uwch. Rhaid rŵan cael mwy o ymrwymiad i hyfforddi ac arfogi'r bobl leol â'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn bod yn rhan o'r gronfa lafur. | |

DRAFFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 10. Gofyniad gweithlu uchaf fesul math o swydd yn PAC3 (dim gwybodaeth o’r fath yn PAC2)<br>11. Gofyniad gweithlu uchaf fesul dadansoddiad o’r fasnach yn PAC3 (dim gwybodaeth o’r fath yn PAC2)<br>12. Gofyniad gweithlu uchaf fesul arbenigedd, lefel cymhwyster a math o gyflogwr (ar gyfer y gweithlu gweithredol) yn PAC3 (dim gwybodaeth o’r fath yn PAC2)<br>***Sgiliau***<br>13. Wedi darparu cyfraniad o £1M i Grŵp Llandrillo Menai ac yn dal wedi ymrwymo i ddatblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer prentisiaid peirianneg.<br>14. Ers 2012, wedi darparu £360k i Gwmni Prentis Menai.<br>15. Hyfforddiant Offer Trwm – Grŵp Llandrillo Menai<br>16. Bydd yn cefnogi rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer pum ysgol uwchradd Ynys Môn er mwyn gwella’r cyfleusterau gwyddoniaeth a thechnoleg, er mwyn helpu i gynyddu’r niferoedd sy’n dilyn pynciau STEM.<br>17. Cyn bo hir bydd yn dechrau treialu Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd – drwy leoli pob swydd wag ar y Prosiect yn ganolog a nodi bylchau mewn sgiliau a darpariaeth. Cynyddu gallu pobl leol i fanteisio ar gyfleoedd y Prosiect.<br>18. Cynllun Prentisiaeth Dechnegol; Rhaglen Datblygu Graddedigion; llwybrau eraill at gyflogaeth; Adeilad Hyfforddiant ac Efelychu.<br>19. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Phrifysgol Bangor – gweithio gyda Phrifysgol Bangor i ychwanegu cyd-destun niwclear i nifer o gyrsiau cyfredol. | 5. Mae Horizon wedi dynodi y bydd cyfran o gyflogaeth leol mewn swyddi nad ydynt yn ymwneud â STEM. Mae’r rhain yn cynnwys swyddi proffesiynol mewn Cysylltiadau Cyhoeddus a Chaffael i Ddiogelwch ac Arlwyo ac mae’n rhaid darparu hyfforddiant ar gyfer y rhain mewn da bryd a chyn y galw.<br>6. Mae CSYM yn croesawu cynllun prentisiaeth Horizon, ac yn awyddus i’r nifer sy’n cael eu recriwtio gynyddu o un flwyddyn i’r llall.<br>7. Mae CSYM yn croesawu’r ymrwymiad i ddarparu buddsoddiad cyfalaf ar gyfer y pum ysgol uwchradd ac yn awyddus i weithio gyda Horizon er mwyn mesur hyd a lled y gweithgarwch, lefel y buddsoddiad a chytuno ar amserlen ar gyfer darparu. Mae ei amseriad ar ôl gweithredu’r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn hollol annerbyniol.<br>8. Mae CSYM yn mynnu bod Horizon yn adolygu eu rhaglen ar gyfer buddsoddi mewn cyfleusterau addysg a hyfforddiant i sicrhau bod targedau cyflogaeth lleol yn cael eu cyrraedd. Mae angen hyn rŵan er mwyn cynyddu nifer y bobl leol a fydd mewn sefyllfa i wneud cais am swyddi lefel uchel yn Wylfa Newydd.<br>9. Croesewir y Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau yn fawr iawn ac mae’n gam cadarnhaol ymlaen ond mae rŵan angen gweithredu cynlluniau manwl ac wedi’u cyllido er mwyn ei ddarparu. Mae CSYM yn awyddus i barhau i fod yn rhan o’r broses.<br>10. Mae angen cymryd camau i roi hwb i ochr cadwyn gyflenwi’r economi - gan feddwl am ddadleoli. Byddai CSYM yn croesawu rhagor o drafodaethau a chytundeb gyda Horizon ar hyn. Mae’r Cyngor yn ymwybodol o’r posibilrwydd i gynyddu’r gronfa o lafur drwy ddenu yn ôl pobl leol sydd wedi symud i ffwrdd i gael gwaith. Felly mae’r Cyngor felly yn mynnu bod Horizon yn cefnogi prif gorff cyhoeddus i ddechrau system tracio sy’n debyg i fodel “Llwybro” a defnyddio pob sianel cyfathrebu briodol gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.<br>11. Mae angen i’r wybodaeth am y gofyniad gweithlu yn ôl arbenigedd, lefel cymhwyster a math o gyflogwr (ar gyfer y gweithlu gweithredol) sy’n cael ei darparu yn PAC3 gael ei dadansoddi yn fwy manwl er mwyn asesu’r cyflenwad sgiliau a’r galw am sgiliau er mwyn goleuo gofynion hyfforddiant. | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Twristiaeth** | 1. Cyfeiriad yn PAC2 y byddai'r datblygiad Land and Lakes yn gadarnhaol ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at brif amcanion twristiaeth yr Ynys.<br>2. Disgwyl i Orsaf Bŵer Wylfa Newydd ei hun fod yn atyniad i dwristiaid<br>3. Canolfan i Ymwelwyr a Derbyn y Cyfryngau (ymgynghorir ynghylch hyn drwy'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref)<br>4. Gwelliannau seilwaith i wella'r profiad i ymwelwyr (fel gwelliannau i'r A5025, hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau beicio, darparu Canolfan i Ymwelwyr a Derbyn y Cyfryngau, adnodd ar gyfer hamdden ac addysg). | 1. Bydd yn cefnogi Cronfa Dwristiaeth i helpu mentrau twristiaeth i ymateb i'r newidiadau a fydd yn deillio o adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd.<br>2. Cynnig cyfleusterau dros dro i ymwelwyr yn ystod y cam adeiladu ee ardal wylio i ymwelwyr ar gyfer cam adeiladu'r Prosiect.<br>3. Gwneir cais ar wahân am y Ganolfan i Ymwelwyr a Derbyn y Cyfryngau pan fydd y Prosiect yn weithredol. | 1. Mae CSYM yn croesawu'r ymrwymiad cyffredinol i Gronfa Dwristiaeth – fodd bynnag rydyn ni'n poeni bod ein disgwyliadau'n wahanol iawn o ran graddfa ac amseru ei ddarparu ac mae angen llawer iawn mwy o fanylion ar y pwynt hwn.<br>2. Mae hi'n hanfodol bod y Gronfa Dwristiaeth yn cael ei defnyddio i ddiogelu ac i wella asedau twristiaeth (yn enwedig yng Ngogledd yr Ynys – tawelwch, llonyddwch, mynediad i lwybr yr arfordir, atyniadau naturiol fel Bae Cemlyn) yn ogystal â hyrwyddo a gwella cynigion twristiaeth eraill (oddi ar y safle) i sicrhau na fydd twristiaid yn cael eu digalonni rhag ymweld ag Ynys Môn, cyn, yn ystod ac ar ôl y cam adeiladu, gan gynnwys yn ystod y gwaith o baratoi'r safle.<br>3. Mae CSYM yn gofyn am Asesiad o'r Effaith ar Dwristiaeth wedi'i ddiweddaru o ganlyniad i'r newid i'r strategaeth Llety Gweithwyr Dros Dro er mwyn asesu'r effeithiau posibl ar dwristiaeth. Yn yr Adroddiad Cwmpasu diweddar a gyhoeddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio (3.98) nodir y byddai'r SoS yn disgwyl effeithiau posibl ar dwristiaeth ac iddynt gael eu hasesu yn yr ES. Mae CSYM yn cefnogi'r cais hwn yn llawn.<br>4. Mae'r diffyg manylion/dystiolaeth hyn yn cryfhau'r galw am Gronfa Gwytnwch Cymunedol er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau nad oes modd eu mesur neu nad oes modd eu rhagweld<br>5. Cefnogir cyfleuster dros dro ar gyfer ymwelwyr a chredir y byddai hyn yn helpu Horizon i gynyddu'r potensial twristiaeth yn ystod y cam adeiladu.<br>6. Mae Canolfan i Ymwelwyr a Derbyn y Cyfryngau yn agwedd hanfodol o'r prosiect. Mae CSYM yn mynnu ymrwymiad clir, cadarn ac ymrwymol gan Horizon gyda rhaglen darparu fanwl yn dangos sut bydd y Ganolfan Ymwelwyr yn cael ei darparu fel rhan o'r prosiect hwn. | |
| **Gwastraff Niwclear** | 1. Posibilrwydd storio tanwydd sydd wedi'i ddefnyddio am hyd at 140 o flynyddoedd | 1. Dim newid o ran nifer y blynyddoedd y gallai gwastraff ymbelydrol aros ar Safle'r Orsaf Bŵer (hyd at 140 o flynyddoedd)<br>2. Mae Pŵer Niwclear Horizon yn cynnig dau adeilad storio gwastraff ymbelydrol i ddarparu cyfleusterau storio saff a diogel. | 1. Er ein bod yn deall y bydd Horizon yn storio gwastraff ymbelydrol ar safle'r orsaf bŵer am hyd at 140 o flynyddoedd mae hyn yn dal yn bryder mawr i bobl leol oherwydd y cyfnod sylweddol y bydd gwastraff ymbelydrol yn aros ar y safle.<br>2. Caiff hyn ei weld fel mater mae modd ei fesur ac felly dylai fod yn rhan o'r Gronfa Gwytnwch Cymunedol fel mantais statudol. | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 3. Rhaid i'r holl faterion sy'n ymwneud â gwastraff ymbelydrol ddilyn polisi diweddaraf Llywodraeth y DU. | |
| **Lliniaru / Manteision Cymunedol** | ***Amgylcheddol***<br>1. Cyflwynir Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol fel rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu a bydd yn cynnwys Cynlluniau Rheoli Amgylcheddol<br>***Traffig***<br>2. Mae Strategaeth Trafnidiaeth a Thraffig Integredig yn cynnwys cynigion i sicrhau system drafnidiaeth effeithiol i leihau effeithiau niweidiol posibl a gwella manteision yr elfennau o Brosiect Wylfa Newydd sy'n ymwneud â thraffig, fel:<br>a. cynlluniau teithio a darparu gwybodaeth am deithio i Brosiect Wylfa Newydd<br>i. gweithlu;<br>b. rheoli'r trefniadau parcio, gan gynnwys cyfleuster Parcio a Theithio (yn Dalar<br>i. Hir);<br>c. bysiau gwennol ar lwybrau penodol;<br>d. Cyfleuster Dadlwytho Morol i hwyluso danfon deunyddiau swmpus yn ystod yr<br>i. adeiladu, ac o bosibl y gweithredu a'r datgomisiynu hefyd;<br>e. cynyddu'r cludo dros y môr;<br>f. Canolfan Logisteg (ym Mharc Cybi) i reoli ac i gyfuno cludo nwyddau ar y ffyrdd; a<br>g. gwella'r cyfleoedd i ddefnyddio'r rheilffyrdd.<br><br>***Cyfleoedd Datblygu Busnes***<br>3. Dim sylwadau penodol<br>***Cyfleoedd Cyflogaeth***<br>4. Dull gweithredu strategol cyffredinol at recriwtio a hyfforddi ac mae'n rhoi gwybodaeth am recriwtio, cyflogi a hyfforddi gweithwyr ar gyfer y camau cyn-adeiladu, y prif waith adeiladu, y comisiynu a'r gweithredu<br>5. Bydd 25% o'r 10,720 o weithwyr yn dod o barth teithio 90 munud<br>6. Sefydlu Gweithgor Sgiliau Adeiladu a Chyflogaeth i arwain y cyfeiriad a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â chyflogaeth | ***Amgylcheddol***<br>1. Darparu Cod Ymarfer Adeiladu a chyfres o strategaethau a gan gynnwys Cynlluniau Rheolaeth Amgylcheddol ac Adeiladu<br>***Traffig***<br>2. Cynllun Teithio ar gyfer y camau adeiladu a gweithredu gan gynnwys targedau a mesurau os na chaiff y targedau eu cyrraedd<br>3. Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu yn nodi'r llifoedd traffig a gorfodi llwybrau wedi'u rhagnodi ar gyfer cerbydau nwyddau trwm<br>4. Cynllun Rheoli Digwyddiadau Traffig yn nodi'r gweithdrefnau a fydd yn berthnasol os bydd digwyddiad traffig mawr gan gynnwys llwybrau amgen posibl neu gadw cerbydau<br>5. Bydd Horizon yn darparu pecyn cyllido er mwyn caniatáu i CSYM gyflawni gwelliannau i briffordd yr A5025 gan gynnwys rhwng Wylfa ac Amlwch. Er y bydd y ffordd hon yn cael ei defnyddio gan weithwyr adeiladu, nid yw mwyach yn brif lwybr cymudo i'r safle ac o'r herwydd nid oes disgwyl y bydd angen gwella'r rhan hon o'r ffordd yn sylweddol dim ond oherwydd y Prosiect.<br>***Addysg***<br>6. Bydd strategaeth addysgol Horizon yn creu cyfleoedd go iawn i bobl ifanc yn y cymunedau sy'n lleol i safleoedd datblygu'r Prosiect.<br>7. Bydd Horizon yn cefnogi rhaglen buddsoddi cyfalaf ar gyfer pum ysgol uwchradd Ynys Môn i wella'r cyfleusterau gwyddoniaeth a thechnoleg ac agweddau cysylltiedig er mwyn helpu i hybu'r niferoedd sy'n dilyn pynciau STEM. Bydd y cyllid hwn ar gael ar ôl gweithredu'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, ac mae disgwyl i hyn ddigwydd yn hwyr yn ystod 2019.<br>8. Bydd Horizon yn parhau i weithredu a chynnal cynllun i hyrwyddo'r diddordeb mewn pynciau STEM ar Ynys Môn a darparu cyngor ar yrfaoedd a chefnogaeth ar gyfnodau allweddol ar gyfer yr amrywiaeth o swyddi a fydd ar gael drwy gamau adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd.<br>***Swyddi a'r Gadwyn Gyflenwi***<br>9. Bydd Horizon yn cefnogi creu a gweithredu Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau sy'n cael ei sbarduno gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd hwn yn gweithredu fel broceriaeth ar gyfer y swyddi a fydd ar gael yn Wylfa | **Mae'r sylwadau isod yn cael eu cyfyngu i'r manteision cymunedol/lliniaru a restrir yn PAC3 ond nid yw'r rhain yn gynhwysfawr o gwbl ac ni dderbynnir eu bod yn cynrychioli'r hyn y gallai fod ei angen.**<br><br>**Mae CSYM yn disgwyl i Horizon ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani yn ei ymateb i PAC3 er mwyn asesu'r effeithiau'n iawn a'u mesurau lliniaru.**<br><br>**Mae CSYM yn disgwyl y bydd y manteision cymunedol / mesurau lliniaru yn cael eu darparu yn llawn ac mewn ffordd amserol am y cyfnod cyn y Penderfyniad Buddsoddi Terfynol. I'r perwyl hyn, mae CSYM eisiau parhau i gydweithredu gyda Horizon wrth lunio'r pecyn cyffredinol hwn.**<br><br><br>***Amgylcheddol***<br>1. Croesewir darparu Cod Ymarfer Adeiladu a bydd y Cynlluniau Rheolaeth Amgylcheddol ac Adeiladu yn helpu i reoli effeithiau fodd bynnag,– mae CSYM yn gofyn bod Horizon yn darparu gwybodaeth bendant ar effeithiau amgylcheddol ynghyd â manylion cynnwys y Cod Ymarfer Adeiladu a'r Cynlluniau Rheolaeth Amgylcheddol ac Adeiladu cyn cytuno ar unrhyw gynnwys ar gyfer Datganiad Tir Cyffredin gyda Horizon<br>***Traffig***<br>2. Croesewir yr egwyddor o ddarparu Cynllun Teithio, Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu a Chynllun Rheoli Digwyddiadau Traffig fodd bynnag, nid ydy ymgynghoriad PAC3 yn darparu dim manylion ynghylch mesurau penodol. Mae'n amhosibl pennu 'gwerth' y dogfennau pwysig hyn i reoli a lliniaru effaith y datblygiad – mae CSYM yn gofyn bod Horizon yn darparu gwybodaeth bendant ar yr effeithiau amgylcheddol a thrafnidiaeth ond hefyd manylion cynnwys y Cynllun Teithio, Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu a Chynllun Rheoli Digwyddiadau Traffig cyn cytuno ar unrhyw gynnwys ar gyfer Datganiad Tir Cyffredin.; | |

7. Sefydlu Broceriaeth Cyflogaeth a Sgiliau
8. 850 o staff gweithredol amser llawn, ymrwymiad i gynyddu'r cyfleoedd i'r rheini sy'n byw yn y rhanbarth

***Sgiliau a Hyfforddiant***

9. Mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth wedi cael eu sefydlu gyda Grŵp Llandrillo Menai (yn enwedig Coleg Menai) a Phrifysgol Bangor. Mae'r rhain yn darparu ar gyfer cydweithredu rhwng Horizon a'r partneriaid strategol hyn mewn meysydd gan gynnwys cyflogadwyedd myfyrwyr a graddedigion, gweithgarwch ar y cyd wrth hyrwyddo pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM), a llwybrau gyrfa, nawdd ac ymchwil wedi'i noddi
10. Mae Horizon yn cefnogi Canolfan Hyfforddi Sgiliau Adeiladu a leolir yn agos at Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Os caiff ei hadeiladu, byddai'r Ganolfan hon yn gyfleuster hyfforddi allweddol ar gyfer y gweithluoedd adeiladu.
11. Bydd Horizon hefyd yn dal i drafod y rhagolygon ar gyfer ymwneud ar y cyd (gan gynnwys buddsoddiad posibl ar y cyd) yn y canlynol:
    a. cyfleusterau newydd yn safleoedd Coleg Menai, gan gynnwys help a chefnogaeth tuag at adeiladu Canolfan Beirianneg newydd yng Ngholeg Menai;
    b. posibilrwydd defnyddio neu ddatblygu cyfleusterau ym Mhrifysgol Bangor; a
    c. cyfleoedd mewn perthynas â datblygiad arfaethedig Parc Gwyddoniaeth Gogledd Orllewin Cymru

***Ymgysylltu ag ysgolion***

12. gweithredu rhaglen addysgol er mwyn helpu i ysbrydoli ac arwain plant oed ysgol yn y rhanbarth, er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt o allu elwa o'r cyfleoedd a fydd yn codi yn y dyfodol o Brosiect Wylfa Newydd

***Nawdd yn y sectorau addysg bellach ac addysg uwch***

13. cynllun i noddi pobl ifanc o ranbarth gogledd orllewin Cymru sy'n dymuno astudio pwnc academaidd perthnasol mewn prifysgol yn y DU. Byddai myfyrwyr israddedig yn cael cefnogaeth ariannol ar gyfer eu hastudiaethau

Newydd ac yn cyfeirio pobl o bob rhan o'r rhanbarth at gefnogaeth hyfforddiant addas ar gyfer y swyddi sydd ar gael.

10. Bydd Horizon yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac aelodau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ariannu ac i hwyluso darparu hyfforddiant ychwanegol yn amserol er mwyn diwallu anghenion sgiliau penodol a nodir ar gyfer y Prosiect.
11. Bydd Horizon yn sefydlu Cynllun Gweithredu Cadwyn Gyflenwi a fydd yn hyrwyddo'r cyfleoedd i fusnesau ymgysylltu yng nghadwyn gyflenwi Wylfa Newydd. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ar y cyd gydag asiantaethau fel Llywodraeth Cymru, Dyfodol Adeiladu Cymru a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain Gogledd Cymru a bydd y gwasanaeth ar gael ar ôl gweithredu'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, a disgwylir y bydd hynny'n digwydd yn hwyr yn 2019.

***Cronfa Dai***

12. Bydd Horizon yn darparu Cronfa Dai a fydd yn cefnogi darparu tai fforddiadwy newydd ac yn cynyddu'r tai sydd ar gael ar rent, er enghraifft, drwy helpu CSYM i ddod â thai gwag yn ôl i gael eu defnyddio
13. Cynllun Rheoli Campws y Safle bydd Horizon yn darparu cynllun rheoli a fydd yn gosod safonau ymddygiad caeth ar weithwyr ac yn sicrhau bod cyfleusterau'r safle yn cael eu rheoli'n effeithiol. Bydd rheoli'r campws yn cael ei wneud ar y cyd â Swyddog Cyswllt Cymunedol

***Strategaeth Llety***

14. Bydd Horizon yn cyllido creu a gweithredu gwasanaeth llety a fydd yn gweithredu fel broceriaeth rhwng gweithwyr sy'n chwilio am lety a darparwyr llety. Yr enw ar hyn fydd WAMS (edrychwch ar bennod 7 hefyd). Bydd yn rhaid i'r llety a fydd yn cael ei gofrestru â'r gwasanaeth ddiwallu safonau tai a diogelwch angenrheidiol a chydymffurfio ag unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol. Bydd y gwasanaeth hwn ar gael ar ôl gweithredu'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.
15. Bydd Horizon yn darparu Cronfa Dai i gefnogi rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer darparu tai cymdeithasol a fforddiadwy newydd. I ddechrau bydd hyn yn canolbwyntio ar gynyddu'r stoc dai yn ardal Wylfa ac Amlwch. Bydd y gwasanaeth hwn ar gael ar ôl gweithredu'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.
16. Mae Horizon yn bwriadu cynyddu faint o stoc dai sydd ar gael ar rent drwy gyllido cynllun i adnabod y

3. Fel y nodir uchod mewn perthynas â'r goblygiadau trafnidiaeth o ran symud pobl a deunyddiau, bydd angen i CSYM ystyried gosod cyfyngiadau ar nifer y symudiadau cerbydau nwyddau trwm, Bysiau a Cheir cyn i'r elfennau allweddol o'r Datblygiadau Cysylltiedig gael eu rhoi ar waith. Os ydy Horizon yn dymuno i'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu beidio â chynnwys cyfyngiadau ar ddefnyddio ffyrdd cyhoeddus i ddod â deunyddiau i'r safle yna bydd yn rhaid asesu'r cais ar sail y sefyllfa waethaf a bydd yn rhaid i'r mesurau lliniaru adlewyrchu hyn

***Addysg***

4. Mae darparu cyllid ar gyfer rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf ar ôl gweithredu'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn hollol annerbyniol. Wrth ystyried y bydd angen i'r cyfleusterau gael eu dylunio, cael cydsyniad a chael eu hadeiladu cyn i'r cyrsiau allu dechrau mae'n debyg y bydd y gwaith adeiladu bron wedi gorffen erbyn yr adeg y bydd unrhyw fyfyriwr mewn sefyllfa o fod wedi elwa o'r buddsoddiad a gynigir. Bydd cymunedau felly wedi dioddef effaith sylweddol cynnal y prosiect adeiladu a'r unig gynnig 'go iawn' i blant ydy'r cyfle i gael swydd yn ystod y cam gweithredu. Mae CSYM yn gofyn bod Horizon yn adolygu eu rhaglen ar gyfer buddsoddi mewn addysg i sicrhau bod targedau cyflogaeth lleol yn cael eu cyrraedd. Mae tystiolaeth o Wlad yr Haf mewn perthynas â Hinkley Point C yn datgelu ei bod hi wedi cymryd 5 mlynedd i fanteision rhaglen ysbrydoli addysg ddangos effaith amlwg ar y mathau o gyrsiau sy'n cael eu hastudio a bod sgiliau pobl ifanc ar ddiwedd eu haddysg yn ddigon da er mwyn iddynt allu ymuno â'r gweithlu'n llwyddiannus
5. Croesewir cyngor ar yrfaoedd ond ni fydd hynny ar ei ben ei hun yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc heb fod cyfleoedd ar gael a bod plant yn cael eu galluogi i fanteisio arnynt drwy hyfforddiant priodol.

***Swyddi a'r Gadwyn Gyflenwi***

6. Mae darparu gwasanaeth ar ôl gweithredu'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn gwbl annerbyniol ac yn rhy hwyr o lawer i unrhyw wasanaeth o fath alluogi busnesau lleol i gael

prifysgol, gyda gobaith da o gael swydd gyda Horizon (neu ei bartneriaid yng nghadwyn gyflenwi gogledd Cymru) ar ôl graddio

***Prentisiaethau***

14. gallai'r cam adeiladu gefnogi tua 500 o gyfleoedd hyfforddi newydd, ac mae'n debyg mai prentisiaethau fydd y rhan fwyaf ohonynt
15. bwriadu lansio cynllun prentisiaeth beirianneg Horizon ei hun yng ngogledd Cymru o ddiwedd 2016 ymlaen, mewn partneriaeth â Choleg Menai (12 y flwyddyn i ddechrau)

***Porth Rheoli Llety Gweithwyr Adeiladu***

16. byddai'r porth yn cynnig cyngor a gwasanaethau i ddarparwyr llety a gweithwyr adeiladu, yn ogystal â llunio'r llwybr i weithwyr adeiladu unigol ddod o hyd i lety i ddiwallu eu hanghenion, yn ddelfrydol mor agos ag sy'n ymarferol at Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Byddai'r porth hefyd yn cynnig ffordd o sicrhau bod y llety cofrestredig yn diwallu safonau ansawdd priodol, yn cynnig gwelyau sydd mewn lleoliadau hygyrch, yn ogystal â darparu'r gallu i adolygu data amser real a'i ddefnyddio i reoleiddio dosbarthu'r gweithlu adeiladu ar draws mathau o lety a lleoliadau

***Twristiaeth***

17. Mae Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu wedi cael ei datblygu i gynnwys stoc newydd a mesurau monitro
18. cefnogaeth i landlordiaid a pherchnogion cartrefi sy'n dymuno darparu llety i weithwyr adeiladu y tu hwnt i'r tymor twristiaeth arferol

***Manteision Cymunedol Statudol***

19. Manteision Cymunedol Statudol ydy'r rheini a fyddai'n ofynnol i wneud unrhyw ddatblygiad a gynigir fel rhan o Brosiect Wylfa Newydd yn dderbyniol mewn termau cynllunio a byddant yn cael eu sicrhau drwy gytundebau o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, neu ddarpariaethau cysylltiedig o dan Ddeddf Cynllunio 2008 mewn perthynas â'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Mae'r rhain yn debyg o ymwneud â mesurau lliniaru ychwanegol ar gyfer effeithiau niweidiol mae disgwyl y byddant yn deillio o Brosiect Wylfa Newydd nad oes modd eu lliniaru drwy ddylunio. Mae'n rhaid i Fanteision Cymunedol Statudol:

llety sydd ar gael i'w weithwyr a drwy ddarparu cronfeydd i wella cynllun tai gwag presennol CSYM er mwyn dod ag eiddo gwag yn ôl i gael eu defnyddio.

***Cronfa Dwristiaeth***

17. I gydnabod pwysigrwydd y sector twristiaeth i economi Ynys Môn, bydd Horizon yn cefnogi Cronfa Dwristiaeth

***Lliniaru Ecoleg***

18. Bydd Horizon yn gweithredu cynllun rheoli ecolegol i liniaru ac i wella buddiannau bioamrywiaeth ar Ynys Môn

***Sŵn***

19. Rhoddir ystyriaeth ychwanegol i hyd a lled y cynllun lliniaru sŵn a'r ffordd y bydd yn cael ei roi ar waith

***Iechyd a Lles***

20. Bydd Horizon yn darparu rhaglen iechyd a lles i'w holl weithwyr, boed nhw'n byw yng Nghampws y Safle, yn byw yn lleol, neu'n teithio i Wylfa Newydd. Bydd y rhaglen hon yn sicrhau na fydd y Prosiect yn effeithio'n niweidiol ar wasanaethau ac adnoddau iechyd a lles cymunedol lleol sy'n cael eu defnyddio gan drigolion lleol. Bydd y rhaglen yn cael ei datblygu ymhellach gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a darparwyr gofal iechyd eraill, serch hynny, ei nodwedd ganolog fydd darparu canolfan feddygol bwrpasol ar y safle a fydd yn darparu'r gwasanaethau canlynol:
21. gofal iechyd galwedigaethol;
22. hylendid galwedigaethol;
23. gwasanaethau meddyg teulu ar gyfer y gweithwyr hynny a fydd yn byw dros dro yn yr ardal ac felly na fyddant yn cofrestru â meddyg teulu lleol;
24. gofal sylfaenol ar gyfer mân anafiadau; a
25. Darpariaeth ragofalus o gyfleusterau gofal trawma cychwynnol os bydd digwyddiad mawr, sy'n annhebygol. Byddai'r cleifion wedyn cael eu cludo mewn hofrennydd neu ambiwlans i'r ysbyty.
26. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru er mwyn helpu gyda'r cynllunio yn yr ardal hon.
27. Mae Horizon yn cynnig y bydd gwasanaethau deintyddiaeth a fferylliaeth yn cael eu darparu gan gyfleusterau cymunedol presennol a bydd Horizon yn parhau i ymgysylltu â darparwyr i hwyluso unrhyw welliannau neu recriwtio y gallai fod eu hangen ar gyfer y cyfleusterau hyn er mwyn gallu gwasanaethu gweithlu'r orsaf bŵer.

unrhyw gyfle i chwarae rhan sylweddol yn y gadwyn gyflenwi

7. Mae CSYM yn mynnu bod Horizon yn buddsoddi mewn Tîm Buddsoddiad Cadwyn Gyflenwi rŵan er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i fusnesau lleol (yn unigol a gyda'i gilydd) gystadlu a llwyddo i ennill gwaith. Mae hi'n hanfodol dod o hyd i fusnesau addas, darparu cyngor clir ar yr hyfforddiant, y sgiliau a'r achrediad sydd eu hangen er mwyn ennill gwaith, gan ganiatáu'r cyfle i fusnesau ddod ynghyd i gydweithredu. Roedd y gwasanaeth cyfatebol ar gyfer prosiect Hinkley Point C ar waith 5 mlynedd cyn y Penderfyniad Buddsoddiad Terfynol ac roedd y rhan fwyaf o gontractau a ddyfarnwyd i gwmnïau lleol wedi dilyn trefniadau cydweithredol

***Cronfa Dai***

8. Croesewir yr egwyddor o Gronfa Dai.
9. Mae'r amser paratoi ar gyfer darparu unrhyw lety ychwanegol (mewn stoc bresennol neu drwy adeiladu o'r newydd) yn sylweddol, mae CSYM yn gwybod ei bod wedi cymryd 3 blynedd i Gynghorau Gwlad yr Haf ddarparu tua 800 o welyau ar ôl talu cyfraniadau a106. Mae deunyddiau PAC3 yn dynodi y disgwylir dyfarnu'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn 2019 ac mae proffil y gweithlu yn dynodi erbyn diwedd 2020 bod disgwyl i'r gweithlu gynnwys 5000 o weithwyr. Y camau dangosol ar gyfer y campws ar y safle ydy na fydd yn weithredol tan 2021 ac wedyn fydd ond yn darparu 1000 o welyau. Mae hyn yn annerbyniol.
10. Gan na fydd cronfa dai sylweddol ar gael tan ar ôl i'r Cydsyniad Gorchymyn Cydsyniad Datblygu gael ei roi, ni fydd gan CSYM fawr o ddewis ond ceisio rheolaethau sylweddol dros nifer y gweithwyr yn ystod 3 blynedd cyntaf y cam adeiladu

***Twristiaeth / Cronfa Dwristiaeth***

11. Mae CSYM yn croesawu'r egwyddor o Gronfa Dwristiaeth, fodd bynnag rydyn ni'n poeni bod ein disgwyliadau'n wahanol iawn o ran graddfa i rai Horizon ac mae angen rhagor o fanylion ynghylch cwantwm a chwmpas

***Ecoleg***

12. Bydd angen penderfynu ar raddfa'r lliniaru'r ecolegol ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru ar

Tudalen 81

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 20. fod yn angenrheidiol er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol mewn termau cynllunio;<br>21. ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad; a<br>22. bod yn deg ac yn gysylltiedig yn rhesymol o ran graddfa a math i'r datblygiad.<br><br>23. Mae Manteision Cymunedol Statudol yn debyg o gynnwys darparu gwelliannau i'r dirwedd ac i'r amgylchedd a darparu gwelliannau trafnidiaeth. Byddai hefyd modd sicrhau darpariaethau lliniaru'r strategaethau cyflogaeth, sgiliau, iaith Gymraeg ac addysg a ddisgrifir fel Manteision Cymunedol Statudol.<br><br>***Manteision Cymunedol Gwirfoddol***<br><br>24. Mae Manteision Cymunedol Gwirfoddol yn Fanteision Cymunedol anstatudol nad ydynt yn gysylltiedig â'r prosesau cynllunio statudol, ac sy'n deillio o gyfraniadau gwirfoddol (arian, amser neu adnoddau) gan Horizon i gymunedau lleol.<br>25. Nid oes dim gofyniad cyfreithiol ar ddatblygwr i ddarparu Manteision Cymunedol Gwirfoddol, ac nid oes modd eu hystyried wrth benderfynu ar gais am gydsyniad cynllunio.<br>26. Mewn gwirionedd, mae'r rhain yn gyfraniadau "ewyllys da" a roddir yn wirfoddol gan ddatblygwr er budd cymunedau. Mae Horizon eisoes wedi sefydlu rhaglen ar gyfer darparu grantiau bach i grwpiau a mentrau cymunedol bach, gydag enghreifftiau diweddar o roddion yn cynnwys:<br>27. Canolfan Dreftadaeth Cemaes – darparu offer ar gyfer yr adeilad sydd newydd gael ei ailwampio;<br>28. Ysgol Parc y Bont – i ddatblygu gardd bywyd gwyllt fel adnodd dysgu dan do yn yr<br>29. ysgol, sydd i'r de orllewin o Lanfairpwllgwyngyll;<br>30. Môn FM – i brynu offer newydd ar gyfer yr orsaf radio gymunedol; a<br>31. Cylch Meithrin Amlwch – cyllido offer yn y feithrinfa Gymraeg<br><br>32. Cronfa Manteision Cymunedol Gwirfoddol yn ystod yr adeiladu – penderfynir yn derfynol ar y gwerth ariannol yn y Penderfyniad | 28. Bydd gofal iechyd i deuluoedd a dibynyddion gweithlu Horizon yn cael ei ddarparu yn y gymuned.<br>***Yr iaith Gymraeg a'i diwylliant***<br>29. Mae Horizon eisoes yn cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg a'i diwylliant drwy gefnogi cyfres o ddigwyddiadau a mentrau lleol a hefyd drwy ymgorffori'r iaith Gymraeg fel agwedd bwysig o fywyd gwaith, addysg a gwasanaethau cymunedol.<br>30. Bydd Horizon yn penodi Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i ddatblygu rhaglen ar sail ymddygiad a fydd wedi'i halinio â nodau argymhellion yr ymgynghoriad ac yn gweithredu fel hyrwyddwr cydnabyddedig Horizon fel sefydliad preifat sy'n rhan annatod o'r gymuned.<br>***Twristiaeth***<br>31. I gydnabod y gallai adeiladu Wylfa Newydd ei hun fod yn atyniad i ymwelwyr yn ei rinwedd ei hun, bydd Horizon yn gweithredu ardal dros dro i wylio'r gwaith adeiladu. Mae disgwyl y bydd hon yn weithredol o bwynt priodol yn y rhaglen adeiladu (gan ystyried ystyriaethau diogelwch).<br>32. Mae Horizon yn bwriadu gwneud cais cynllunio i ganiatáu datblygu Canolfan Ymwelwyr a Derbyn Cyfryngau barhaol yn safle Wylfa Newydd ar gyfer y cam gweithredol ar ôl 2025. Mae Horizon yn bwriadu y bydd dyluniad y cyfleuster parhaol hwn yn destun cystadleuaeth bensaernïol.<br>33. I gydnabod pwysigrwydd y sector twristiaeth i economi Ynys Môn bydd Horizon yn sefydlu cronfa dwristiaeth. Bydd gweithredu'r gronfa'n cael ei ddatblygu drwy ragor o ymgynghori â rhanddeiliaid lleol gan gynnwys CSYM a Llywodraeth Cymru. Gellid ei defnyddio i:<br>34. Cefnogi ac ariannu mentrau marchnata fel Croeso Môn;<br>35. Datblygu fforwm ar gyfer cysylltu â gweithredwyr twristiaeth; a<br>36. Darparu sgiliau a hyfforddiant, gan gynnwys cynllunio busnes, ar gyfer y rheini sy'n ymuno â'r diwydiant o'r newydd.<br><br>37. **Manteision Cynhenid** ydy'r manteision hynny y bydd Prosiect Wylfa Newydd yn eu darparu fel rhan o'r prosiect ei hun, fel darparu swyddi lleol a gwelliannau a newidiadau i'r A5025 rhwng y Fali a Wylfa Newydd<br><br>38. **Manteision Statudol** ydy'r hyn rydyn ni wedi galw'r manteision hynny a fydd yn cael eu sicrhau gan ofynion ar y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, | ôl cael Asesiad Amgylcheddol manwl ac Asesiad Priodol<br><br>***Sŵn***<br>13. Mae CSYM yn croesawu'r egwyddor ond bydd angen iddo gael gweld maint a chwmpas y gronfa<br><br>***Iechyd a Lles***<br>14. Croesewir cwmpas y gefnogaeth ar gyfer rheoli iechyd gweithwyr yn gyffredinol, fodd bynnag, nid oes dim manylion am y mesurau a'r gofynion ar wasanaethau gofal iechyd lleol.<br>15. Mae cwmpas yr wybodaeth iechyd a lles a ddarperir yn dal yn annigonol ac yn annerbyniol. Cyfeirir Horizon at y sylwadau manwl ar y pwnc hwn yn PAC2 nad ydynt wedi cael eu hadlewyrchu yn nogfennau PAC3.<br><br>***Yr iaith Gymraeg a'i diwylliant***<br>*16.* Croesewir darparu cydlynydd, fodd bynnag, mae graddfa'r gefnogaeth i sicrhau bod yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn cael eu cefnogi yn ystod y prosiect adeiladu yn llawer dyfnach a mwy priodol<br>*17.* Mae'r ddarpariaeth sydd ei hangen mewn ysgolion er mwyn caniatáu ar gyfer addysg plant gweithwyr mewn ysgolion dwyieithog yn sylweddol<br>*18.* Mae'r angen i fuddsoddi mewn cyfleusterau STEM ar y cyfle cyntaf yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn y sefyllfa orau i allu manteisio ar y cyfleoedd (ac aros ar yr Ynys)<br><br>***Sylwadau Cyffredinol ar y dull gweithredu o ran Manteision***<br><br>1. Mae PAC3 yn dangos yn glir bod elfennau o'r datblygiad yn cael eu canoli gyda'r rhan fwyaf o'r prosiect rŵan yn cael ei leoli yng Ngogledd yr Ynys. Er bod hyn yn arwain at nifer llai o leoliadau mae'r dwysedd yn uwch o lawer ac nid yw hyn ynddo'i hun yn golygu llai o effaith; yn enwedig yr effaith cronnus a'r effeithiau 'dilynol' posibl yn y chwe chymuned sydd agosaf at y safle. Ers tro mae hyn wedi cael ei gydnabod gan CSYM wrth iddo hyrwyddo'r Egwyddor Agosatrwydd. Mae'r egwyddor hon yn seiliedig ar y ffaith mai'r cymunedau sy'n cynnal y | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Buddsoddiad Terfynol – mecanwaith. Sefydlu model ar gyfer dosbarthu | amodau cynllunio ar roi caniatâd cynllunio ac mewn cytundebau cynllunio rhwng Horizon, CSYM ac eraill o bosibl. Mae'r mathau hyn o fanteision yn debyg o ymwneud â lliniaru effeithiau niweidiol o ganlyniad i Brosiect Wylfa Newydd a byddan nhw'n cael eu llywio gan waith yr asesiadau o'r effaith ar yr amgylchedd, yr iaith Gymraeg ac iechyd.<br><br>39. Gall y manteision statudol hyn hefyd gynnwys cronfa raddfa fach i liniaru effeithiau cymunedol penodol a bydd yn cael ei dylunio i gefnogi cymunedau y mae'n bosibl yr effeithir arnynt er mwyn mynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder penodol, yn enwedig y rheini sy'n codi o effeithiau cronnus (fel cyfuniad o sŵn, traffig a gweithwyr) ar gymdogion agosaf y Prosiect. Mae CSYM wedi galw hyn yn "gronfa gwytnwch effaith gymunedol".<br><br>40. **Manteision Cymunedol Gwirfoddol** – manteision cymunedol anstatudol sy'n codi o gyfraniadau gwirfoddol (arian, amser neu adnoddau) gan Horizon i'r gymuned leol. Mae manteision cymunedol gwirfoddol ar raddfa fach eisoes yn cael eu darparu gan Horizon drwy ei gynllun Rhoddion Elusennol, Cymorth Cymunedol a Nawdd.<br><br>41. Gan fod y manteision hyn yn gwbl wirfoddol, ac nad ydynt yn ymwneud ag effeithiau'r datblygiad arfaethedig, ni fyddent yn cael eu sicrhau'n gyfreithiol yn y ffyrdd a nodir uchod. | prosiect fydd yn teimlo ei effeithiau fwyaf yn ystod yr adeiladu ac yn ystod ei oes (gan gynnwys datgomisiynu). Heb liniaru a manteision cymunedol priodol bydd yr effeithiau niweidiol yn drech o lawer na manteision 'cynhenid' honedig y prosiect. Mae dwysâd y prosiect yn ac o amgylch safle Wylfa Newydd yn gwneud yr Egwyddor agosatrwydd hyd yn oed yn fwy perthnasol, gyda chynnydd cyfatebol mewn mesurau lliniaru yn cronni i'r cymunedau hyn i adlewyrchu'r effeithiau hyn. Bydd yn rhaid lliniaru'r effeithiau niweidiol hyn yn briodol a fydd yn rhan o'r pecyn manteision i gyd.<br><br>2. Ar yr un pryd mae'r Egwyddor Agosatrwydd yn cydnabod y bydd rhai effeithiau a manteision a fydd yn ymledu o ogledd yr ynys i weddill Ynys Môn a bydd rhai yn mynd y tu hwnt i hynny i'r tir mawr.<br>3.<br><br>4. Mae CSYM wedi croesawu'r cyfle i weithio gyda Horizon a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu pecyn o fanteision cymunedol. Mae'r egwyddorion a'r dull ar gyfer datblygu'r pecyn hwn wedi cael eu cytuno rhwng CSYM a Horizon yn y ddogfen 'Tuag at Ddull Gweithredu Cyffredin ar Fanteision Cymunedol sy'n deillio o Brosiect Wylfa Newydd'. Roedd y dull gweithredu hwn wedi nodi tri math o fanteision: manteision cynhenid, manteision statudol a manteision cymunedol gwirfoddol. Mae CSYM felly'n gwerthfawrogi bod y rhain wedi cael eu rhestru yn y Cyflwyniad i Bennod 8 ar Fanteision Cymunedol. Mae manteision statudol yn cynnwys mesurau lliniaru o dan y prosesau Cynllunio a fydd wedi cael eu sicrhau gan ofyniad neu ddyletswyddau Adran 106. Mae enghreifftiau o gyfraniadau Manteision Cymunedol Gwirfoddol sydd wedi cael eu gwneud hyd yma yn cael eu nodi yn nogfennau PAC 3 ac mae'r rhain yn cael eu croesawu gan CSYM. Mae'r rhain y tu allan i'r system gynllunio. Bydd y pecyn cyffredinol yn gyfuniad o'r elfennau a ddisgrifir uchod, yn amodol wrth gwrs ar y prosesau llywodraethu trwyadl y cytunir arnynt ac a ddilynir gan y partïon gan wahanu'r manteision hynny sydd y tu mewn a'r tu allan i'r prosesau cynllunio. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 5. Mae'r mesurau lliniaru felly'n cyfuno â'r manteision statudol a'r cyfraniadau gwirfoddol i greu'r pecyn hwn, gwahaniaeth nad yw bob tro'n cael ei werthfawrogi; felly mae'r termau'n cael eu cyfnewid yn rheolaidd yn ymarferol. Er bod angen gwneud y gwahaniaethau hyn a'u dilyn, rhaid peidio â bychanu pwysigrwydd y mesurau lliniaru mewn unrhyw ffordd. Felly mae'r sylw a roddir gan CSYM i'r maes pwnc hollbwysig hwn yn cael ei ddatgan yn ei ymateb manwl i PAC 3, a'r pryderon a fynegir ynghylch diffyg manylion yn y dogfennau i asesu effeithiau ac felly eu mesurau lliniaru.<br><br>6. Mae'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol diweddaraf yn amlinellu manteision ac effeithiau posibl gan roi enghreifftiau ac felly nid yw'n gynhwysfawr. Mae'n mynd ymlaen i ddatgan y bydd ymgynghoriad yn darparu gwybodaeth am effeithiau cymunedol ac amgylcheddol posibl y newidiadau arfaethedig a fydd yn edrych ar amrywiaeth o bynciau. Mae'n datgan hefyd y bydd gwybodaeth yn cael ei chynnwys ar fesurau i leihau effeithiau niweidiol posibl ac amlinellu'r mesurau lliniaru i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol a gwella manteision y prosiect. Fel y nodir yn ymateb manwl CSYM i PAC 3 mae gwybodaeth o'r fath ar goll neu'n annigonol mewn nifer o feysydd. Nid oes digon o wybodaeth wedi cael ei darparu er mwyn gallu ystyried effeithiau posibl y newidiadau arfaethedig yn ystyrlon, a bydd angen ystyried y rhain gyda'i gilydd ac felly hefyd eu mesurau lliniaru. Rhaid deall y mesurau tebygol er mwyn pwyso a mesur a ydynt yn adlewyrchu camau lliniaru realistig ar gyfer yr effeithiau, ac felly cefnogaeth ar gyfer y cynigion.<br><br>7. Yn y diffiniad o Fanteision Statudol yn 8.1.2 cyfeirir at 'gronfa fach i liniaru effeithiau cymunedol penodol a fydd yn cael ei dylunio i gefnogi cymunedau y gellid effeithio arnynt er mwyn mynegi meysydd penodol sy'n peri pryder'. Mae gan CSYM broblem gyda Horizon yn gwneud datganiad o'r fath mewn perthynas â graddfa'r gronfa sydd ei hangen oherwydd nad yw'r effeithiau na'u mesurau lliniaru wedi cael eu hystyried yn briodol eto, yn enwedig y rheini ar gyfer y chwe chymuned sy'n cynnal o ganlyniad i ddwysâd y prosiect, fel y nodwyd | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | uchod. Mae'n ymddangos bod Pŵer Niwclear Horizon yn achub y blaen yn hyn o beth ac mae hyn yn annerbyniol. Dylai maint y gronfa fod ar y lefel sydd ei hangen i liniaru'r effeithiau penodol gan ddefnyddio dull gweithredu ar sail tystiolaeth a gan ddefnyddio'r pryderon a'r adborth gan y cymunedau dan sylw, a ddylai fod yn ystyriaeth allweddol o ganlyniad yr ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus PAC3 hwn.<br><br>8. Ar ben hynny, mae CSYM yn rhagweld effeithiau cymunedol nad oes modd eu mesur a/neu nad oes modd eu rhagweld. Gofynnir am Gronfa Gwytnwch Cymunedol sy'n debyg i honno y cytunwyd arni ar gyfer prosiect Hinkley C i ddelio ag effeithiau o'r fath fel rhan o'r manteision statudol. Bydd angen negodi graddfa a maint y gronfa. Mae hyn unwaith eto ar wahân i'r manteision cymunedol gwirfoddol am gynnal y prosiect gan fod angen y Gronfa hon i liniaru'n uniongyrchol yn erbyn effeithiau niweidiol y prosiect.<br><br>9. Mae datblygu pecyn o Fanteision Cymunedol yn broses barhaus ac mae CSYM yn awyddus i ddatblygu hyn a bydd angen iddi adlewyrchu newidiadau'r prosiect fel sydd wedi cael eu hamlinellu yn PAC 3. Gan mai PAC3 oedd y cyfle olaf i'r cyhoedd roi sylwadau ynghylch y cynigion Prosiect a oedd yn cael eu ffafrio gan Horizon mae'n rhaid i CSYM barhau â'r broses hon a cheisio dylanwadu ar fanylion y Manteision Cymunedol a fydd yn cael eu cynnwys yn y cyflwyniad Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, a pharhau hyd at ac ar ôl i'r cyflwyniad Gorchymyn Cydsyniad Datblygu gael ei dderbyn, ac yn ystod y Gwrandawiad gan geisio cael cymaint o gytundeb ag sy'n bosibl a gyda golwg ar gytuno'n gynnar ar Benawdau'r Telerau ar gyfer Cytundebau Adran 106.<br><br>10. Cyfeirir at 'ddosbarthu cronfeydd er mwyn cefnogi'r cymunedau a fydd yn cynnal y prosiect' ac 'effeithiau cronnus ar gymdogion agosaf y prosiect'. Mae'r rhain yn cael eu croesawu gan CSYM gan eu bod yn dilyn yr 'Egwyddor Agosatrwydd'. Fodd bynnag, mae'r egwyddor hon yn cydnabod y bydd rhai effeithiau'n ymestyn ar draws weddill Ynys Môn, ac i'r tir mawr. Felly bydd y pecyn Manteision | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | cyffredinol yn berthnasol i'r cymunedau sy'n cynnal a thu hwnt gan ddibynnu ar effeithiau'r prosiect a'u mesurau lliniaru. Rhaid cael llawer mwy o fanylion am y cronfeydd hyn, at beth fyddan nhw'n cael eu targedu, sut byddan nhw'n cael eu darparu a sut byddan nhw'n cael eu monitro. | |
| **MATERION SAFLE PENODOL** | | | | |
| **Prif Safle'r Orsaf Bŵer** | **Cam 1: Paratoi a Chlirio'r Safle**<br>1. Roedd disgwyl cais Paratoi a Chlirio'r Safle (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref) mwy helaeth yn PAC2. Byddai hyn yn cynnwys gwaith mwy sylweddol ar gyfer clirio a lefelu'r safle, gwaith cloddio cysylltiedig a draeniau ynghyd â chau ffordd Bae Cemlyn yn barhaol a'i dargyfeirio. | **Cam 1: Paratoi a Chlirio'r Safle**<br>1. Rŵan yn cynnig mynd ar drywydd cwmpas gwaith llai ar gyfer Paratoi a Chlirio'r Safle cyn dyfarnu'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.<br>2. Mae ardal ddangosol y safle Paratoi a Chlirio'r Safle wedi cynyddu o oddeutu 270 hectar i oddeutu 300 hectar.<br>3. Ni fyddai uwchbridd yn cael ei symud mwyach a byddai'n cael ei roi mewn twmpathau storio dros dro ar y cam hwn.<br>4. Ni fyddai creigiau brig yn cael eu symud mwyach a byddent yn cael eu defnyddio fel ffynhonnell o ddeunyddiau adeiladu.<br>5. Nid yw'r ffyrdd cludo sy'n gysylltiedig â symud y creigiau brig a'r uwchbridd yn angenrheidiol mwyach.<br>6. Nid ydy llwybr mynediad diogelwch o fewn ffin y safle yn angenrheidiol mwyach.<br>7. Byddai ardaloedd o dir halogedig a chanclwm Japan rŵan yn cael eu trin ar y safle mewn compownd arbennig yn hytrach na'u cludo oddi ar y safle.<br>8. Byddai Hawliau Tramwy Cyhoeddus rŵan yn aros ar agor ar y cwm hwn, gyda gweithgareddau yn yr ardal gyfagos yn cael eu rheoli gan swyddogion i sicrhau diogelwch y cyhoedd.<br>9. Byddai mynediad at y Maes Parcio Fisherman ar hyd y ffordd gyhoeddus bresennol rŵan yn aros ar agor ar y cam hwn, gan reoli traffig cerbydau'r contractwr. | 1. Nid oes gan CSYM unrhyw broblem bod cwmpas y gwaith Paratoi a Chlirio'r Safle yn cael ei leihau cyn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, fodd bynnag mae angen llawer iawn mwy o eglurdeb ynghylch pa waith fydd yn cael ei gynnwys ym mha gydsyniad a phryd y byddan nhw'n cael eu gwneud. Mae CSYM yn cytuno â safbwynt yr Arolygiaeth Gynllunio yn y farn gwmpasu (adendwm 2017) nad ydy cwmpas y gwaith sydd i'w gynnwys yn y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref a'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn glir a bod angen rhagor o fanylion. Mae CSYM yn dal i weld y cam Paratoi a Chlirio'r Safle fel dechrau'r prosiect ac mae'n gofyn am ymrwymiad cadarn ac ymrwymol gan Horizon y defnyddir cynifer â phosibl o bobl, cwmnïau a chontractwyr lleol yn ystod y cam hwn drwy'r Froceriaeth berthnasol fel rhan o fesurau lliniaru'r prosiect.<br>2. Mae CSYM yn croesawu ymrwymiad Horizon i weithio ar y cyd â'r sector cyhoeddus i dreialu'r Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau yn ystod y gwaith hwn. Byddem yn awyddus i weld hyn yn cael ei gyflwyno ymhellach ar ôl y cam Paratoi a Chlirio'r Safle.<br>3. Mae CSYM yn gofyn am gael gweld rhaglen caffael a strategaeth contractau Horizon i gael eglurder a hyder bod contractau lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer y gwaith Paratoi a Chlirio'r Safle. Mae angen i gontractau fod o fewn cyrraedd cwmnïau lleol a byddai CSYM yn fodlon darparu enghreifftiau o ddulliau blaenorol o becynnu contractau sydd wedi galluogi cwmnïau llai a chwmnïau rhanbarthol i gynnig am waith yn llwyddiannus, gan gynnwys y gwelliannau i'r A5025. | |
| | **Cam 2: Prif Waith Adeiladu**<br>1. Gweler Newidiadau PAC3. | **Cam 2: Prif Waith Adeiladu**<br>1. Mireinio'r dull adeiladu heb do, sy'n byrhau'r amserlen adeiladu drwy alluogi gwaith cyfochrog. Mae hyn yn golygu bod y gwaith gosod mecanyddol a thrydanol yn gallu dechrau'n gynharach a bod y gwaith adeiladu/sifil yn gallu dechrau'n gynharach a | 1. Wrth ystyried y diffyg manylion yn PAC3, nid oes gan CSYM ddim sylw ar hyn o bryd mewn perthynas â'r fethodoleg adeiladu. Mae angen rhagor o drafodaethau a manylion cyn cyflwyno'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | bydd yr adeiladu'n gallu bwrw ymlaen ar ôl iddo ddechrau.<br>2. Mae adeiladu heb do yn golygu bod modd dod â modiwlau mwy a fydd wedi'u cwblhau i'r safle a'u gosod, sydd â'r fantais o leihau'r gwaith ar y safle.<br>3. Mae disgwyl i'r Prif Gam Adeiladu bara saith mlynedd o ddechrau 2019 i ddiwedd 2025, sy'n arbed tua thri mis. Mae'r dull gweithredu gwell o ran dylunio ac adeiladu adeiladau'r adweithyddion hefyd yn arbed 10 mis yn y cam hwn.<br>4. Byddai gwaith pyllau setlo, sianeli draenio, tynnu uwchbridd a storio uwchbridd rŵan yn cael ei wneud yn y cam hwn yn hytrach na fel rhan o'r gwaith Paratoi a Chlirio'r Safle. | 2. Cefnogir yr egwyddor o leihau'r cyfnod adeiladu drwy fireinio a gwella methodolegau mewn egwyddor (unwaith eto yn amodol ar y manylion). | |
| | **Cam 3: Comisiynu a Gweithredu**<br>Amherthnasol | **Cam 3: Comisiynu a Gweithredu**<br>1. Ni fu dim newidiadau o sylwedd i'r Cam Comisiynu a Gweithredu ers yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau. | 1. Gan na fu dim newidiadau sylweddol i'r Comisiynu a'r Gweithredu, mae'r sylwadau a wnaed gan CSYM mewn ymateb i PAC2 yn dal yn berthnasol | |
| | **Cam 4: Datgomisiynu**<br>Amherthnasol | **Cam 4: Datgomisiynu**<br>1. Ni fu dim newidiadau o sylwedd i'r Cam Datgomisiynu ers yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau. | 1. Gan na fu dim newidiadau sylweddol i'r Cam Datgomisiynu mae'r sylwadau a wnaed gan CSYM mewn ymateb i PAC2 yn dal yn berthnasol | |
| | **Cynllun a Dyluniad yr Orsaf Bŵer** | **Cynllun a Dyluniad yr Orsaf Bŵer** | | |
| | 1. Ardal safle gorsaf bŵer fwy gydag adeiladau'r adweithyddion ar ddwy ardal annibynnol ymhellach i ffwrdd oddi wrth ei gilydd. | 1. Mae ardal Safle'r Orsaf Bŵer yn llai ac mae ffens y ffin rŵan yn cael ei leoli ymhellach i ffwrdd oddi wrth yr A5025 a'r cymunedau lleol. | 1. Mae'r egwyddor o optimeiddio a lleihau ôl troed / ardal datblygu'r orsaf bŵer yn cael ei chroesawu. Er bod CSYM yn gwerthfawrogi bod ffens y ffin ymhellach i ffwrdd oddi wrth yr A5025 a'r cymunedau lleol, mae hwn yn dal yn safle adeiladu enfawr a bydd yr effeithiau'n weddol debyg (i sefyllfa PAC2). Ni ddylai Horizon fychanu graddfa ac effaith y prosiect adeiladu hwn. Bydd Ynys Môn i gyd yn teimlo ei effeithiau dros y 1—15 mlynedd nesaf ac felly mae'n sylweddol. | |
| | 2. Ardal safle gorsaf bŵer fwy gyda'r adweithyddion ar ddwy ardal annibynnol ymhellach i ffwrdd oddi wrth ei gilydd. | 2. Mae adeiladau'r adweithyddion a'r adeiladau cysylltiedig rŵan yn cael eu cyfuno ar un 'Ynys Pŵer' yn hytrach na dwy ardal annibynnol. | 2. Unwaith eto, cydnabyddir yr egwyddor o optimeiddio ac mae ganddi fanteision amlwg i Horizon o ran cost, amserlen, gostyngiad mewn deunyddiau adeiladu a gofynion gweithredol. Croesewir hefyd mewn egwyddor yr ardal datblygu / ôl troed llai o safbwynt tirwedd ac effaith weledol. | |
| | 3. Roedd y cynnig yn cynnwys dau adeilad adweithydd, dau adeilad tyrbin, dau adeilad rheoli, un adeilad gwasanaethu ac un adeilad gwastraff ymbelydrol. | 3. Bydd yr 'Ynys Pŵer' yn cynnwys dau adeilad adweithydd, dau adeilad tyrbin, dau adeilad rheoli, un adeilad gwasanaethu ac un adeilad gwastraff ymbelydrol. | 3. Wrth ystyried yr 'ynys pŵer', o ran CSYM ni fu llawer o newid rhwng PAC2 a PAC3 – mae'n dal yn orsaf bŵer niwclear gyda 2 adweithydd a fydd yn cynhyrchu 2,700 MW o drydan, yn galw am 8,000+ o weithwyr adeiladu a 850 o weithwyr gweithredol. | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 4. Safle llai effeithlon gyda dau o bopeth bron. I bob pwrpas roedd cynnig PAC2 yn ddwy orsaf bŵer ar un safle. | 4. Mae rhai o'r adeiladau, strwythurau a nodweddion sydd eu hangen i gynhyrchu pŵer neu i gefnogi'r Orsaf Bŵer wedi cael eu cyfuno i wneud dyluniad ac adeiladau'r Orsaf Bŵer yn fwy effeithlon. | 4. Dim sylw. | |
| | 5. Cafodd dau opsiwn eu hystyried yn PAC2 i) yr un lleoliad â strwythur gollwng presennol Magnox; a, ii) yn nes i fyny'r arfordir ar Drwyn Wylfa. Roedd y lleoliad a oedd yn cael ei ffafrio ar gyfer y strwythur gollwng yn yr un lleoliad â strwythur gollwng presennol Magnox (ffigur 6.13 y Brif Ddogfen Ymgynghori). | 5. Byddai strwythur gollwng y System Dŵr Oeri rŵan yn yr un lleoliad â strwythur gollwng yr Orsaf Bŵer Bresennol. Roedd hyn wedi'i nodi'n flaenorol fel un o ddau safle posibl. Byddai'r lleoliad hwn yn caniatáu ailddefnyddio'r sianel sydd eisoes wedi'i thorri i wely'r môr a dyma'r dewis mae Horizon yn ei ffafrio. | 5. Mae CSYM yn cefnogi bod y strwythur gollwng yn yr un lleoliad â strwythur gollwng Gorsaf Bŵer bresennol Magnox. | |
| | 6. Roedd yr adeilad Hyfforddiant ac Efelychu arfaethedig yn PAC2 yn cael ei gynnig i'r dwyrain o'r orsaf bŵer arfaethedig, wrth ymyl Pentref Tregele. | 6. Mae'r lleoliad sy'n cael ei ffafrio ar gyfer yr Adeilad Hyfforddiant ac Efelychu wedi symud o'r dwyrain i'r Orsaf Bŵer i leoliad i'r de o'r Orsaf Bŵer. Mae'r lleoliad diwygiedig ymhellach oddi wrth bentref Tregele. | 6. Mae CSYM yn cefnogi symud lleoliad yr adeilad hyfforddiant ac efelychu i'r de o'r orsaf bŵer, i ffwrdd oddi wrth Dregele. Fodd bynnag mae'n rhaid cael rhagor o fanylion ynghylch ei union raddfa, lleoliad, dyluniad, cynllun ac ati cyn i CSYM allu rhoi sylw pendant. | |
| | **Cyfleuster Dadlwytho Morol** | **Cyfleuster Dadlwytho Morol** | | |
| | 1. Roedd y Morglawdd Dwyreiniol tua 90 metr o hyd yn PAC2. | 1. Mae hyd y Morglawdd Dwyreiniol wedi cynyddu tua 60m ac mae cyfanswm ei hyd rŵan tua 150m. | 1. Dim sylw. | |
| | 2. Roedd dau opsiwn yn cael eu hystyried yn PAC2 ar gyfer adeiladu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol a'r strwythur sugno dŵr oeri – opsiwn gwlyb a lled-sych.<br>Mae opsiwn lled-sych yn golygu pan fydd rhywfaint o waith cloddio yn cael ei wneud yn sych y tu cefn i argae coffr a bydd rhywfaint o waith cloddio'n cael ei wneud drwy garthu o dan y dŵr; ac mae opsiwn gwlyb yn golygu pan fydd yr holl waith cloddio'n cael ei wneud drwy garthu a ffrwydro o dan y dŵr. | 2. Mae hyd y Morglawdd Gorllewinol rŵan wedi lleihau hyd at tua 50m, ac mae cyfanswm ei hyd rŵan tua 500m. Mae'r morglawdd hwn hefyd wedi symud tua 20 metr i'r gorllewin (ymhellach allan i'r môr). Roedd carthu o flaen morlin Porth-y-pistyll wedi cael ei gynnig yn flaenorol mewn un o ddwy ffordd: o dan y dŵr; neu, drwy ddefnyddio argae coffr dros dro (adeiladu lled-sych). Mae'r dull gweithredu lled-sych rŵan yn cael ei ffafrio oherwydd ei fod yn lleihau faint o ddeunyddiau fydd angen eu cloddio o dan y dŵr, mae'n osgoi'r angen am ffrwydro o dan y dŵr, ac yn gwella diogelwch a rheolaeth y gweithgareddau adeiladu, y bydd modd eu gwneud yn sych y tu ôl i'r argae coffr. | 2. Mae CSYM yn cefnogi'r ymrwymiad i ddefnyddio dull adeiladu lled-sych ar gyfer y Cyfleuster Dadlwytho Morol. Bydd hyn yn lleihau faint o ddeunyddiau y bydd angen eu cloddio o dan y dŵr a bydd yn gwella ansawdd y dŵr a'r tyrfedd sydd wedi bod yn fater ym Mae Cemaes yn ddiweddar (ansawdd dŵr ymdrochi). Fodd bynnag, mae CSYM yn nodi y bydd opsiwn lled-sych yn arwain at allyriadau llwch uwch a bydd angen rheoli a monitro hyn yn ofalus. Bydd angen lliniaru unrhyw effeithiau amgylcheddol neu gymdeithasol annerbyniol yn briodol. | |
| | 3. Cynnig Cyfleuster Dadlwytho Morol wrth ymyl morglawdd gogledd ddwyreiniol y System Dŵr Oeri, gan gynnwys dau gei ar wahân. Byddai un cei yn caniatáu i Lwythi Anwahanadwy Anghyffredin, offer a chyfarpar mawr gael eu gyrru oddi ar y llongau (o'r enw cei Rolio ymlaen/Rolio ffwrdd), a byddai'r llall yn golygu bod modd codi deunyddiau swmpus i'r lan drwy ddefnyddio craen (y cei deunyddiau swmpus). | 3. Mae dyluniad y Cyfleuster Dadlwytho Morol rŵan yn darparu dau lwyfan (gyda thri chei) gyda sawl bwi angori, yn hytrach nag un wal cei hir. Mae'r newidiadau'n cynyddu capasiti delio â chargo y Cyfleuster Dadlwytho Morol ac yn lleihau faint o gloddio fydd angen ei wneud ar wely'r môr. | 3. Mewn egwyddor mae CSYM yn cefnogi'r newidiadau i'r Cyfleuster Dadlwytho Morol er mwyn gallu delio â mwy o gargo. Byddai CSYM yn hybu bod cymaint o ddeunyddiau â phosibl yn dod drwy'r Cyfleuster Dadlwytho Morol er mwyn lleihau unrhyw effaith bosibl ar y rhwydwaith priffyrdd cymaint ag y bo modd. Fodd bynnag ni ddylid gweld yr A5025 fel ateb wrth gefn os bydd unrhyw oedi cyn darparu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol oni bai fod hynny'n | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | cael ei asesu'n llawn a bod yr effeithiau'n cael eu lliniaru'n briodol. Mae sefyllfa wrth gefn heb becyn lliniaru ychwanegol yn annerbyniol. | |
| | 4. Tua 48 o symudiadau llongau'r mis. | 4. Byddai symudiadau llongau'n cynyddu o oddeutu 48 y mis i oddeutu 55 y mis. | 4. Er bod hwn yn gynnydd cymharol fach rhwng PAC2 a PAC3, byddai CSYM yn gofyn am ragor o fanylion ynghylch symudiadau llongau (ee proffil misol o niferoedd/symudiadau'r llongau) er mwyn sicrhau bod yr effaith yn cael ei rheoli'n briodol. CSYM ydy Awdurdod Porthladd Amlwch a Stena Line ydy Awdurdod Porthladd Caergybi. Mae'r gweithgarwch cynyddol hwn yn debyg o gael effaith sylweddol mewn ardal cymharol fach ac mae CSYM yn credu ei bod hi'n hanfodol cael trafodaeth benodol gyda'r ddau barti o ran diogelwch arfordirol gyda golwg bosibl ar Stena yn dod yn Awdurdod Porthladd ar gyfer y ddau | |
| | 5. Dechrau adeiladu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol ganol 2018 a'i gwblhau yn 2020 mewn da bryd ar gyfer y nwyddau sylweddol cyntaf ar gyfer y gwaith adeiladu. | 5. Adeiladu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol a'r morgloddiau (2 flynedd). Dyddiad dechrau disgwyliedig yn 2019. | 5. Mae CSYM yn poeni y bydd unrhyw oedi o ran adeiladu a chyflawni'r Cyfleuster Dadlwytho Morol yn gallu cael effaith sylweddol ar y rhwydwaith priffyrdd. Mae CSYM yn gofyn am eglurhad a sicrwydd gan Horizon y bydd y Cyfleuster Dadlwytho Morol yn weithredol erbyn 2021 mewn da bryd ar gyfer y prif waith adeiladu a pha fesurau lliniaru sy'n cael eu hystyried ar gyfer unrhyw oedi. Rhaid cael rhagor o fanylion hefyd ynghylch faint o ddeunyddiau adeiladu y mae disgwyl iddynt gael eu cludo i'r safle wrth i'r Cyfleuster Dadlwytho Morol gael ei adeiladu. Mae unrhyw ddefnydd o'r A5025 fel sefyllfa wrth gefn yn gwbl annerbyniol heb asesiad llawn o'r effaith a heb gytuno ar becyn lliniaru priodol. | |
| | | | | |
| **Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer** | **Garej Offer Argyfwng Symudol, Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen a Labordy Arolygon Amgylcheddol** | **Garej Offer Argyfwng Symudol, Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen a Labordy Arolygon Amgylcheddol** | | |
| | 1. Yn PAC 2 roedd adeiladau'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen a'r Labordy Arolygon Amgylcheddol yn cael eu cynnig yn safle Cefn Coch rhwng yr A5025 bresennol a'r darn newydd o'r A5025 a gynigir. | 1. Nid ydy cyfleusterau'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen a'r Labordy Arolygon Amgylcheddol bellach yn cael eu cynnig ar y safle maes glas yng Nghefn Coch, na'r safle arall yn ysgol Cylch y Garn (safle Llanrhuddlad). | 1. Mae CSYM yn cefnogi peidio â lleoli'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen a'r Labordy Arolygon Amgylcheddol yn safle Cefn Coch. Mewn egwyddor cefnogir lleoli'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol mewn un lleoliad (yn amodol ar ddyluniad ac asesiad manwl). | |
| | 2. Roedd safle Cefn Coch yn cael ei gynnig ar gyfer adeilad y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen a'r Labordy Arolygon Amgylcheddol (hy cyfuno'r ddau mewn un adeilad). | 2. Bydd safle Cefn Coch yn cael ei ddefnyddio dros dro fel compownd adeiladu ar gyfer y Gwelliannau i'r Briffordd i storio peiriannau a deunyddiau, ond ar ôl hynny bydd yn cael ei adfer i fod yn ardal o laswellt. | 2. Mewn egwyddor mae CSYM yn cefnogi defnyddio safle Cefn Coch dros dro fel compownd adeiladu ar gyfer y gwaith gwelliannau i briffordd yr A5025. Fodd bynnag | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | rhaid cael rhagor o fanylion i asesu'r effeithiau cronnus posibl gydag adeiladu'r Ysgol newydd a gweithgareddau eraill. | |
| | 3. Roedd y Garej Offer Argyfwng Symudol yn adeilad annibynnol yn PAC2 ar safle Llanfaethlu (hen safle O R Jones). Roedd y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen a'r Labordy Arolygon Amgylcheddol yn cael eu cyfuno mewn un adeilad ar safle Cefn Coch. | 3. Cynigir rŵan cyfuno cyfleusterau'r Garej Offer Argyfwng Symudol a'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen mewn un adeilad, gyda'r Labordy Arolygon Amgylcheddol mewn adeilad ar wahân ar safle Llanfaethlu. | 3. Cefnogir y newid hwn oherwydd bydd ôl troed safle Llanfaethlu yn debyg i PAC2 ac ni fydd safle Cefn Coch yn cael ei ddefnyddio. | |
| | 4. Roedd y Garej Offer Argyfwng Symudol i gynnwys dau adeilad parhaol. Mae'r prif adeilad yn strwythur un llawr gyda'r dimensiynau mwyaf tua 56m o hyd, 24m o led a 13.6m o uchder. Mae yna adeilad storio cerbydau ysgafn hefyd gyda'r dimensiynau mwyaf tua 30.5m o hyd, 18.5m o led ac uchafswm o 8.5m o uchder; | 4. Mae adeilad cyfun y Garej Offer Argyfwng Symudol a'r Ganolfan Rheoli Argyfwng yn aros tua'r un maint â'r hyn a oedd wedi cael ei gynnig ar gyfer yr adeilad annibynnol ar gyfer y Garej Offer Argyfwng Symudol. Nid oes angen y storfa cerbydau ysgafn mwyach a chaiff ei ddisodli gan y Labordy Arolygon Amgylcheddol. | 4. Cefnogir y newid hwn. | |
| | 5. Roedd y Labordy Arolygon Amgylcheddol yn cael ei gyfuno gyda'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen yn y safle Cefn Coch yn PAC2. | 5. Wrth gymharu â'r adeilad blaenorol ar gyfer y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, byddai'r adeilad annibynnol Labordy Arolygon Amgylcheddol yn cael ei leihau tua 3 metr o ran uchder, 2 fetr mewn lled a 26 metr o hyd. Mae effaith cyfuno'r cyfleusterau ar un safle felly yn lleihau maint cyffredinol y datblygiad bydd angen ei adeiladu. | 5. Cefnogir y newid hwn. | |
| | 6. Nid oedd dim parcio ychwanegol yn cael ei gynnig fel rhan o PAC2. | 6. Mae llefydd parcio ychwanegol rŵan yn cael eu lleoli i'r de o'r safle a bydd digon o lefydd ar gyfer 50 o gerbydau ar unrhyw un adeg, i'w defnyddio gan fwyaf yn ystod hyfforddiant neu os bydd digwyddiad, sy'n annhebygol iawn. Mae ardal y safle wedi cynyddu er mwyn gallu delio â'r newid hwn. | 6. Nid oes gan CSYM unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r maes parcio ychwanegol (yn amodol ar ddyluniad manwl). Er bod ardal y safle wedi cynyddu o ganlyniad, bydd yr ardal parcio glaswellt wedi'i atgyfnerthu yn lleihau'r effaith weledol. | |
| | 7. Byddai gan y Garej Offer Argyfwng Symudol weithlu gweithredol o hyd at bedwar aelod o staff a 12 o yrwyr yn ystod hyfforddiant (a fyddai'n digwydd yn ystod oriau gwaith arferol tua unwaith y flwyddyn). Roedd disgwyl y byddai angen dau aelod o staff yn y Labordy Arolygon Amgylcheddol yn rheolaidd. Yn ystod gweithrediad arferol yr Orsaf Bŵer, byddai disgwyl i'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen gael ei defnyddio dim ond unwaith y flwyddyn ar gyfer ymarfer digwyddiad blynyddol.<br>8. Byddai hyfforddiant yn y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen yn digwydd ar adegau rheolaidd, gan gynnwys nifer bach o staff yn defnyddio prif ardal y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen am gyfnod cyfyngedig. Tua unwaith y mis, byddai angen gwneud gwaith | 7. Byddai gweithlu gweithredol o oddeutu tri aelod o staff yn y Labordy Arolygon Amgylcheddol yn rheolaidd. Ni fyddai staff fel rheol yn y Garej Offer Argyfwng Symudol na'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen. Fodd bynnag os bydd digwyddiad neu hyfforddiant, gallai fod gweithlu cyfun o oddeutu 85 yn gweithio yn y Garej Offer Argyfwng Symudol a'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen. | 7. Nid oes llawer o newid rhwng PAC2 a PAC3 o ran y gweithlu gweithredol. Ni fydd dim staff gweithredol yn y Garej Offer Argyfwng Symudol na'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen (dim ond yn ystod hyfforddiant neu os bydd argyfwng) a bydd gan y Labordy Arolygon Amgylcheddol 3 aelod o staff yn rheolaidd. Fodd bynnag byddai CSYM yn gofyn am ragor o wybodaeth am yr ymarferion hyfforddiant a pha mor aml byddai'r rhain yn digwydd, eu hyd, faint o weithwyr, siwrneiau cerbydau ac ati byddai hyn yn ei olygu oherwydd gallai hyn effeithio ar gymunedau lleol, ysgolion ac ati. Gellid lleihau / lliniaru'r effeithiau hyn drwy drafodaethau a chytundeb. | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cynnal a chadw yn y cyfleuster, a all gynnwys rhedeg generadur wrth gefn am gyfnod byr. | | | |
| | 9. Yn ystod PAC2, roedd amcangyfrif y byddai'r llifoedd Traffig Dyddiol Cyfartalog Blynyddol yn ystod adeiladu'r Garej Offer Argyfwng Symudol yn safle Llanfaethlu tua 140 o gerbydau bob dydd (ee 70 o gerbydau i mewn a 70 o gerbydau allan) – ond am un mis yn ystod y cyfnod adeiladu prysuraf byddai hyn yn codi i oddeutu 270 o gerbydau bob dydd (hy 135 o gerbydau i mewn a 135 o gerbydau allan).<br>10. Ar gyfer y safle Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen/Labordy Arolygon Amgylcheddol yng Nghefn Coch modelwyd y byddai'r Llifoedd Traffig Dyddiol Blynyddol Cyfartalog yn 270 o gerbydau bob dydd (135 o gerbydau i mewn a 135 o gerbydau allan).<br>11. Hefyd yng Ngham Dau, roedd tybio y byddai adeilad y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen/Labordy Arolygon Amgylcheddol yng Nghefn Coch, neu Lanrhuddlad, yn golygu 360 o gerbydau bob dydd ar yr adeg adeiladu prysuraf (hy 180 o gerbydau i mewn a 180 o gerbydau allan) ar gyfer y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen/Labordy Arolygon Amgylcheddol. | 8. Yn ystod y cyfnod adeiladu prysuraf, byddai tua 100 o gerbydau'n cyrraedd a thua 100 o gerbydau'n gadael y safle bob dydd (byddai llai na 25 o'r cerbydau hyn yn gerbydau nwyddau trwm). Mae'r gostyngiad sylweddol hwn o 500 o symudiadau cerbydau ers yr ymgynghoriad blaenorol wedi deillio o gyfuno Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar un safle. | 8. Mae CSYM yn croesawu'r gostyngiad sylweddol yn nifer y symudiadau cerbydau yn ystod adeiladu'r cyfleusterau oddi ar safle'r orsaf bŵer. Byddai CSYM yn gofyn bod effaith y gwaith adeiladu'n cael ei mesur ar y cyd â gweithgareddau eraill er mwyn lleihau'r amharu pan fo'n bosibl (hy gwelliannau i briffordd yr A5025, mwy o weithwyr adeiladu Wylfa Newydd yn defnyddio'r ffordd, adeiladu'r ysgol newydd ac ati). | |
| | 12. Dim manylion ynghylch symudiadau cerbydau fesul diwrnod yn ystod y cam gweithredu, ond wrth ystyried mai dim ond dau o bobl y byddai eu hangen i redeg y cyfleuster, bach iawn fyddai hyn. | 9. Bydd cyfanswm nifer y symudiadau cerbydau fesul diwrnod ar gyfer y cam gweithredol yn oddeutu pum cerbyd yn cyrraedd a phum cerbyd yn gadael y dydd. Bydd y ffigur hwn yn cynyddu yn ystod digwyddiad neu hyfforddiant. | 9. Dim sylw. | |
| | 13. Byddai'r adeiladu yn dechrau ar ôl y Penderfyniad Buddsoddi Terfynol a byddai'n weithredol erbyn 2023. | 10. Mae disgwyl i'r cyfnod adeiladu fod rhwng 2020 a 2023. Byddai'r cyfleusterau wedyn yn weithredol nes byddai'r Orsaf Bŵer yn cael ei datgomisiynu. | 10. Fel gyda'r sylwadau eraill uchod, bydd nifer o weithgareddau Horizon rŵan yn dechrau ar ôl y Penderfyniad Buddsoddi Terfynol felly mae angen ystyried yr effeithiau cronnus.<br>11. Mae CSYM yn gofyn bod rhaglen caffael Horizon, ei strategaeth contractau gan gynnwys manylion ynghylch sut bydd cynnwys lleol (math a maint contract) yn cael ei gynyddu a'i reoli er mwyn darparu sicrwydd a hyder y bydd busnesau Gogledd Cymru yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael | |
| | - Gadel rhywbeth i'r dyfodol: O ran defnyddio'r adeiladau a'r tir yn y dyfodol, mae hyn yn rhywbeth a fyddai'n cael ei reoli fel rhan o'r rhaglen ddatgomisiynu mewn perthynas â'r safle yn gyffredinol, byddai angen i unrhyw | 11. Ar hyn o bryd, tybir y byddai adeiladau'r Garej Offer Argyfwng Symudol, Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen a'r Labordy Arolygon Amgylcheddol yn cael eu datgomisiynu a'u cymryd o'r safle tua'r un pryd ag y byddai'r Orsaf Bŵer yn dechrau cael ei | 12. Byddai CSYM yn awgrymu bod y defnydd a wneir o'r adeiladau yn y dyfodol yn cael ei ail asesu ar ôl iddynt gael eu datgomisiynu. Efallai fod defnydd amgen yn y dyfodol i'r adeiladau er mwyn osgoi'r angen i'w symud/dymchwel. | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gynigion eraill y tu hwnt i'r cyfnod hwn gael eu hystyried a'u pennu fel rhan o gais cynllunio yn y dyfodol. | datgomisiynu tua diwedd ei hoes gweithredol. Byddai'n rhaid ystyried unrhyw gynigion amgen ar gyfer defnyddio'r adeilad neu'r safle y tu hwnt i'r cyfnod hwn a phenderfynu ar hynny fel rhan o gais cynllunio yn y dyfodol ar yr adeg honno. | | |
| | | | | |
| **Parcio a Theithio Dalar Hir** | 1. Gallu darparu lle i 2,700 o geir, 55 bws mini, 94 beic modur a 84 beic. | 1. Rŵan yn gallu darparu lle ar gyfer 1,900 o geir, 35 o feiciau modur a 35 o feiciau. | 1. Mae CSYM o'r un farn ag oedd adeg PAC2 ac ni ystyrir bod Dalar Hir yn leoliad addas ar gyfer cyfleuster Parcio a Theithio. | |
| | 2. Roedd yr adeilad cyfleuster terfynell bysiau dros dro yn 61m x 27m x 12m yn PAC2. | 2. Bydd adeilad y cyfleuster terfynell bysiau rŵan tua hanner y maint sef 29m o hyd x 12m o led a 7m o uchder. | 2. Dim sylw nes y cytunir ar y mater uchod. | |
| | 3. Roedd parth aros y bysiau i godi a gollwng teithwyr ar gyfer 40 o fysiau ar unrhyw un adeg. | 3. Mae hyn rŵan ar gyfer 15 o fysiau (gyda lle ychwanegol ar gyfer 8 o fysiau) gan fod y gostyngiad yn y galw am barcio bob dydd wedi lleihau nifer y bysiau y bydd eu hangen. | 3. Dim sylw nes y cytunir ar y mater uchod. | |
| | 4. Roedd mwyafrif y gweithwyr adeiladu ar y safle Parcio a Theithio ar unrhyw un adeg yn 120 o weithwyr. | 4. Mae mwyafrif y gweithwyr adeiladu ar y safle Parcio a Theithio ar unrhyw un adeg wedi'i leihau i 70. | 4. Dim sylw nes y cytunir ar y mater uchod. | |
| | 5. Roedd disgwyl 40 o yrwyr bysiau a 15 aelod o staff. | 5. Mae Horizon rŵan yn cynnig cael 15 o yrwyr bysiau gyda 10 aelod o staff. Sut gall uchafswm y symudiadau cerbydau fesul dydd gynyddu o 42 i 48 gyda llai o yrwyr bysiau? | 5. Dim sylw nes y cytunir ar y mater uchod. | |
| | 6. Gweithredol rhwng yn gynnar yn y 2020au a 2026. | 6. Gweithredol rhwng 2020 a 2027. | 6. Dim sylw nes y cytunir ar y mater uchod. | |
| | 7. Uchafswm o 42 o symudiadau bws dyddiol yn ôl ac ymlaen o Dalar Hir i safle Wylfa Newydd. | 7. Uchafswm o 48 o siwrneiau bws dyddiol yn ôl ac ymlaen o Dalar Hir i Brif Safle'r Orsaf Bŵer. Yn ogystal â'r symudiadau dyddiol hyn byddai hyd at bump o symudiadau bws i ddarparu cludiant i'r gweithwyr adeiladu sy'n byw yng Nghampws y Safle sy'n teithio yn ôl ac ymlaen o'u preswylfa ar gyfer eu toriad penwythnos. | 7. Dim sylw nes y cytunir ar y mater uchod. | |
| | 8. Defnydd i'r dyfodol – cynnig adfer y safle i'w gyflwr blaenorol (tir amaethyddol). | 8. Yn dal i gynnig adfer y safle i'w gyflwr blaenorol (tir amaethyddol). | 8. Yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy (a'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol), mae CSYM yn credu y dylai defnydd y safle yn y dyfodol gael ei ail asesu pan na fydd ei angen mwyach fel cyfleuster parcio a theithio.<br>9. Mae dull Horizon o ddymchwel popeth nad ydynt ei angen mwyach yn gynllunio gwael iawn ac mae'n mynd yn gwbl groes i egwyddorion datblygu cynaliadwy. | |
| | 9. Tybiwyd y byddai'r bysiau yn aros ar y safle (Wylfa) yn ystod y cyfnodau rhwng y tripiau i'r cyfleuster Parcio a Theithio. | 9. Bydd y bysiau rŵan yn dychwelyd i'r safle Parcio a Theithio rhwng tripiau. | 10. Nid oes gan CSYM unrhyw broblem gyda hyn mewn egwyddor. Fodd bynnag, os bydd gweithwyr sy'n byw yn y Llety Gweithwyr Dros Dro eisiau dychwelyd i'r Parcio a Theithio yna | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | bydd angen i fysiau mini fod ar gael ar gyfer y siwrneiau hyn. Yn yr un modd, ni fydd yr holl weithwyr a fydd yn byw yn y Llety Gweithwyr Dros Dro yn cyrraedd ar yr un pryd felly bydd hefyd angen cael bysiau mini i gludo'r gweithwyr hyn yn ôl ac ymlaen i'r safle (o'r safle parcio a theithio). | |
| | | | | |
| **Canolfan Logisteg Parc Cybi** | 1. Dynodwyd Parc Cybi i ddarparu lle ar gyfer 56 HGV, 4 MGV a 6 LGV. | 1. Mae'r safle rŵan yn gallu darparu lle ar gyfer hyd at 100 HGV. MGV neu LGV ar unrhyw un adeg. Mae'r llefydd parcio HGV rŵan yn cael eu lleoli'n fwy canolog er mwyn symleiddio dosbarthiad y cerbydau nwyddau trwm. Fodd bynnag roedd PAC2 yn datgan y gallai Parc Cybi ddarparu lle ar gyfer hyd at 100 gerbyd nwyddau trwm (paragraff 13.22 y Brif Ddogfen Ymgynghori). | 1. Mae CSYM yn credu bod dyluniad a chynllun y Ganolfan Logisteg wedi gwella'n sylweddol ers PAC2. | |
| | 2. Yn ystod y cyfnodau prysuraf, byddai hyd at 80 o gerbydau yn cyrraedd a 80 o gerbydau yn gadael y cyfleuster yr awr. | 2. Yn ystod y cyfnodau prysuraf, byddai hyd at 40 o gerbydau'n cyrraedd a 40 o gerbydau'n gadael y cyfleuster fesul awr. | 2. Croesewir y gostyngiad hwn yn nifer y cerbydau a fydd yn cyrraedd ac yn gadael fesul awr. Byddai CSYM yn gofyn bod hyn yn cael ei fonitro'n drwyadl a bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau na eir dros y lefel uchaf hon. | |
| | 3. Roedd cyfanswm nifer y symudiadau cerbydau y dydd yn 150 o gerbydau yn cyrraedd ac yn gadael y dydd. | 3. Mae cyfanswm y symudiadau cerbydau fesul diwrnod wedi cynyddu i oddeutu 160 o gerbydau'n cyrraedd ac yn gadael fesul diwrnod (hy ym mhob cyfeiriad). | 3. Mae angen ail asesu a monitro effaith y cynnydd hwn mewn symudiadau HGV o ran allyriadau ar y safle a theithio. | |
| | 4. Cynigiwyd y byddai llwythi llai o nwyddau'n cael eu cyfuno ar gerbydau mwy ac y byddai hyn yn digwydd ym Mharc Cybi i leihau nifer y symudiadau cerbydau. | 4. Cynigir rŵan cyflawni hyn yn y ffynhonnell drwy gydweithrediad â chyflenwyr. | 4. Mae'r dull gweithredu hwn yn cael ei groesawu a'i gefnogi. | |
| | 5. Roedd yr adeilad lles a diogelwch yn PAC2 yn 22m o hyd, yn 16m o led ac yn 4m o uchder | 5. Mae maint yr adeilad lles a diogelwch wedi cynyddu i 27m o hyd, 15m o led a 4m o uchder ac mae disgwyl iddo rŵan gael ei leoli yng ngorllewin y safle. | 5. Dim sylw. | |
| | 6. Roedd uchafswm nifer y gweithwyr adeiladu i adeiladu'r Ganolfan Logisteg ar unrhyw adeg yn 120. | 6. Mae uchafswm nifer y gweithwyr adeiladu ar y safle ar unrhyw un adeg wedi gostwng i 40. | 6. Er bod CSYM yn siomedig gyda'r gostyngiad yn nifer y gweithwyr adeiladu, byddem yn gofyn bod cwmnïau lleol yn cael eu defnyddio ar gyfer y gwaith adeiladu hwn pan fo'n bosibl.<br>7. Fodd bynnag, mae CSYM yn gofyn am Gynllun Caffael i gynyddu cyfranogiad cwmnïau lleol. | |
| | 7. Mae disgwyl i'r oriau gwaith yn y Ganolfan Logisteg fod yn 7.5 awr y dydd am bum niwrnod yr wythnos o leiaf i uchafswm o 24 awr y dydd saith niwrnod yr wythnos yn ystod y cyfnod adeiladu prysuraf. | 7. Byddai'r cyfleuster yn weithredol ***24 awr y dydd.*** | 8. Mae hyn yn newid sylweddol ers PAC2. Byddai CSYM yn gofyn am ragor o fanylion ynghylch symudiadau cerbydau (dydd / nos) i sicrhau bod yr effeithiau'n cael eu lliniaru pan fo'n bosibl. | |
| | 8. Byddai tua 47 aelod o staff yn cael eu cyflogi yn y Ganolfan Logisteg (paragraff 13.39 y Brif Ddogfen Ymgynghori). | 8. Bydd gan y Ganolfan Logisteg rŵan weithlu gweithredol o oddeutu 14 aelod o staff. | 9. Er bod CSYM eto yn siomedig yng ngostyngiad y gweithwyr gweithredol y bydd eu hangen, mae hyn yn ddealladwy wrth ystyried y bydd y llwythi'n cael eu cyfuno oddi ar y safle gan y cyflenwyr.<br>10. Dylid cynyddu cyflogaeth leol i'r perwyl hwn. | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 9. Roedd y Ganolfan Logisteg yn cynnwys warws 1,900 metr sgwâr ar gyfer cyfuno llwythi. | 9. Mae hyn wedi cael ei ddisodli gan fae archwilio dan do a fydd yn 22m o hyd, 12m o led ac yn 5.5m o uchder (264 metr sgwâr) oherwydd cynigir rŵan y byddai nwyddau sydd i'w danfon yn cael eu cyfuno yn y ffynhonnell pan fo'n bosibl (ac nid ar y safle). | 11. Dim sylw. | |
| | 10. Nid oedd dim llwybrau beicio yn cael eu cynnig i'r safle. | 10. Cynigir cysylltiad beicio uniongyrchol rŵan o lwybr beicio Lon Trefignath i'r safle. | 12. Cefnogir cynnwys llwybr beicio. | |
| | | | | |
| **Gwelliannau i Briffordd yr A5025** | 1. Gweler Newidiadau PAC3. | 1. **Adran 1** (rhwng yr A5 i'r dwyrain o'r Fali ac i'r gogledd o Gyffordd y Fali (A5/A5025): Mae'r gyffordd cylchfan arfaethedig wedi cael ei symud i fod yn rhan o welliannau i'r ffordd (i gael ei hadeiladu fel rhan o briffordd bresennol yr A5 yn hytrach na chael ei symud yn ôl oddi wrth y briffordd ac mae'r ffordd osgoi rŵan wedi cael ei symud tua 20m ymhellach i'r dwyrain i sicrhau bod y briffordd newydd y tu allan i'r parth llifogydd 1 mewn 100 mlynedd (+30% newid yn yr hinsawdd). Mae llwybr beicio a cherdded i'r de o'r gylchfan ac i ffwrdd oddi wrth ymyl y ffordd gerbydau rŵan yn cael ei gynnig er mwyn gwella diogelwch cerddwyr a beicwyr | 1. Cefnogir yr A5025 ar sail priffordd mewn egwyddor, fodd bynnag mae angen mesurau lliniaru er mwyn helpu'r busnesau y bydd hyn yn effeithio arnynt.<br>2. Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr ymateb i PAC2 (para. 8.1), mae CSYM yn croesawu'r gwelliannau a'r newidiadau a gynigir i'r A5025 gan eu bod yn hanfodol i Strategaeth Cludo Nwyddau Horizon. Fodd bynnag mae CSYM yn gofyn am gadarnhad y bydd gan y gylchfan newydd arfaethedig i'r A5025 yn y Fali a chyffordd/ffordd ymuno Cyffordd 3 yr A55 ddigon o gapasiti i allu delio â'r lefelau uchel o draffig a fydd yn gadael Wylfa i gael mynediad i'r A55, yn enwedig ar noson yr unfed dydd ar ddeg o gyfnod gweithio shifft.<br>3. Mae CSYM yn cydnabod bod angen yr addasiadau hyn ac mae'n gefnogol. | |
| | 2. Gweler Newidiadau PAC3. | 2. **Adran 3** (rhwng i'r gogledd o Lanynghenedl ac i'r gogledd o Lanfachraeth): Mae'r ffordd osgoi yn dal i gynnwys traphont uwch ar draws Afon Alaw, sydd tua 5m o uchder er mwyn i wartheg a cherddwyr allu croesi o dan y briffordd. Mae'r draphont tua 25m yn hirach i gynnwys 8m o hawddfraint rhwng y cwrs dŵr a'r ategwaith, o ganlyniad i ragor o waith modelu llifogydd a gafodd ei wneud ers Ymgynghoriad Cam Dau. Mae rhagor o dir i'r dwyrain wedi cael ei gynnwys er mwyn caniatáu i Fadfallod Dŵr Cribog allu mudo. | 4. Rydyn ni'n cefnogi'r newid hwn. | |
| | 3. Gweler Newidiadau PAC3. | 3. **Adran 5** (rhwng i'r de o Lanfaethlu ac i'r gogledd o Lanfaethlu): Mae tir ychwanegol i'r gorllewin wedi cael ei gynnwys er mwyn caniatáu i Fadfallod Dŵr Cribog allu mudo. | 5. Rydyn ni'n cefnogi'r newid hwn mewn egwyddor.<br>6. Bydd llif y traffig o bosibl yn effeithio ar yr Ysgol Rhyd y Llan newydd a'i disgyblion felly mae'n rhaid ystyried yn ofalus er mwyn rheoleiddio'r traffig yn ystod amseroedd agor a chau'r ysgol. | |
| | 4. Gweler Newidiadau PAC3. | 4. **Adran 7** (rhwng i'r gogledd o Lanrhuddlad ac i'r gogledd o Gefn Coch: Mae lled y ffordd gerbydau wedi lleihau o 7.3m i 6.7m yn y pen deheuol i leihau faint o waith cloddio fyddai ei angen, ac ar y pen gogleddol fel na fydd angen gwaith cloddio mewn coetir hynafol. | 7. Rydyn ni'n cefnogi'r newid hwn. | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 5. Gweler Newidiadau PAC3. | 5. Cynigir addasiadau rŵan i'r A5025 i'r de o Dregele i ddarparu cyffordd cylchfan newydd i gysylltu â Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer arfaethedig. | 8. Rydyn ni'n cefnogi'r newid hwn. | |

DRAFT